
ESGOBAETH TYDDEWI
CYNHADLEDD ESGOBAETHOL ARLINELL
Hydref 2021

# “Bod yn Ddisgybl: Y Ffordd Werdd”



*Rhagor o wybodaeth ar ein gwefan:*
*[www.stdavids.churchinwales.org.uk](www.stdavids.churchinwales.org.uk)*

Meithrin Gobaith
ESGOBAETH TYDDEWI
DIOCESE of ST DAVIDS
Growing Hope

**Y Gynhadledd Esgobaethol Arlinell**

**Dydd Sadwrn 2il Hydref 2021.**

## AGENDA ac Amserau

***Sesiwn 1 9.30am -11.15am Busnes***

| | |
|---|---|
| *O* 9.30am | Cofrestru |
| 9.45am | Profi Cyfarpar/Rheolau Cynhadledd Arlinell |
| 10.00am | 1. Croeso'r Llywydd |
| 10.05am | 2. Addoliad Dechreuol/Gweddïau |
| 10.25am | 3. Cofnodion Cyfarfod 24 Ebrill 2021 |
| | 4. Adroddiad y Pwyllgor Sefydlog |
| | 5. Cynigiad parthed Awdurdod Cyflawn |
| | 6. Adroddiad y BCE (yn cynnwys diweddariad am y Gyllideb a'r Gyfran Weinidogaethol) |
| | 7. Adroddiadau Blynyddol Pwyllgorau a Byrddau |
| | 8. Arolwg Blaenoriaethau Esgobaethol |
| 11.20am | 9. Cwestiynau |
| 11.35-11.45am | 10. Andrew Goodwin – RSCM – *Ministry of Music* |
| *11.45-12.00pm* | *Saib* |

***Sesiwn 2 12pm-1.30pm 2022 Blwyddyn Bod yn Ddisgybl***

| | |
|---|---|
| 12.00pm | 11. Blwyddyn Bod yn Ddisgybl |
| | 12. Rhagarweiniad a Chyflwyniadau |
| | (yn cynnwys araith Gyweirnod gan Archesgob Caerefrog) |
| *1.30pm – 2.15pm* | *Cinio* |

***Sesiwn 3 2.15pm – 4.05pm Materion Gofal y Cread***

| | |
|---|---|
| 2.15pm | 13. Polisi Amgylcheddol Esgobaethol |
| 2.45pm | 14. Stafelloedd Trafod– Ymateb yr Eglwys yng Nghymru i Newid Hinsawdd |
| 3.15pm | 15. Cynigiad ar Bositifrwydd Hinsawdd |
| 3.45pm | 16. Addoliad Terfynol |

**Cofnodion Cynhadledd Esgobaethol Neilltuol Tyddewi Arlinell, dydd Sadwrn 24ain Ebrill 2021 yn lle Cynhadledd ohiriedig 2020.**
**'Ymgysylltiad â'r Dyfodol'**
**Cynhaliwyd dros Zoom**

**AGENDUM 3**

---

O 9:30am Cofrestru
09:45am Profi cyfarpar / Rheolau gogyfer â Chynhadledd Arlinell

## BUSNES FFURFIOL Y GYNHADLEDD

Cychwynnodd y Gynhadledd wedi i'r cynrychiolwyr oll gofrestru, ac wedi i'r profi a'r gwyntyllu rheolau ar gyfer y gynhadledd arlinell hon, ddigwydd.

### 1. Croeso'r Llywydd

Croesawodd Esgob Tyddewi, y Gwir Barch Ddr Joanna Penberthy bawb o'r cynrychiolwyr i Gynhadledd 2020, gan fyfyrio am yr hyn a fu. Diolchodd yr Esgob i bawb am eu cyfraniad i fywyd yr Esgobaeth ers Cynhadledd 2019. Nodwyd i'r flwyddyn flaenorol fod yn heriol tu hwnt i bawb ar lefel bersonol ac fel Esgobaeth.
Diolchodd yr Esgob i'r canlynol:

- Clerigwyr a Lleygwyr a sicrhoadd fod bywyd gweddi, addoliad a gwasanaeth yn ffynnu yn ein cymunedau, p'un ai arlinell, gartref neu mewn adeiladau eglwysig pan oedd modd.
- Y Deon, yr Is-Ddeon a thîm y Gadeirlan.
- Y Clerigiaid a wasanaethodd eu cynulleidfaoedd a'u cymunedau, yn arbennig adeg angladdau ac o ran gofal bugeiliol.
- Staff yr Ysgolion Eglwys a'r Tîm Addysg.
- Undeb y Mamau, y CEGC, Plant Dewi a Tir Dewi, bawb ohonynt wedi gweithio'n ddyfal yn eu cymunedau.
- Yr Archddiaconiaid am eu hymroddiad cyson a'u cymwynasau di-ddiwedd.
- Mr Nick Griffin, Cadeirydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli Argyfwng.
- Mr Howard Llewellyn, yr Ysgrifennydd Esgobaethol a Staff y Swyddfa.
- Mr Mike Scutt a'i dîm.
- Pawb a sicrhaodd fod olwynion yr Esgobaeth yn dal i droi'n hwylus..
- Arwel Davies, Dawn Evans, Parch Caroline Mansell a'r Parch Shirley Murphy am eu cefnogaeth
- Mr David Hammond-Williams, Ms Tessa Briggs, *Pobl Dewi*, y Tîm Cyfathrebiadau a'n Cyfieithwyr am gynnal trefn yr Esgobaeth mewn cyfnod dyrys.
- Parch Ganon Rhiannon Johnson a'r swyddogion gweinidogaeth.
- Parch Ganon Marianne Osborne a phawb sy'n datblygu adnoddau er mwyn rhannu gobaith ac arddeliad o ran y dyfodol.
- Holl blwyfolion yr Esgobaeth.

### 2. Addoliad cychwynnol / Gweddïau

Arweiniwyd gan Canon Huw Mosford o'r Canondy, Tyddewi, ynghyd â darlleniad gan Anne Grimes.

### 3. Ymddiheuriadau

Cyflwynwyd ymddiheuriad gan yr Hyb Paul Mackness ar ran 23 aelod a nodwyd y byddai tri yn cyrraedd yn hwyr.

### 4.Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Hydref 2019

Cynigiwyd derbyn cofnodion y Gynhadledd flaenorol ar 5 Hydref 2019 gan y Tra Pharch Sarah Rowland Jones ac eiliwyd gan Mr Nicholas Griffin.
Roedd y mwyafrif llethol o blaid (113 pleidlais sef 83%). Ymataliodd 23 (17%).
Cadarnhawyd ac arwyddwyd y cofnodion.

**5. Derbyn Adroddiad y Pwyllgor Sefydlog**

Dywedodd yr Esgob, oherwydd yr amgylchiadau, na dderbynnid ond cwestiynau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig cyn y cyfarfod. Cadarnhoadd Hyb Paul Mackness na dderbyniwyd cwestiynau ac felly na fyddai trafod. Cynhaliwyd Pleidlais ynglŷn â derbyn yr adroddiad. Hysbysodd y Parch Delyth Richards y Gynhadledd nad oedd ganddi sgrîn bleidlais ac na allai bleidleisio o'r herwydd. Dywedodd yr Hyb Mackness y dylid cysylltu â'r tîm technegol i ddatrys y broblem.

Gofynnodd y Llywydd i'r Gynhadledd dderbyn yr adroddiad.
Cynigiodd yr Esgob, ac eiliodd Hyb P Mackness.
Roedd y mwyafrif llethol o blaid, sef 115 pleidlais, neb yn erbyn ac 20 yn ymatal.

**6. Cynigiad ynglŷn ag Awdurdod Cyflawn**

Gofynnodd y Llywydd i'r Gynhadledd ddirprwyo Awdurdod Cyflawn i'r Pwyllgor Sefydlog am ddeuddeg mis arall; gallai'r Pwyllgor Sefydlog felly weithredu i gynnal busnes yr Esgobaeth rhwng Cynadleddau Esgobaethol.
Cynigiwyd gan yr Esgob ac eiliwyd gan yr Hyb Dorrien Davies.
Roedd y mwyafrif llethol o blaid (132 pleidlais sef 96%), 2 yn erbyn a 4 yn ymatal.

**7. Adroddiad y BCE**

Nododd yr Esgob fod yr adroddiad wedi ei gyflwyno eisoes, gan drosglwyddo'r awenau i Gadeirydd y BCE, Mr Nick Griffin, a fyddai'n ateb unrhyw gwestiynau fyddai'n deillio o'r adroddiad.
Ni fu unrhyw gwestiynau.
Gofynnwyd i Mr Tim Llewelyn i gyflwyno adroddiad am y Gyllideb.

**8. Cyllideb 2021** (i'w derbyn gan y Gynhadledd)

Hysbysodd yr Esgob y Gynhadledd na dderbynnid cwestiynau o'r llawr oherwydd natur dechnegol y mater. Ni chafwyd cwestiynau o flaen llaw.

Cyflwynodd Mr Tim Llewelyn ei Adroddiad am y Gyllideb i'r Gynhadledd, gan dalu sylw arbennig i'r canlynol:

- *Mae hon yn gyllideb gytbwys, sy'n dipyn o gamp ynddi ei hun. Mae yna oblygiadau o ran yr Arian wrth Gefn, ond dyna, wedi'r cyfan, yw diben Arian wrth gefn. Fel y dywedodd ein Hysgrifennydd Esgobaethol 'mae'n dipyn o argyfwng arnom!'*
- *Mae'r gyllideb yn llai na'r hyn ydoedd yn 2020.*
- *Gwelwyd lleihâd yn y Gyfran Weinidogaethol a sicrhawyd tegwch i'r holl eglwysi – pob un ohonynt yn talu yn ôl eu haelodaeth; ni raid lefelu, mwyach.*
- *Mae'r nifer clerigiaid yn dal yn gyson.*
- *Medrwn gefnogi ac ariannu y cynllun cyfrifyddu newydd a gwell, ar gyfer AddGLl.*

Nodwyd fod angen gwell cyswllt â'r Gynhadledd Esgobaethol, ac y byddai angen gostwng lefel yr incwm oddiwrth yr eglwysi.

Cynigiwyd derbyn yr adroddiad gan Mr Nick Griffin ac eiliwyd gan Mr Tim Llewelyn.
Derbyniwyd adroddiad y BCE gan y mwyafrif llethol - 130 o blaid, neb yn erbyn, a phedwar yn ymatal.

**9. Adroddiadau Blynyddol Pwyllgorau a Byrddau**

Nodwyd fod pob aelod wedi derbyn copi o Adroddiadau Blynyddol Pwyllgorau a Byrddau ac na dderbyniwyd cwestiynau cyn y Gynhadledd.

Diolchodd yr Esgob i bawb a weithiodd yn galed ar y Pwyllgorau a'r Byrddau. Pan ddaw eto gyfarfodydd 'wyneb yn wyneb', bydd yna drafod ar gynnwys yr adroddiadau. Nodwyd hefyd i'r Pwyllgor Sefydlog dderbyn yr adroddiadau oll, ac y craffwyd arnynt yn drwyadl cyn eu cyflwyno i'r Gynhadledd.

Cynigiwyd derbyn Adroddiadau'r Pwyllgorau a'r Byrddau gan y Tra Pharch Sarah Rowland Jones ac eiliwyd gan yr Hyb Eileen Davies. Diolchodd hithau hefyd i bawb am eu hymroddiad ar y Pwyllgorau a'r Byrddau.
Ni fyddai cwestiynau o'r llawr, medd yr Esgob.
Derbyniwyd yr Adroddiadau Blynyddol gan y mwyafrif llethol - 127 o blaid, un yn erbyn a 6 yn ymatal.

### 10. Y Drafodaeth Gysylltu (ystafelloedd trafod)

Agorodd yr Esgob y drafodaeth. Diben y sesiwn hon oedd rhoi cyfle i Aelodau awgrymu blaenoriaethau o ran bywyd yr Esgobaeth. Roedd hyn o bwys mawr medd yr Esgob; roedd yn bwysig i Aelodau fod yn rhan o drefnu dyfodol yr Esgobaeth wedi Covid, ac i arwain rhywfant ar y Gynhadledd a'r Pwyllgor Sefydlog.
Esboniodd yr Hyb Paul Mackness drefn yr ystafelloedd trafod i'r cynrychiolwyr.
Sefydlu tair blaenoriaeth, dyna'r her i'r grwpiau, pob grŵp i wneud nodiadau i'w trosglwyddo naill ai i'r Hyb Paul Mackness neu i Mr Howard Llewellyn.
Wedi cwblhau'r drafodaeth gysylltu, byddai'r cynrychiolwyr yn cael dychwelyd i'r brif stafell gynadledda. Wedi saib am goffi, deuai pawb yn ôl erbyn 11:45am.

Wedi iddynt ddychwelyd, nodwyd y byddai canlyniad y drafodaeth gysylltu, ar y bwrdd yng nghynhadledd Hydref 2021.

### 11. Cwestiynau

Ni chafwyd cwestiynau.

### 12. Cynigiad ar Gynigion

Esboniodd yr Hyb Paul Mackness na ellid yn rhwydd gyflwyno gwybodaeth a syniadau am gynigion neu newid sylfaenol, gan fod angen cynigiad gan aelod preifat er mwyn ei gyflwyno. Bydd y Cynigiad hwn yn caniatáu i Bwyllgorau Eglwysig a Chynghorau AddGLl gyflwyno busnes gerbron y Pwyllgor Sefydlog a'r Gynhadledd Esgobaethol mewn modd newydd. Ar lefel Daleithiol, dim ond drwy gynigiad aelod preifat y mae hynny'n bosib, onibai fod y Pwyllgor Sefydlog yn mabwysiadu rhywbeth a gyflwynir fel awgrym. Crewyd grŵp diwygio cyfansoddiadol gan Bwyllgor Sefydlog y Dalaith, ac y mae hyn dan ystyriaeth fel rhan o'r gwaith hwnnw. A bwrw fod y Cynigiad ar Gynigion yn cael ei dderbyn, bydd yn dangos yr awydd i weld hyn hefyd ar lefel Daleithiol.

### Cynigiad:

*Mae'r Gynhadledd hon yn penderfynu:*

1. *Annog Lleygwyr a Chlerigiaid, drwy Bwyllgorau Eglwysig a Chynghorau AddGLl i ddwyn busnes gerbron y Gynhadledd Esgobaethol a/neu y Pwyllgor Sefydlog.*
2. *Caniatáu cynigion i ddod gan bwyllgorau Eglwysig drwy gynghorau AddGLl, i'r Gynhadledd Esgobaethol. Byddai'r cyfryw gynigiad yn enw yr AWL..*
3. *Ni fydd unrhyw newidiadau, o ran natur y cynigion, i Litwrgi yr Eglwys yng Nghymru, nac i Athrawiaeth, na chwaith yn gosod gorfodaeth ariannol ar y Bwrdd Cyllid Esgobaethol, ond gall ysgogi trafodaeth ar y materion hyn.*
4. *Annog aelodau Esgobaethol Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru i gefnogi unrhyw newidiadau o ran y Dalaith, a fyddai'n caniatáu cynigion gan Bwyllgorau Eglwysig, AddGLll ac Esgobaethau, i ddod gerbron y Corff Llywodraethol yn eu hawl eu hunain.*
5. *Gorchymyn i'r cyd-Ysgrifenyddion i newid y Cyfansoddiad yn ôl y galw.*

Cafwyd trafodaeth fer, a chanmolwyd y cynigiad fel rhywbeth cadarnhaol i leygwyr a chlerigiaid fwrw yn eu blaenau.

Cynigiwyd gan yr Hyb Paul Mackness ac eiliwyd gan Mr Nick Griffin, gyda mwyafrif llethol – 127 o blaid, un yn erbyn a phump yn ymatal.

Gobaith yr Esgob oedd gweld pobl yn manteisio ar y cynnig llwyddiannus, gan ddwyn cynigion eraill gerbron y Gynhadledd a'r Pwyllgor Sefydlog. Eglurodd yr Hyb P Mackness hefyd y byddai'n rhaid i unrhyw gynigiad fynd gerbron y Pwyllgor Sefydlog yn gyntaf, i sicrhau cywirdeb.

**13. Cynigiad parthed Cynrychiolaeth y 4^edd^ Archddiaconiaeth**

Soniodd yr Hyb M Farah yn fyr am gefndir creu y 4^edd^ Archddiaconiaeth. Cafwyd gwybod y dylai'r 4^edd^ Archddiaconiaeth gael ei chynrychioli ar Bwyllgorau a Chyrff Esgobaethol. Soniodd y siaradwr am bwysigrwydd y canlynol:

- Integreiddio y 4^edd^ Archddiaconiaeth i'r strwythurau Esgobaethol
- Cydnabod yr angen i ganolbwyntio ar genhadu, efengylu, efengyleiddio a phlannu Eglwysi yn gyd-destunol mewn tirwedd cymdeithasegol newydd.
- Sicrhau cynrychiolaeth deilwng i'r efengylwyr ar bwyllgorau Esgobaethol.
- Mae plannu Eglwysi yn rhywbeth cwbl reolaidd, cyfwerth ag Eglwysi Esgobaethol eraill ac AddGLl.
- Cydnabod Caplaniaeth fel gweinidogaeth yn ei hawl ei hunan.

Mae yna 6 rhan i'r penderfyniad, fel a ganlyn:

**Cynigiad**
***Mae'r Gynhadledd yn penderfynu:***

1. *Fod y 4^edh^ Archddiaconiaeth yn elfen gyflawn yn y Strwythurau Esgobaethol.*
2. *At ddibenion etholiadau Esgobaethol llawn, bydd i Glerigiaid a Lleygwyr yn y 4^edd^ Archddiaconiaeth fedru pleidleisio gyda'r Archddiaconiaeth ddaearyddol sy'n gartref iddynt.*
3. *At ddibenion y Gynhadledd Esgobaethol am y tro, cynrychiolir pob Canolfan Genhadu gan eu hefengylwyr lleyg.*
4. *At ddibenion y Pwyllgor Sefydlog, bydd i'r 4^edd^ Archddiaconiaeth ynghyd ethol un clerig ac, am y tro, un Efengylydd lleyg, i'w gwasanaethu a'u cynrychioli.*
5. *Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn cadw golwg ar y modd y caniateir i bobl sy'n dechrau addoli gyda Chanolfannau Cenhadu y 4^edd^ Archddiaconiaeth, i gael eu cynrychioli yn y Gynhadledd Esgobaethol a'r Pwyllgor Sefydlog a'r Pwyllgorau eraill, fel sy'n addas.*
6. *Gorchymyn i'r cyd-Ysgrifenyddion newid y Cyfansoddiad yn ôl y galw.*

Cafwyd cefnogaeth gan amryw o'r aelodau i'r cynnig, a holwyd sawl cwestiwn i'r Hyb Mones Farah, fel a ganlyn:

1. Parch Ganon John Bennet (Bro Teifi) – gofynnodd am esboniad pellach ynglŷn â'r cynigiad.
2. Parch John Hancock (Y Rhŵs) – gofynnodd am eglurhad ynglŷn â darparu adnoddau ar gyfer hyn. Beth am yr AddGLl presennol o ran efengylu? Pam nad annog efengylu'n gyffredinol yn hytrach na sôn am rai ardaloedd daearyddol? A beth am adnoddau ar gyfer mannau eraill?
3. Mrs Elizabeth Thomas – cefnogai hi y cynigiad gant y cant, gan iddi glywed adroddiadau da am y gwaith. Mae'n waith pwysig yn gyffredinnol ar gyfer yr Esgobaeth gyfan, a dylid ei gefnogi fel y cyfryw. Mae'n ganolog i fywyd yr Esgobaeth.
4. Yr Athro Medwin Hughes – Cefnogai yntau hefyd y cynigiad. Roedd dyfeisio ffyrdd creadigol o weinidogaethu ac efengylu yn allweddol bwysig. Mae angen bod yn greadigol

wrth sôn am genhadu. Wrth i Covid gilio, bydd rhaid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd creadigol, a gorau oll fydd hyn, o ran lledaeniad y Deyrnas.

5. Hyb Dorrien Davies – Cefnogai'r cynigiad eto. O ganlyniad i waith arloesol yr Hyb Farah yn Archddiaconiaeth Caerfyrddin, gwelwyd ei effaith ar y gymuned eglwysig ehangach, plannwyd eglwysi a bu hybu ar waith efengylu. Er mwyn i eglwys fedru ffynnu, rhaid ail-gydio yng ngweledigaeth wreiddiol yr eglwys, sef dwyn pobl at Grist. O ran darparu adnoddau, mae'r Esgobaeth yn gweithredu i'r perwyl hwn, a gellir bod yn siwr mai felly y bydd yn y dyfodol. Llongyfarchodd yr Archddiacon bawb am eu gwaith caled, a diolchodd hefyd yn gynnes i Fyddin yr Eglwys am eu cefnogaeth hwythau.
6. Y Tad Jim Flanagan – Roedd yntau'n gefnogwr pybyr i syniad efengylu, a chredai y dylai'r eglwys wneud mwy i'r cyfeiriad hwn; eto i gyd, ni welai reswm dros beidio cynnwys efengylu o fewn i strwythur yr AddGLl presennol.
7. Mr Darryl Walters – Cytunodd yntau â'r cynigiad ond dyfalai pa mor hyblyg oedd y sefyllfa o ran cysylltu â phobl ar lawr gwlad. Yn hytrach na mynychu pwyllgorau, onid gwell cenhadu drwy ddod wyneb yn wyneb â phobl nawr.
8. Parch Patrick Mansell Lewis – Roedd ef am 25 mlynedd yn Gadeirydd *Ymddiriedolaeth St Teilo*, mudiad a gefnogai fentrau efengyleiddio ledled Cymru. Cychwynnodd yn Esgobaeth Tyddewi. Erbyn hyn, caewyd Cronfa'r Ymddiriedolaeth, gan dalu'r arian i fentrau cenhadol, ac nid yw'r elusen yn bodoli mwyach. Roedd yn arwyddocáol, meddai, fod Esgob Joanna ar y pryd wedi cael y weledigaeth o benodi Mones Farah fel Archddiacon dros Efengylu. Dymunai'r Parch Mansell Lewis gefnogi'r cynigiad. Byddai'r Archddiaconiaeth yn medru cefnogi'r Esgobaeth yn ardderchog, o gael y cyfle i ffynnu mewn lleoliad o ddewis Mones a'i gydweithwyr, a'i waith efengylu Cristionogol. Byddent hefyd yn adnodd symudol ledled yr Esgobaeth, lle gallai'r Archddiacon arwain ei weithwyr i genhadu, efallai mewn AddGLl; byddai gweld cydweithrediad rhwng y 4$^{edd}$ Archddiaconiaeth ac eglwysi eraill yn hwb eithriadol i waith cenhadu yn ein Hesgobaeth.
9. Parch Andy Bookless – Cefnogai yntau y cynigiad, ond credai fod angen i'r gwaith fynd law yn llaw ag ymdrechion creadigol eraill mewn ardaloedd ac AddGLl eraill, a bod angen hybu a chefnogi'r gwaith. Dylai syniadau'r 4$^{edd}$ Archddiaconiaeth fod yn symbyliad i bob AWL a phob Archddiaconiaeth. Mae angen chwilio ffyrdd amgen o fod yn eglwys a rhannu cariad Duw â'n cymunedau.

Ni chafwyd cwestiynau na sylwadau pellach.

Ymatebodd yr Hyb M Farah i'r uchod fel a ganlyn:

1. Mae chwech o'r Efengylwyr yn bresennol yma fel gwahoddedigion, ond drwy bleidleisio ar y cynigiad hwn, deuant yn aelodau o'r Gynhadledd (gallant bleisleisio, cyfrannu, trafod ac ymgysylltu'n llawn).
2. Adnoddau – daw y rhain o Gronfa Strategaeth yr Esgobion, y Gronfa Efengylu gan y Dalaith, ac yn rhannol gan y BCE, sy'n cefnogi'r clerigiaid a hwythau'n gyfryngau i'r gwaith. Cefnogir gweinidogaeth ac ymgysylltu lleyg ledled yr Esgobaeth.

   Bydd 20% o amser pob Efengylydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn estyn allan i'r Esgobaeth ehangach, cefnogi yr AddGLl, hyfforddiant ac ymgysylltu, a chefnogi cenhadaeth leol drwy;r adrdal genhadu leol. Byddant yn ystyried 6 chenhadaeth efengylu y flwyddyn, yn yr Archddiaconiaethau. Mae'r AddGLl eisoes yn ymddiddori yn hyn.

   Llwyddwyd i sicrhau cyllideb mwy o faint, i'w defnyddio, gobeithio, i hwyluso ac annog cenhadu yn yr Esgobaeth.

3, 4 & 5. Diolchwyd i Mrs Elizabeth Thomas a'r Athro Medwin Hughes a'r Hyb Dorrien Davies am eu cefnogaeth.

6. Un o brif resymau sefydlu'r Archddiaconiaeth oedd, natur gyd-destunol y cenhadu. Gwelir, fel arfer, straen a thensiwn pan ddaw pobl heb gefndir eglwysig i mewn i gymunedau eglwysig iawn, a gall hyn achosi rhwyg drwy golli aelodau presennol neu drwy fod aelodau newydd heb gael eu derbyn yn llawn i'r gymuned. Felly, rhywbeth cyd-destunol yw hyn, a fydd o gymorth o bobl ar eu taith, gan ganiatáu iddynt ddod yn aelodau o bob AWL.
7. Rhywbeth ar gyfer pobl ar lawr gwlad yw hyn, nid i dimau. Mae pob ardal yn gweithio'n wahanol er mwyn cyrraedd pobl. Mae angen llais o fewn i'r drefn.
8. Roedd y bwriad iddo fod yn adnodd symudol ledled yr Esgobaeth yn rhan o'r cais am y grant. Creu timau rhannu ffydd, a datblygu y modd i hyfforddi pobl mewn efengylu, yn ogystal â'u cefnogi a chreu hyrwyddwyr efengylu - dyna hanfod y gwaith.
9. Dylid annog eraill hefyd i ystyried posibiliadau heb ddisgwyl am gyllid neu gefnogaeth, a dylid crybwyll eu syniadau wrth yr Esgob.

Dymunai Hyb Mones Farah ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

Gwnaed y cynnig ynglŷn â Chynrychiolaeth i'r 4edd Archddiaconiaeth gan yr Hyb Mones Farah ac eiliwyd gan Nick Griffin.

Roedd y mwyafrif llethol o blaid, sef 125, dau yn erbyn a chwech yn ymatal.

### 14. Cyflwyniad gan y 4edd Archddiaconiaeth
Cyflwynodd yr Hyb Mones Farah dair fideo yn darlunio gwaith Canolfannau Morfa, Merlin's Bridge a Crosshands.

### Canolfan Genhadu Llanelli (Morfa):
Cyflwynwyd gan y Prif Efengylydd, Parch Gapt Rob Lowe a Mrs Michelle Lloyd, Efengylydd Arloesol, gan amlinellu rhai o'r prosiectau oedd ar waith.

Esboniodd yr Hyb M Farah fod yr Efengylyddion yn cael eu cyflogi drwy Fyddin yr Eglwys ond mai'r 4edd Archddiaconiaeth sy'n gyfrifol am drefnu eu gwaith. Cyfeiriodd at Leoni Oxenham a Neville Willerton o Fyddin yr Eglwys am eu cefnogaeth wrth sefydlu trefn a helpu i ddatrys problemau. Ym Morfa maent yn ddiolchgar i Eglwys y Bedyddwyr am ganiatáu iddynt ddefnyddio Emmanuel am dâl fesul awr. Gobaith y Ganolfan yw medru defnyddio'i hadeilad ei hun, maes o law.

### Canolfan Genhadu Crosshands
Cyflwynwyd gan Esther Lockley, y Prif Efengylydd a'r Efengylydd Arloesol, Ruach Mitchell. Canolbwyntiodd y cyflwyniad ar y weledigaeth o ddyfodol Canolfan Genhadu Crosshands.

Parch Victoria Jones oedd yn gyfrifol am weledigaeth y Ganolfan ac Esther a Ruach yn parhau â'r gwaith. Gofynnodd yr Hyb Farah i'r Gynhadledd weddïo dros yr Efengylyddion, ac i ymgysylltu â hwy. Mae'r cysylltiad â theuluoedd ifainc y cylch yn bwysig tu hwnt.

### Merlins Bridge, Hwlfforddd
Cyflwynwyd gan Mike Dare, y Prif Efengylydd. Mae'r Ganolfan yn dymuno magu ymdeimlad teuluol a rhoi gobaith i bobl heb gysylltiad â'r eglwys. Gan edrych tuag ymlaen, byddant yn amcanu delio ag anghenion y gymuned leol, gorff, meddwl ac enaid.
Esboniodd yr Hyb M Farah fod yna bartneriaeth glos rhwng y Ganolfan hon a Hafod, hefyd â Phennaeth Ysgol St Mark (clerig ordeiniedig), a'r Eglwys Fethodistaidd, (gan iddynt fod yn defnyddio eu hadeilad). Yr Efengylydd Arloesol yw Molly Baldwin a disgwylir Efengylydd newydd, Simon Morbey, i gychwyn fis Mai. Diolchwyd i'r Chwaer Val Legg a Mrs Ruth Busisa, a fu'n gweithio yn yr ardal, gynt.

Aeth yr Hyb Farah yn ei flaen i ateb rhai o'r cwestiynau a ddaeth i law drwy gyfrwng y sgwrs zoom yn ystod y cyflwyniadau:

1. Gwnaed asesiadau risg ynglŷn â darparu lluniaeth ysgafn yn Llanelli, a gwnaed hyn ar sail 'pryd ar glud'. Doedd yna ddim oedi na phobl yn cymysgu yn ystod hyn. Doedd yna ddim gweithgareddau wyneb yn wyneb yn un o'r Canolfannau yn ystod y Pasg, ar wahân i'r helfa sborion, lle byddai pobl yn casglu ac yn ymadael.
2. Terminoleg a ddefnyddiwyd gan Mike Dare (defnydd iachau mewnol Sozo) – cytunwyd ar brotocol gan yr Esgob, a bydd hyn ar gael i bobl. Fydd yna ddim sustemau penodedig, bu Mike yn gwrando ar lais Duw ac yn gweddïo gyda pobl.
3. Enw'r Canolfannau yw Impact 242 – oherwydd eu bod yn dymuno gwneud argraff ar gorff, meddwl ac ysbryd, gan drawsnewid unigolion a chymunedau. Mae yna gysylltiad hefyd ag Actau Pennod 2 Adnod 42 – dyma yw eu nod, bod yn eglwys sy'n estyn at yr anghenus, gan ganolbwyntio yn ysbrydol ar ddysgeidiaeth a sagrafen.

Gofynnwyd cwestiynau pellach:

a) Parch Neil Hook – *Gofynnodd am eglurhad ynglŷn â threfniadau trwyddedu staff Impact 242, o ran eu gallu, (a'r 25% y gallant ei roi i'r Esgobaeth er mwyn arwain addoliad a phregethu yn gyffredinol). Pa drwydded sydd ganddynt, a pha gamau a gymerwyd i sicrhau eu bod wedi eu hyfforddi, ac y byddant yn parhau i dderbyn arweiniad wrth bregethu Gair Duw yn ein Heglwysi Plwyf?*

   Dyma ateb yr Hyb Farah. Trwyddedir y tîm ar 18 Mai (heblaw am Simon gan na fydd yn cyrraedd tan 26 Mai). Roedd y tîm oll wedi derbyn hyfforddiant ddiwinyddol i lefel gradd, mewn gwaith Ieuenctid a Phlant, a Gweinidogaeth. Gwnaed yn eglur yn y broses recriwtio fod disgwyl i'r Efengylyddion ddeall Anglicaniaeth i'r dim. Mae yna ddatblygiad parhaus o fewn i Fyddin yr Eglwys, a mae mwyafrif aelodau'r tîm yn amcanu cael eu comisiynu.

   Ychwanegodd yr Esgob y byddent oll yn derbyn Trwydded Pregethwr Cyhoeddus. A bwrw mai diben y cyfan yw cyrraedd pobl na ellid eu cyrraedd drwy gyfrwng yr Eglwysi Plwyf, ffolineb fyddai mynnu fod y bobl a drwyddedwyd, wedi bod eisoes drwy'r felin. Trwyddedir hwy i bregethu ac arwain addoliad yn y sefyllfa eglwysig gyfredol, gan obeithio y bydd i'r gweinidogion a fu'n gweithredu ochr yn ochr â hwy, fedru eu harwain yn y sefyllfaoedd hynny.

b) Y Tad Paul Boyle – *Diolchodd i'r Hyb Farah am y cyflwyniadau. Mae AWL Arberth & Dinbych y Pysgod yn dwys ystyried sut i symud ymlaen – cafodd ef gryn hwb heddiw, a gobeithiai fod pobl ei AWL wedi eu hysbrydoli cystal ag yntau.*

c) Mr David Thomas – *Esboniodd ei fod yn y Gynhadledd fel aelod o'r BCE. Flwyddyn neu ddwy yn ôl, fe'i henwebwyd i gynrychioli'r Esgobaeth ar Bwyllgor Cronfa Efengylu Corff y Cynrychiolwyr (a fu'n ystyried dosbarthu tua £12 miliwn ledled yr Esgobaethau er mwyn cefnogi prosiectau Efengylu). Mae bron pob prosiect arall yng Nghymru yn seiliedig ar adeiladau. Adeg y cyfarfod cyntaf, profodd yr Esgob, Archddiacon Mones ac eraill a gefnogai't prosiect, gryn anhawster gan na fedrai aelodau eraill y Pwyllgor lwyr ddeall y syniad. Pe gwelsent, bryd hynny, yr hyn a welodd y Gynhadledd y bore hwn, ni chawsent broblem yn y byd. Llongyfarchodd Mr Thomas yr Hyb Farah a'i dîm ar gyflawni gwaith arwrol.*

d) Mrs Anne Dye – *Nododd hi, pan ddaeth yn Gristion, 26 mlynedd cynt, mai y Ddegawd Efengylu oedd hi. Rhyfedd o beth, meddai, fod eglwys yn gweld angen am rywbeth o'r enw y Ddegawd Efengylu. Dylai Efengylu fod wrth wraidd yr Eglwys. Efallai i'r Eglwys golli rhywbeth, ond bellach daeth llafn o oleuni. Roedd yr Hyb Farah, yn ei barn hi, yn berson o ddychymyg, yn barod i arbrofi, a gwelai hi fod ei benodiad fel Archddiacon yn bur gyffrous. Roedd gwylio'r ffilmiau fideo wedi cadarnhau hynny. Credai fod yr eglwys yn fwy ymwybodol o Efengylu a'r angen amdano. Anodd yw ysgogi eglwysi i weithredu. Dyw'r 4^edd^ Archddiaconiaeth ddim yn gaeth i unrhyw strwythurau, a bydd modd iddynt gyrraedd pobl nas cyrhaeddwyd gan yr eglwys cyn hynny.*

Dymunai yr Hyb Mones Farah i aelodau sylweddoli mai'r Esgob oedd yn gyfangwbl gyfrifol am hyn, a'i fod yntau'n gwerthfawrogi'r cyfle a roddasai hi iddo. Mae ganddo dîm creadigol tu hwnt a dawn arloesi yn sicr yng ngafael aelodau y tîm hwnnw. Diolchodd i'r canlynol:

- Eglwys y Bedyddwyr, Morfa
- Neuadd Goffa Crosshands ac Ymddiriedolaeth y Sinema
- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Robert Mansell a fu'n gymorth i sicrhau cyllid ar y cychwyn, ac a ddychwelodd bellach fel ymgynghorydd. Byddai cynorthwy-ydd gweinyddol newydd yn cychwyn fis Mai.

Diochodd yr Esgob i'r Hyb Farah ac i'r rheiny a ofynnodd gwestiynau ac a wnaeth sylwadau. Roedd hi'n ddiolchgar i Anne am ei gair o brofiad a gwerthfawrogai pa mor anodd yw Efengylu ar y cyfan. Bod yn Efengylyddion yw un o ddoniau'r Ysbryd ar gyfer pobl. Gellir mentro i gymunedau i sefydlu Eglwysi newydd nad oes ganddynt broblemau yn y cefndir. Bydd y gwaith arloesi yn yr AddGLl, ar wahan i eglwysi traddodiadol, o fudd mawr. Diolchodd yr Esgob i'r Hyb Farah am y cyflwyniadau, gan annog pob AWL i ymgysylltu â'r Archddiacon er mwyn i'r Efengylyddion gydweithio â hwy.

**15. Anerchiad y Llywydd**

Cyflwynodd Esgob Tyddewi, y Gwir Barchedig Ddr Joanna Penberthy ei hanerchiad i'r Gynhadledd.

(Mae copi o Anerchiad y Llywydd wedi ei gynnwys ar ddiwedd y cofnodion).

**16. Addoliad i gloi / Gweddïau**

Arweiniwyd gan y Parch Ganon Ann Howells, a darllenwyd gan Enfys Thomas.

Ar ei rhan ei hun ac aelodau'r Gynhadledd, diolchodd yr Esgob i bawb a fu'n rhan o'r gynhadledd ac a helpodd i'w gwneud yn llwyddiant. Bu'n rhaid i'r tîm cynllunio ddysgu llawer o sgiliau newydd er mwyn trefnu Cynhadledd ddigidol.
Diolchwyd yn arbennig i Mrs Jenni Liston-Smith o Esgobaeth Llanelwy, am ei chefnogaeth a'i dawn dechnegol yn y Gynhadledd hon. Diolchwyd hefyd i Archddiacon Paul Mackness, Miss Emma O'Connor, Mr Howard Llewellyn a'r tîm – Parch Jeff Thomas, Mrs Abi Hook, Mrs Jan Every, Mrs Anne Forman, Archddiacon Mones Farah, Parch Ganon Huw Mosford, Parch Ganon Ann Howells, Mr Tudur Jones a phawb a fu'n darllen y llithiau ac offrymu gweddïau. Diolchwyd hefyd am y cyflwyniadau, y cyfraniadau, ac i bawb a oedd yn bresennol.

Daeth y Gynhadledd i ben yn ffurfiol am 1:35pm dan law yr Esgob wedi iddi nodi y byddent yn cyfarfod eto ar ddydd Sadwrn 2 Hydref 2021 (naill ai mewn lleoliad wyneb yn wyneb neu yn rhithiol – amser a ddengys).

Diolchodd Archddiacon Caerfyrddin i'r Esgob am ei harweinyddiaeth ac am fugeilio'i phraidd Esgobaethol.

Gorffennwyd am 1:37pm

# Pwyllgor Sefydlog Cynhadledd Esgobaethol Tyddewi
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Hyb Paul Mackness, Ysgrifennydd Clerigol Dros Dro **AGENDUM 4**

---

AELODAETH Y PWYLLGOR SEFYDLOG
Mae yna 27 Aelod Cynhadledd yn rhan o'r Pwyllgor Sefydlog, dan Gadeiryddiaeth y Gwir Barch Ddr Joanna Penberthy, Esgob Tyddewi. Mae 11 o'r uchod yn Ex-Officio, 14 wedi eu Hethol a 2 wedi eu Cyfethol. Gwelir fod 12 aelod yn Ordeiniedig a 15 yn Lleyg. Mae yna 15 dyn a 12 dynes. Cyfarfu'r Pwyllgor Sefydlog 3 gwaith yn ystod y cyfnod dan sylw.

CYNLLUNIO'R GYNHADLEDD ESGOBAETHOL
Bwriedid cynnal Cynhadledd 2020 yn Saundersfoot, fis Hydref 2020. Gwaetha'r modd, ni fu hyn yn bosib gan fod y Pandemig wedi taro, a chynhaliwyd y Gynhadledd arlinell fis Ebrill 2021; penderfynwyd cynnal Cynhadledd 2021 hefyd arlinell, ym mis Hydref. .

ETHOLIADAU & CHYFANSODDIAD
O ganlyniad i'r gwelliannau cyfansoddiadol a wnaed adeg Cynhadledd 2019, cynhaliwyd etholiadau yn 2021 er mwyn ethol y Gynhadledd newydd ar sail AddGLl; felly hefyd er ethol Pwyllgor Sefydlog newydd. Etholodd y Pwyllgor hwnnw ei Is-Gadeirydd Lleyg cyntaf, sef Mr Tim Llewelyn. Oherwydd yr oedi o ran trefnu etholiadau, bydd y Gynhadledd gyfredol a'r Pwyllgor Sefydlog yn dal mewn grym am ddwy flynedd (tan 2022), er mwyn i'r Esgobaeth gydfynd unwaith eto â chylch Tairblynyddol y Dalaith.

Gwnaed penderfyniadau yng Nghynhadledd arbennig 2020 (fis Ebrill 2021) i ymgorffori'r Bedwaredd Archddiaconiaeth yn llawn, o fewn i'r strwythurau Esgobaethol, ac i ganiatáu dwyn cynigion gan AddGLl gerbron y Gynhadledd.

IS-BWYLLGORAU & ADRODD
Mae'r Pwyllgor Sefydlog yn parhau i dderbyn pob Adroddiad Cynhadledd, adeg ei gyfarfod ym mis Mehefin, pan fo cyfle i aelodau holi cwestiwn/cwestiynau i'r cynrychiolydd perthnasol, ac awgrymu gwelliannau neu ychwanegiadau i adroddiadau. Gofynnir i bob prif is-bwyllgor Esgobaethol gyflwyno adroddiad blynyddol i un o gyfarfodydd y Pwyllgor Sefydlog, gan hysbysu aelodau ynglŷn â'r hyn sydd ar waith, ynghyd â chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Derbyniwyd adroddiad gan sawl Cyfarwyddiaeth – Cenhadu, Gweinidogaeth ac Addysg – ynghyd â rhai gan CEGC, y Bwrdd Persondai, y BCE a'r Bwrdd Enwebiadau. Daw adroddiadau i law yn rheolaidd, hefyd, gan y Grŵp Cais Efengylu a'r Grŵp Cynrychioli, sy'n ystyried cwestiwn cynrychiolaeth fenywaidd a chydraddoldeb, o fewn i'n strwythurau.

Y STRATEGAETH ESGOBAETHOL
Yn unol â'r grymoedd a ymddiriedwyd iddo, cytunodd y Pwyllgor Sefydlog i gydweithredu â'r Esgob i ail-drefnu plwyfi i gyfanswm o 24 Ardal Weinidogaeth Leol (AWL) fel rhan o strategaeth Esgobaethol gyfredol. Crewyd AddGLl *De-Orllewin Sir Benfro, Arberth & Dinbych y Pysgod, Emlyn, Bro Wyre, Bro Aeron Mydr, a Dwyrain Landsker* yn chwarter cyntaf 2020.

Bu'r Pwyllgor Sefydlog yn trafod yn gyson eleni, gyda golwg ar weld y Gynhadledd Esgobaethol yn ymdrin â'r strategaeth Esgobaethol, gyda lleisiau Lleyg hefyd yn fwy hyglyw.

CAIS EFENGYLU

Mae'r Pwyllgor Sefydlog yn dal i gefnogi, i'r eithaf, cais yr Esgobaeth am £1.6 miliwn gan Gronfa Efengylu yr Eglwys yng Nghymru. Bydd y cymhorthdal hwn yn ein galluogi i greu prosiectau eglwysig newydd, gan dargedu pobl nas cyffyrddir ar hyn o bryd gan yr eglwys draddodiadol, yn arbennig y "cenedlaethau coll". Bu'r Cais yn llwyddiannus, ac o ganlyniad i ymdrech y Bedwaredd Archddiaconiaeth, mae yna bellach dair Canolfan Genhadu ar waith, law yn llaw â Byddin yr Eglwys. Cafwyd cyflwyniadau gan y cyfryw Ganolfannau adeg Cynhadledd Arbennig Ebrill 2021.

CYNHADLEDD Y FLWYDDYN NESAF:

**Cynhelir Cynhadledd Esgobaethol 2022, ddydd Sadwrn 1af Hydref yng Ngwesty'r Diplomat, Llanelli. (Yn ddibynnol ar unrhyw gyfyngiadau COVID).**

ARGYMHELLION

Mae'r Pwyllgor Sefydlog yn gwahodd y Gynhadledd i:

1. Awdurdod Cyflawn

Ddirprwyo awdurdod cyflawn i'r Pwyllgor Sefydlog am ddeuddeg mis pellach

2. Cymeradwyo'r Adroddiad

Dderbyn Adroddiad y Pwyllgor Sefydlog.

# Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Nicholas Griffin, Cadeirydd y Bwrdd. **AGENDUM 6**

---

**Aelodaeth:**
Mae Aelodau'r Bwrdd hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol.

| | |
|---|---|
| Llywydd: | Yr Esgob |
| Cadeirydd: | Mr N Griffin |
| Is-Gadeiryddion: | Mr N Roberts a Mr TJ Llewelyn |
| Ex- Officio: | Y Deon<br>Y 4 Archddiacon<br>Y Cofrestrydd Esgobaethol<br>Y Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol<br>Mr N Roberts Cadeirydd y Bwrdd Persondai |

Cyfarwyddwyr: Mrs H Evans, Mrs TA Hatfield (Tan Mawrth 2021), Mr N Evans, Mr DG Jones, Mrs JAP Hayward, Parch CC Brown, Parch PGB Ratcliffe, Mr CWM Carter, Parch MAR Hill, Mr DWJ Thomas.

Mae'r aelodaeth fel a ganlyn:

- Y Cadeirydd(penodir gan yr Esgob)
- 9 aelod ex-officio
- 6 aelod lleyg enwebedig (2 o bob Archddiaconiaeth)
- 3 aelod lleyg etholedig (1 o bob Archddiaconiaeth)
- 3 aelod clerigol enwebedig (1 o bob Archddiaconiaeth)
- 4 aelod cyfetholedig, gydag un yn unig ohonynt yn glerig.

**Pwyllgorau'r Bwrdd:**

Gweithredol: Cyfrifoldeb cyfangwbl dros reoli cyllid & asedau'r Bwrdd.

Bwrdd Persondai: Cynnal a chadw persondai.

Archwilio a Risg: Pwyllgor Statudol yn ymwneud â Pholisiau'r Bwrdd Archwilio, a Chofrestr Risg y Bwrdd.

Cyllideb: Yn ymwneud â'r rhai sydd â rhan yn y gyllideb, gan adolygu a monitro incwm a gwariant yr Esgobaeth.

Pwyllgor Rheoli Argyfwng: Yr Esgob, yr Archddiaconiaid a Chadeiryddion Pwyllgorau yw corff yr aelodaeth; cyfarfu'r Pwyllgor hwn yn rheolaidd yn ystod y Pandemig, er sicrhau fod busnes yn mynd yn ei flaen.

Ysgolion Gwaddoledig: Pwyllgor Statudol er cefnogi, adnewyddu, ac ymgymryd â phrosiectau newydd gogyfer ag Ysgolion Eglwys.

Adnoddau Dynol: Datblygu polisiau a dulliau gweithredu ar gyfer staff lleyg, yn unol â deddfwriaeth gyfredol.

Buddsoddiadau: Rheoli ac arolygu buddsoddiadau. Cyflogir rheolwyr buddsoddi proffesiynol.

Y Gyfran Weinidogaethol : arolygu trefniadau yn ymwneud â'r Gyfran Weinidogaethol.

Apeliadau'r Gyfran Weinidogaethol : gweinyddu dull gweithredu apeliadau a chadw golwg ar bryderon plwyfi parthed y Gyfran Weinidogaethol.

Eiddo: Rheoli eiddo sydd yn nwylo'r Bwrdd, ar ei ran ei hun, neu fel Ymddiriedolwr Gwarchodol, hefyd trefnu'r portffolio eiddo.

Cymdeithas Gweddwon, Plant Amddifad a Dibynyddion: Ystyrir lefel isafswm incwm, o ran gweddwon, plant amddifad a diynyddion, hefyd pa gefnogaeth ychwanegol y gellid ei chynnig.

**Amcanion:**

Y prif weithgaredd elusennol a awdurdodir gan Erthyglau'r Bwrdd yw hyrwyddo a chynorthwyo amcanion yr Eglwys yng Nghymru yn yr Esgobaeth, yn bennaf drwy:

- Sicrhau cyllid digonol er cynnal lefel Cenhadu & Gweinidogaethu.
- Rheoli'r Portffolio Buddsoddiadau er cael cydbwysedd rhwng incwm a thwf cyfalaf, heb fentro'n ormodol, a chynnal polisi buddsoddi moesol ar yr un pryd.
- Rheoli eiddo'r Bwrdd ac eiddo a awdurdodwyd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Sicrhau fod cronfeydd eraill y Bwrdd yn cael eu gweinyddu'n effeithiol; cynghori plwyfi, cynnal basiau data & gwybodaeth rheoli, hefyd trefnu pwyllgorau & chyfathrebiadau.

**Prif amcanion:**

- Cynnal lefel ein hadnoddau mewn cronfeydd di-gyfyngiad, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd cyllidol, ac felly gynnal Gweinidogaeth yr Esgobaeth a thalu cyflogau clerigwyr a chostau eraill.
- Cyd-drafod â'r Esgob, o ran gweithredu'r Strategaeth Esgobaethol ac ymateb i'r heriau ariannol, economaidd a gweinidogaethol sy'n wynebu'r Eglwys.
- Rheoli'r arian buddsoddedig er mwyn sicrhau yr elw disgwyliedig.
- Ceisio cyfyngu ar godiadau yn y Gyfran Weinidogaethol er mwyn sicrhau ei bod yn gynaliadwy a chasgladwy.

**Materion Cyfredol dan ystyriaeth:**

- Nodi ac archwilio'r holl arian sydd gennym dan drefn Ymddiriedolaeth, ac yn dyddio o'r 1880au tan y presennol. Mae cyfraith elusennol, bellach, yn caniatáu codi cyfyngiadau ar rai Ymddiriedolaethau a thalu'r arian i'r sawl sydd â hawl i'w dderbyn, gan gynnwys plwyfi & a chronfeydd mynwent. Mae'r cyfryw adolygiad yn dal i hybu'r broses hon.
- Parhau i nodi pob darn tir ac eiddo sydd dan berchnogaeth y Bwrdd, neu sydd wedi ei ddal fel ymddiriedolwr.

**Y Sefyllfa Ariannol:**

- Bu'n flwyddyn anodd i bawb ledled y genedl a'r byd. Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar am y gefnogaeth gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, cymorth hyd yn hyn a drosglwyddwyd yn gyfangwbl i'n heglwysi, ac felly yn help llaw i eglwysi unigol.

- Mae rhan o gymynrodd Hazel Jones-Olszewski yn dal i fod mewn cronfa goffa arbennig at ddiben ysgafnhau baich y Gyfran Weinidogaethol ar blwyfi, ac o ganlyniad yn sicrhau gwedd fwy iachus ar Fantolen Ariannol y Bwrdd.
- Defnyddir y cymynroddion hefyd ar gyfer gwaith gyda plant & phobl ifainc, gwelliannau i dai-ymddeol clerigiaid, a mentrau hyfforddi.
- Er gwaetha'r Pandemig a'r adolygiad proffesiynol diweddaraf o bensiynau clerigiaid, mae sefyllfa ariannol y Bwrdd yn dal yn weddol sefydlog. Diau y bydd ambell her i ddod, wrth i'r Bwrdd geisio sicrhau adnoddau er cefnogi strategaeth yr Esgob.

**Heriau eleni:**
Pennaf her y flwyddyn fu monitro ac asesu effaith y Pandemig ar wedd ariannol yr Esgobaeth a'r modd y buwyd yn cefnogi Cenhadaeth a Gweinidogaeth. Bu'n ymdrech ddygn gan yr eglwysi i sicrhau eu bod yn medru talu'r Gyfran Weinidogaethol. Mae'r Pwyllgor Cyfran Weinidogaethol, a'i hymdrechion i gadw golwg ar Stiwardiaeth a Chefnogaeth i eglwysi ac AddGLl, yn gymorth aruthrol i'r Bwrdd yn hynny o beth.

**Y flwyddyn nesaf:**
Bydd y Bwrdd yn parhau i gadw llygad barcud, yn ôl ei arfer, ar y sefyllfa ariannol, er mwyn sicrhau rheoli priodol, ond heb ddiystyru oblygiadau negyddol posib y Pandemig. Nid yw'r perygl eto wedi cilio, a diau y bydd yn rhaid wynebu ambell her ddybryd, ddydd a ddaw.

# Bwrdd Enwebiadau Esgobaeth Tyddewi
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Hyb Paul Mackness, Ysgrifennydd Clerigol Dros Dro **AGENDUM 7**

---

AELODAETH Y BWRDD
Cadeirydd y Bwrdd Enwebiadau yw Esgob Tyddewi, gyda'r canlynol yn aelodau Ex-officio; Archddiaconiaid Ceredigion, Caerfyrddin a Thyddewi, ynghyd â'r Ysgrifennydd Clerigol. Mae yna, yn ogystal, ddau/ddwy glerig etholedig, un aelod lleyg wedi ei (h)ethol o bob Archddiaconiaeth; ac un aelod cyfetholedig.

AMCANION
Prif amcan y Bwrdd Enwebiadau yw asesu a chynnal lefelau staffio ar gyfer yr Esgobaeth, mewn modd effeithiol, a hynny yn unol ag amcanion cenhadol a gweinidogaethol yr Esgobaeth, ynghyd â'r cyllidebau ariannol sydd ar gael. Y Bwrdd, wedyn, sy'n gyfrifol am y broses recriwtio ar ran yr Esgobaeth.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
Cyfarfu'r Bwrdd yn chwarterol arlinell via Zoom. Cadwodd y Bwrdd Enwebiadau lygad barcud ar anghenion staffio clerigol yr Esgobaeth, ar hyd y cyfnod o newid bugeiliol a ffurfio'r AddGLl newydd. Mae sicrhau dosbarthiad teg a theilwng o glerigiaid, ar hyd a lled yr Esgobaeth, yn un o brif amcanion y Bwrdd Enwebiadau. Mae i bob AWL nifer benodedig o glerigiaid cyflogedig, y disgwylir iddi ei anrhydeddu; er hyn, erys ambell AWL â llai na'r nifer a argymhellwyd, a thalwyd sylw arbennig gan y Bwrdd i'r ardaloedd hynny. Penodwyd offeiriad i wasanaethu Begeli, ond gohiriwyd sawl penodiad oherwydd y pandemig. Mae yna amryw swyddi gwag, adeg llunio'r adroddiad hwn.

HERIAU ELENI
Bu ceisio denu clerigiaid i wasanaethu yma, yn arbennig yn wyneb COVID, yn gryn her eleni. Credir fod hon yn broblem gyffredinol, gydag Eglwys Loegr yn yr un sefyllfa. Fe allai fod cyflwr gwleidyddol ac economaidd y Deyrnas Gyfunol yn ffactor, gan ddarbwyllo pobl rhag symud, a pheri iddynt aros mewn ardaloedd lle mae rhagorach cyfleoedd gwaith ar gyfer eu teuluoedd.

Anhawster o'r mwyaf, fodd bynnag, fu cynnal y nifer ofynnol o glerigiaid (84). Telir cyflogau'r cyfryw nifer gan Gorff y Cynrychiolwyr; o dderbyn eraill, rhaid i'r Esgobaeth dalu. Mae yna oblygiadau ariannol difrifol yn lleol, felly, o groesi'r trothwy hwn, gan y bydd yn gryn dolc i'r Gyfran Weinidogaethol.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Mae'n her ddi-ddiwedd ceisio cynnal amcanion a gweinidogaethol yr Esgobaeth, tra bo nifer y clerigiaid yn cyson leihau, a chan gadw golwg ar yr un pryd, ar les a llwyddiant y clerigiaid a'u teuluoedd.

Mae yna drin a thrafod dwys yn y dalaith ar hyn o bryd, ynglŷn â'r broses, ar ei hyd, o recriwtio clerigiaid yng nghyd-destun AddGLl, felly mae'n ddigon tebygol y bydd yna ddulliau newydd o sicrhau staff yn y pen draw. Nid rhwydd yw rhagweld patrwm ymddeol clerigiaid, gan na ellir ond dweud mae 70 yw'r oed gorfodol. Mae'r Bwrdd Enwebiadau yn ystyried sut y gellid ariannu swyddi dros dro, er mwyn sicrhau fod yna glerigiaid parod ar gael pan fydd sawl un yn ymddeol o 2024 ymlaen.

# Pwyllgor Eglwysi & Bugeiliol Esgobaeth Tyddewi (PEBET)
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Hyb Paul Mackness, Cadeirydd PEBET **AGENDUM 7**

AELODAETH Y PWYLLGOR
Mae aelodaeth y PEBET fel a ganlyn: Archddiaconiaid yr esgobaeth, yr Esgob, Cadeirydd neu Is-Gadeirydd y BCE, Cadeirydd y PYE neu aelod arall a enwebir ganddo/ganddi, tri aelod wedi eu hethol gan y Gynhadledd Esgobaethol o blith ei haelodau ei hun, a thri aelod a benodir gan Esgob yr Esgobaeth. Mae aelodau enwebedig ac etholedig yn gwasanaethu am 6 blynedd. (y cyfnod chwe-blynedd cyfredol wedi cychwyn ers 2020)

AMCANION
Mae'r PEBET yn gyfrifol am bwyso a mesur pa mor fugeiliol angenrheidiol yw adeiladau eglwysig yr Esgobaeth, gan gynghori'r Esgob a'r Gynhadledd Esgobaethol i'r perwyl hynny. Deil i gyflawni ei swyddogaeth fugeiliol, gan roi cyngor yn ogystal, ynglŷn â grantiau a benthyciadau mewn perthynas ag adeiladau eglwysig; hefyd gweinyddir cynllun archwilio Pum-mlynyddol (Cwincwennial) yr eglwysi, ynghyd â phroses ddatgan eglwysi yn ddi-angen.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
Cychwynnodd y PEBET newydd ei waith ar 1af Ionawr 2020; treuliodd y pwyllgor gryn amser yn tarfod effeithiau COVID o ran gweithgareddau eglwysig.

Cymeradwyodd y PEBET drefn o baratoi'r adroddiadau Cwincwennial gan y swyddfa, a phenodiad Arolygwr Cwincwennial Esgobaethol i'r perwyl hwnnw; bydd yn fodd arbed arian a sicrhau dilyniant o ran cyflwyno adroddiadau yn y dyfodol. Cytunodd Corff y Cynrychiolwyr i ariannu'r swydd yn rhannol am dair blynedd. Yn ystod y cyfnod adrodd, hysbysebwyd y swydd. Dyfeisiodd yr Ysgrifennydd ffordd er sicrhau trefn gyfamserol o baratoi adroddiadau trydanol, sy'n gymeradwy ym mhob ffordd.

Mae'r PEBET, bellach, yn gyfrifol am y Grantiau Trwsio Eglwysi, a weinyddwyd cynt gan Gorff y Cynrychiolwyr. Gellir cael uchafswm o £3000 o'r gronfa hon, ond rhaid i'r ceisiadau fod yn unol â'r meini prawf (gweler y wefan Esgobaethol). Mae'r PEBET yn croesawu ceisiadau, a thrafodir y cyfryw ymhob cyfarfod.

HERIAU ELENI
Monitro ac asesu effaith COVID o ran gallu eglwysi i weithredu'n genhadol a bugeiliol – dyna fu pennaf her y flwyddyn. Her fawr arall yn wynebu'r PEBET yw parhau i sicrhau fod proses cau eglwysi yn unol â'r canllawiau ar gyfer datgan, yn y pen draw, eu bod yn ddi-angen. Mae yna broblemau o hyd, o ran gofalu am Fynwentydd, a phobl yn gweithredu heb yr hawl priodol.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Bydd y PEBET yn dal i gyflawni ei swyddogaeth fugeiliol, gan ymorol am faterion yn ymwneud â Strategaeth Esgobaethol gogyfer â Thyfiant. Mabwysiedir proses newydd yr Eglwys yng Nghymru ynglŷn â chau eglwysi a datgan eu bod yn ddi-angen. Y gobaith yw gweld mwy o dryloywder. Gobeithir hefyd y gellir gwneud defnydd amgenach o fwy o eglwysi caeédig, gan ofalu amdanynt ar yr un pryd.

# Pwyllgor Ymgynghorol Esgobaeth Tyddewi (PYE)
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Mrs Jan Every, Ysgrifennydd PYE/Swyddog Gofal Eglwysi **AGENDUM 7**

---

AELODAETH Y BWRDD
Y PYE yw'r prif gorff sy'n cynghori Canghellor yr Esgobaeth. Mae'r aelodaeth yn gyfuniad o glerigwyr (Archddiaconaid), yn ogystal ag arbenigwyr mewn meysydd megis pensaernïaeth, archaeoleg, hanes, clychau neu organau, y Cofrestrydd Esgobaethol ac Ysgrifennydd. Gwirfoddolwyr yw'r aelodau oll a mae'r Eglwys yng Nghymru yn dibynnu ar haelioni'r cyfryw rai, sy'n rhoi yn hael o'u hamser a'u harbenigedd er budd y PYE.

AMCANION
Trefnir y PYE gan Ysgrifennydd sy'n cydlynu cyfarfodydd a cheisiadau ar y cyd â Chofrestrydd yr Esgobaeth. Rhan allweddol o waith y PYE yw cyfarfod i drafod cynlluniau; eto i gyd mae modd i'r pwyllgor gynnig arweiniad a chyngor i blwyfi yn gyffredinol. Anogir plwyfi i gysylltu â'r PYE ar fyrder, cyn cychwyn prosiect, er mwyn trafod y gwaith a fwriedir.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
Cyfarfu'r PYE 6 gwaith eleni, yn ôl y bwriad, ond drwy gyfrwng Zoom oherwydd y Pandemig; ymwelwyd â 3 safle wedi i reolau covid gael eu llacio, a hefyd ymwelwyd ag Eglwys y Fair Forwyn, Penfro, ar gais y Canghellor. Rhoddodd y PYE gyngor ynglŷn â 47 Hawleb Gyflawn; caniatäwyd 18, mae 3 yn disgwyl dyfarniad y Canghellor a mae 26 ar y gweill o fewn i'r gyfundrefn. Cyflwynwyd 5 cais Rhestr A, ac 16 Rhestr B, i'w dyfarnu gan y Cofrestrydd.

HERIAU ELENI
Y bwgan mwyaf eleni fu'r Pandemig, ond gan fod drysau'r eglwysi wedi bod ynghau, o ran addoli, ymddengys i nifer o blwyfi geisio bwrw ymlaen â gwaith trwsio ac ati, ar yr adeiladau, gan osod cryn bwysau ar y PYE, o orfod craffu ar y ceisiadau.
Nodwyd un pwynt yn arbennig, sef y nifer ôl-geisiadau am hawleb, o ran gwaith a oedd eisoes wedi ei gyflawni ond heb yr hawleb angenrheidiol. Mae angen mynd i'r afael â hyn. Anodd hefyd yw esbonio i Blwyfi pa weithiau sy'n perthyn i Restr A ac yna i Restr B, a rhaid i ysgrifennydd y PYE ofalu fod ceisiadau Rhestr A yn gyflawn, gan mai'r Plwyf sy'n eu paratoi heb yr arweiniad priodol; golyga hyn fod rhaid addasu ambell un ohonynt.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Yr her barhaus fydd canfod sut y gall y PYE helpu a thywys plwyfi drwy'r Gyfundrefn Hawleb Arlinell (GHA) er mwyn iddynt fedru llwyr ddeall yr oblygiadau cyfreithiol. Y gobaith yw trefnu gweithdai yn y plwyfi, wedi i gyfyngiadau covid lacio, naill ai drwy'r AddGLI neu blwyfi unigol. Y prif amcan yw dangos mai cynnig cymorth yw bwriad y PYE. Gobeithir hefyd addasu'r GHA er hwyluso holl drefn yr hawlebau ac atal ceisiadau gwallus.

# Tîm Datblygu AddGLl Esgobaeth Tyddewi
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Parch Ganon Marianne Osborne **AGENDUM 7**

---

AELODAETH Y TÎM
Parch Ganon Marianne Osborne- Cenhadydd Trawsnewid/Swyddog Datblygu AddGLl
Mr Simon Thane- Ymgynghorydd Datblygu AddGLl

AMCANION
Cefnogi ac annog datblygiad parhaus Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol, ac annog ardaloedd cenhadu & gweinidogaethu newydd a chreadigol, drwy ddarparu adnoddau a chefnogaeth.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
- Cefnogwyd Deoniaid AddGLl ac aelodau eraill o'r timau, drwy gyfrwng Zoom.
- Hyfforddwyd sawl Tîm Gweinidogaethu gyda CMS
- Arolygwyd Gweinidogaeth Ffocal
- Bu cryn drafod dros Zoom- parthed anghenion cyson yr AddGLl

HERIAU ELENI
Bu Pandemig Covid yn destun gofid aruthrol.
Gorfu i AddGLl ymwrthod â gweinidogaeth a chynlluniau arferol, a darparu cymorth brys yn lle hynny. O ganlyniad, cydiodd timau gweinidogaeth ac eglwysi mewn heriau newydd ac arloesol, o bosib. Daeth cyfarfodydd Zoom i fod yn allweddol o ran cefnogi a darparu, o ran clerigiaid a lleygwyr.
Golygodd cyfnodau clo na ellid cynnal cyfarfodydd Grŵp a Chynghorau AddGLl i'r un graddau; cyfyngwyd ar waith datblygu AddGLl, gan droi at gefnogi'r anghenus ac ymdrin â manion oddi fewn i'r AddGLl eu hunain.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
- Parheir i gefnogi AddGLl gan wrando ar eu hanghenion.
- Byddwn yn cefnogi Cadeiryddion Lleyg AddGLl, gan wrando ar eu barn.
- Anogir AddGLl i feddwl am eu sefyllfa cyn y cyfnodau clo, beth fu eu hanes yn ystod y cyfnodau hynny, a beth yw'r argoelion ar gyfer y dyfodol.
- Bydd cymorth ar gael gogyfer â hyfforddi timau AddGLl os bydd angen, wrth iddynt fentro i feysydd newydd o ran cenhadu ac arloesi.

# Y Bwrdd Persondai

## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021

Awdur: Mr N Roberts Cadeirydd / Mrs N Evans BA FCCA, Rheolwr Cyllid **AGENDUM 7**

---

**AELODAETH Y BWRDD**

Cyfarfu'r Bwrdd Persondai yn chwarterol yn ystod y cyfnod, dan gadeiryddiaeth Mr Nigel Roberts. Mae'r aelodaeth yn cynnwys yr Esgob, yr Archddiaconiaid, cynrychiolwyr clerigol a lleyg, un cymar clerigol, ac aelodau cyfetholedig sydd ag arbenigedd ym maes rheoli eiddo, prisiant ac adeiladu. Mae Arolygwr y Bwrdd Persondai, ynghyd â Phennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Eiddo Corff y Cynrychiolwyr hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd, ochr yn ochr â'r Ysgrifennydd Esgobaethol a'r Rheolwr Cyllid.

AMCANION

Rheoli portffolio ficerdai'r Esgobaeth, yn unol â'r angen o ran y weinidogaeth, a sicrhau fod y cyfryw adeiladau mewn cyflwr ardderchog; hefyd trefnu'r rhaglen ail-fuddsoddi.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI

- Mae'r sefyllfa ariannol yn hynod lewyrchus. Ar 31 Mawrth 2021, roedd gweddill y Gronfa Welliannau'n £2.437m a'r Gronfa Drwsio'n £836k. O ran y flwyddyn flaenorol hyd 31 Rhagfyr 2020, roedd cyfanswm incwm y Gronfa Drwsio'n £905,496; gwariwyd £879,046 gan adael swm o £26,450 dros ben.
- Parhau mae'r rhaglen gynnal a chadw arfaethedig, er gwaetha'r Pandemig, gan gynnwys archwilio sustemau trydan bob pum mlynedd, hefyd y rhaglen baentio arferol.
- Rhaid gwario'n sylweddol wrth i glerigiaid symud o blwyf i blwyf, er mawr bwysau ar ysgwyddau'r Arolygwr. Mae gwaith trwsio ac ailosod ffenestri a chafnau UPVC newydd, ac ati, yn parhau, ond y draul yn llai yn y pen draw, gan nad oes cymaint o waith cynnal a chadw.
- Ychydig iawn o brynu a gwerthu tai a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod, a gwerthwyd ambell ficerdy, megis Tregaron, am bris uwch na'r gofyn.
- Y sefyllfa ar 31 Mawrth 2021 oedd: 19 tŷ wedi eu rhentu gan denantiaid, 1 wedi ei rentu gan y Bwrdd, 4 yn wag ond i'w defnyddio maes o law gan glerigiaid. Dengys hyn pa mor ofalus y mae'r staff hŷn, o ran cadw golwg ar y sefyllfa dai.
- Deil y Bwrdd i gadw isafswm o £1m wrth gefn yn y Gronfa Welliannau er mwyn adeiladu tri ficerdy newydd pan fo angen amdanynt; cedwir £100k ychwanegol yn ogystal, ar gyfer gwella'r tai presennol.

HERIAU/EDRYCH TUA'R DYFODOL

- Mae'r Esgob a'r Archddiaconiaid yn llunio rhestr Flaenoriaeth, o ran cael gwared â thai sydd yn aneffeithiol o safbwynt meincnod EPC, a darparu ficerdai hwylus yn eu lle, er mwyn osgoi tlodi tanwydd.
- Delio ag oblygiadau Covid 19 ar brosesau'r Bwrdd Persondai a cheisio bwrw ymlaen â'r gwaith fel cynt, er hwylustod i bawb.
- Mae Cadeirydd y Bwrdd Persondai yn adrodd i PRhA y BCE yn rheolaidd, fel y bo'r wybodaeth yn hollol gyfredol.
- Mae'r Bwrdd yn derbyn a thrafod cyngor rheolaidd gan ei ymgynghorwyr proffesiynol ynglŷn â'r farchnad dai anwadal a heriol yn yr Esgobaeth; digon posib y gwelir y prisiau uchel presennol yn gostwng, a bydd yn rhaid i'r Bwrdd ddygymod â hynny, maes o law.

# Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi – Is-Bwyllgor Cyllidebu

## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Mr Timothy J Llewellyn, Cadeirydd, Is-Bwyllgor Cyllidebu **AGEMDUM 7**

---

Mae'r Is-Bwyllgor Cyllidebu yn cyfarfod yn chwarterol a mae'n cynnwys aelodau Clerigol a Lleyg y Bwrdd Cyllid Esgobaethol (BCE). Gwaith yr Is-Bwyllgor yw: -

- Gosod cyllideb flynyddol y BCE, ymwneud â rhai sydd â rhan yn y gyllideb, ac unigolion allweddol eraill, cyn i Bwyllgor Gweithredol y BCE gymeradwyo'r trefniadau.
- Arolygu'n rheolaidd yr Incwm a'r Gwariant, sylwi ar dueddiadau a chynnig gwelliannau/atebion, lle bo angen.
- Rhagweld gweithgareddau ar gyfer y dyfodol, ac oblygiadau ariannol y cyfryw.
- Arolygu yn rheolaidd y nifer Clerigiaid, gan gymryd i ystyriaeth benodiadau newydd, ordeinio ymgeiswyr, newydd-ddyfodiaid i'r Esgobaeth ac ymddeoliadau sydd yn yr arfaeth.

Sylweddola'r Is-Bwyllgor, heb rithyn o amheuaeth, mai prif ddiben ei fodolaeth, er hynny, yw cefnogi bywyd, gweinidogaeth a chenhadaeth yr Esgobaeth. Mae'n elwa'n sylweddol iawn o arweiniad, proffesiynoldeb, mewnbwn a chyngor y Tîm Cyllid Esgobaethol.

Daeth y pandemig fydeang â heriau personol ac ariannol yn ei sgîl, heriau na fyddai unrhyw un wedi medru eu rhagweld, ac nid rhwydd y dasg o lunio cyllideb dan y fath amodau. Yn eironig, er hyn, uniaethwyd â chyllideb 2021, ynghyd â'r broses o'i gosod, gyda'r arddeliad pennaf – yn fwy os rhywbeth, nag erioed o'r blaen.

Aelodau tîm Llunio'r Gyllideb yw Tim Llewelyn, yr Hybarch Paul Mackness, Nia Evans a Phil Cole. Bu'r tîm yn cyfarfod, dros Zoom, â mwy na 30 o bobl fyddai â rhan yn y gyllideb. Mae hyn yn gyfle euraid iddynt glywed, o lygad y ffynnon, am gynlluniau a bwriadau'r cyfryw bobl yn ystod y flwyddyn ganlynol; nid sôn am ffigurau moel gogyfer â hyn a'r llall, ond gwir ddirnad gwerth arhosol prosiect neu weithgaredd, i Fywyd a Gweinidogaeth yr Esgobaeth.

# Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi– Is-Bwyllgor Rheoli Argyfwng
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Hyb Paul Mackness, Ysgrifennydd y PRhA **AGENDUM 7**

---

Ffurfiwyd y Pwyllgor Rheoli Argyfwng (PRhA) fis Ebrill 2020 i alluogi'r BCE i weithredu'n effeithiol rhwng cyfarfodydd y Bwrdd cyfan. Dyma'r aelodaeth: yr Esgob, yr Archddiaconiaid, Cadeirydd y Bwrdd, y Cofrestrydd Esgobaethol a chadeiryddion pob un o Is-Bwyllgorau'r BCE, ynghyd â chefnogaeth tîm rheoli'r BCE. Mae'n adrodd i'r BCE cyflawn, ac fe'i awdurdodwyd i weithredu ar ran y Bwrdd rhwng cyfarfodydd ac i ddarparu Dilyniant Busnes. Adnewyddir ei awdurdod bob chwe mis.

Cyfarfu'r PRhA bob pythefnos yn ystod y cyfnod clo cyntaf, ac yn fisol erbyn diwedd 2020. Mae iddo agenda sefydlog sy'n darparu ar gyfer agweddau y dylai Cyrff Ymddiriedoledig eu cwmpasu, yn unol ag arweiniad y Comisiwn Elusennau.

Ymhlith y materion a gwmpasir:

- Staff yn gweithio o bell a llesiant Staff.
- Y Gyfran Weinidogaethol a Chefnogaeth Ariannol gan y CC
- Materion Cyllidebol ac arall, parthed y Gyfran Weinidogaethol
- Sefyllfa clerigiaid yn y fan a'r lle
- Adferiad a Dilyniant Busnes
- Materion Llywodraethiant
- Adroddiadau gan bob Is-Bwyllgor o'r Bwrdd

Mae pob aelod o'r Bwrdd yn derbyn copi o gofnodion y PRhA.

# Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi – Is-bwyllgor Ysgolion Waddoledig

## ANNUAL SUMMARY REPORT

Cyfnod Adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Miss Emma O'Connor, Rheolwr Eiddo **AGENDUM 7**

---

Mae'r Is-Bwyllgor Ysgolion Waddoledig (PYW) yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn dan gadeiryddiaeth David Thomas ac yn cynnwys Aelodau Clerigol a Lleyg y Bwrdd Cyllid Esgobaethol. Ei waith yw: -

- Darparu cymorth gyllidol tuag at brosiectau atgyweirio ac adnewyddu mewn ysgolion eglwysig, ynghyd a rheolaeth/gwarediad ysgolion sy'n ddiangen.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn:

- Cynorthwyo Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth (CAE) i benderfynu dyraniadau cyllid/ cronfeydd ar gyfer prosiectau bach a phrif brosiectau ar ysgolion eglwysig.
- Rheoli gwarediad ysgolion sy'n ddiangen mewn cysylltiad gyda'r cynghorwr cyfreithiol perthnasol ac mewn cytundeb gyda'r dulliau a gytunwyd i'w fabwysiadu ble mae dychweliad yn bodoli.

Mae portffolio'r Ysgolion Waddoledig yn amrywiol, gan gynnwys ysgolion eglwysig, neuaddau, tai byw a lleiniau o dir. Mae rhai rhannau o'r eiddo hwn yn gyfangwbl yn nwylo'r PYG, tra bod eraill ar ymddiriedolaeth ar ran Plwyfi. Mae'r arian sy'n cael ei gynhyrchu o'r eiddo hyn yn gyffredinol yn gyfyngedig ar gyfer bwrpasau addysgiadol o fewn yr Esgobaeth ac yn cael ei ddal yng Nghronfa'r Ysgolion Waddoledig. Yr Adran Eiddo sy'n cyflawni cryn dipyn o'r gwaith a ddaw drwy ddwylo'r Is-Bwyllgor Ysgolion Waddoledig, maent yn gweithio'n agos gyda'r CAE a'r Gyfarwyddiaeth Addysg er mwyn gallu rheoli'r asedau. Mae hyn yn cynnwys:

- Ceisiadau i'r Gofrestrfa Dir
- Rhenti, prisiannau a gwerthiannau
- Cefnogi Ysgolion Esgobaethol a Grwpiau/Cymdeithasau Cymunedol gyda materion cynnal a chadw

Daeth ambell her yn sgîl y pandemig byd-eang yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Er gwaethaf y cyfryw anawsterau, llwyddodd y PYG i wella'r gysylltiad rhwng y BCE a'n Hysgolion Esgobaethol wrth gynnig cyngor a darparu Cyllid tuag at waith gynnal a chadw a phrosiectau.
Mae'r ymgysylltiad gyda Phlwyfi, Awdurdodau Lleol a Grwpiau/Cymdeithasau Cymunedol yn parhau, mae hyn wedi galluogi'r PYG ddod a materion megis prydlesi, trosglwyddo ysgolion a gwerthiant eiddo i ben, hefyd i nodi eiddo na wyddai'r BCE am ei fodolaeth gynt.

# Is-Bwyllgor Grantiau Esgobaeth Tyddewi

## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021

Awdur: Mrs Christine Thomas, Cynorthwy-ydd Cyllid **AGENDUM 7**

---

Mae'r Is-Bwyllgor yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn i ystyried ceisiadau fydd yn ymwneud â chynlluniau i annog a hybu Cenhadaeth yr Ardal Weinidogaeth Leol (AWL)

**Meini Prawf:**

- Ystyrir uchafswm o £3,000 fel arfer, gogyfer â phob cais
- Dau gais ar y mwyaf i bob AWL, mewn blwyddyn galendr
- Ni chaniateir gohirio grantiau a gymeradwywyd yn ystod un flwyddyn, tan y flwyddyn nesaf
- Nid yw Ailgrantiau yn awtomatig: rhaid ymgeisio eilwaith am bob blwyddyn. Ceidw'r Pwyllgor Grantiau yr hawl i beidio estyn cyllid mewn blynyddoedd canlynol
- Rhaid i arweinydd/Bwyllgor AWL, gymeradwyo cais cyn ei anfon.

Mae'r Pwyllgor yn rhoi blaenoriaeth i'r ceisiadau hynny sy'n amcanu:

- Tyfu niferoedd
- Tyfu ymroddiad ysbrydol
- Tyfu o ran gwasanaethu Duw drwy genhadu yn y gymuned leol.

**NID** yw grantiau AWL ar gael i'w defnyddio ar gyfer prosiectau eglwysi unigol yn unig, neu ar gyfer cyfarpar at ddefnydd prosiectau eglwysi unigol

Mae angen i geisiadau ddangos:

- ✓ **Perthnasedd:** Fod y cais yn unol â'r meini prawf
- ✓ **Deheurwydd:** Fod gobaith cwblhau'r prosiect yn ddeheuig ac mewn pryd
- ✓ **Hygrededd:** Y bydd yn arwain at dŵf yr AWL
- ✓ **Cyflawnder:** Fod pob cwestiwn wedi ei ateb, fel bod gan Aelodau'r Pwyllgor ddarlun eglur o'r hyn sydd mewn golwg
- ✓ **Cynaladwyedd:** Fod prosiectau mwy/hir-dymor yn debyg o barhau wedi i'r grant ddod i ben neu i'r staff symud ymlaen.
- ✓ **Ymarfer da**
- ✓ **Gallu:** i asesu/arfarnu

Mae grantiau eraill ar gael, ewch i: https://stdavids.churchinwales.org.uk/en/resources/

2021:

- ➢ Dyfarnwyd dau grant eleni, y naill a'r llall i AWL Bro Aman
- ➢ Mae yna geisiadau ychwanegol i'w hystyried yn nghyfarfod nesaf y Grŵp Grantiau, fis Tachwedd.

# Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi– Is-Bwyllgor AD

## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Mr Timothy J Llewellyn, Cadeirydd, Is-Bwyllgor AD **AGENDUM 7**

---

Mae'r Is-Bwyllgor Adnoddau Dynol (AD) yn cyfarfod bob chwarter, a mae'n cynnwys aelodau Clerigol a Lleyg y Bwrdd Cyllid Esgobaethol. Dyma'r dyletswyddau: -

- Arolygu, cytuno a diweddaru polisïau a dulliau gweithredu cydweithwyr, derbyn arweiniad a chyngor gan gyfreithwyr JCP sy'n darparu gwasanaethau AD proffesiynol ar gyfer yr Esgobaeth.
- Ystyried swyddogaeth cydweithwyr, hefyd arolygu a datblygiad adrannol, a'r diweddaraf o'r rhain fel a ganlyn: -
  - Cymeradwyo, recriwtio a phenodi Arolygydd Cwincwennial Esgobaethol
  - Cadw golwg ar y dasg o weithredu canfyddiadau adroddiad a gomisiynwyd ynglŷn â phrosesau a strwythurau Adran Eiddo'r Esgobaeth.
- Sicrhau fod llesiant cydweithwyr yn derbyn y sylw pennaf, drwy gynnig cefnogaeth ac arweiniad, lle bynnag yr angen.

# Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi– Is-Bwyllgor Buddsoddiadau

## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Mr Dan Jones, Cadeirydd, Is-Bwyllgor Buddsoddiadau **AGENDUM 7**

---

Mae'r Is-bwyllgor Buddsoddiadau yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, a mae yna aelodau Clerigol a Lleyg o'r Bwrdd Cyllid Esgobaethol yn perthyn iddo. Daw dau aelod staff cwmni Rathbones, ein Hymgynghorwyr Ariannol (Alex Dow a Libby Barrett) atom ar gyfer dau o'r cyfryw gyfarfodydd; bydd yr is-bwyllgor yn derbyn adroddiadau trwyadl, manwl a phroffesiynol, bryd hynny, am hynt y Portffolio dros y cyfnod blaenorol, ynghyd â'r gobeithion a'r ofnau o ran y dyfodol. Y strategaeth y cytunwyd arni gyda'r Ymgynghorwyr yw – Categori pedwar (Un yn risg isel, Chwech yn uchel), sef, buddsoddi ar gyfer y tymor canolig i'r hir-dymor, a hynny o ran cyfalaf ac incwm. Mae'r Ymgynghorwyr yn gwbl ymwybodol hefyd o'n Polisïau Buddsoddi Moesegol, ac yn barod i'w parchu; mae'r Is-bwyllgor yn adolygu'r cyfryw bolisïau, yn flynyddol. Yr un yw'r polisïau hynny ag eiddo'r Eglwys yng Ngymru, a gellir eu gweld ar wefannau Esgobaeth Tyddewi a'r Eglwys yng Nghymru. Mae'r Portffolio'n cynnwys arian a ddelir mewn ymddiriedolaeth ar ran Plwyfi a'r Gadeirlan, ond gofalu'n unig am y rhain a wna'r is-bwyllgor, gan eu bod yn eiddo i'r bobl fydd yn elwa o'r ymddiriedolaethau. O ganlyniad i'r hyn a argymhellwyd gan ein Harchwilwyr, mae'r arian hyn, lle bo hynny'n bosib, yn cael ei drosglwyddo i'r sawl sy'n gymwys i'w dderbyn; eisoes, trosglwyddwyd mwyafrif yn ymddiriedolaethau hyd at £10,000, a mae trefniadau ar waith gogyfer â'r rheiny dros £10,000.

Codir arian o'r Portffolio pan ddaw cais gan yr ymddiriedolwyr neu pan fo'r Bwrdd yn dymuno cymorth o ran Gwariant ac o ran y Gyfran Weinidogaethol. O ganlyniad i argymhelliad yr Archwilwyr, nid oes modd i ni dderbyn unrhyw arian newydd dan amod ynddiriedolaeth, a rydym wedi awgrymu fod yr Eglwys yng Nghymru, sydd â'r cyfleusterau angenrheidiol, yn gwneud hynny.

Gwelwyd y farchnad stoc yn adennill grym wedi'r Pandemig Byd-eang, er ein bod, bawb ohonom, yn ymwybodol o'r risgiau a'r ansicrwydd sydd ynghlwm wrth y mathau hyn o fuddsoddiadau; fodd bynnag, mae ein Hymgynghorwyr proffesiynol yn ofalus eu barn ac yn gadarn eu cyngor bob amser, gan ofalu na fyddwn ar ein colled. Mae'r Portffolio ar hyn o bryd yn werth mwy na saith miliwn o bunnoedd, ond tua 40% yn unig o'r swm hwn sy'n eiddo i'r Esgobaeth, a'r gweddill dan amod ymddiriedolaeth, fel y nodwyd uchod.

# Y Bwrdd Cyllid Esgobaethol – yr Is-Bwyllgor Cyfran Weinidogaethol

## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021

Awdur: Mr Nigel Evans, Cadeirydd, y Is-Bwyllgor Cyfran Weinidogaethol **AGENDUM 7**

---

Neilltuir yr arian oll a ddaw i law gogyfer â'r Gyfran Weinidogaethol, i gefnogi Gweinidogaeth. Fe'i defnyddir i dalu am glerigiaid, i'w lletya, i ofalu am eu pensiynau a'u Hyswiriant Cenedlaethol. Elfen amlycaf yr incwm Esgobaethol, a hynny o bell ffordd, ydyw'r Gyfran Weinidogaethol. Mewn blwyddyn arferol, mae'n gyfrifol am 79 - 80% o'r incwm, tra bo'r gweddill yn deillio o grant bloc gan Gorff y Cynrychiolwyr, llôg ar fuddsoddiadau, cymynroddion a ffynonellau incwm eraill, llai eu maint. Fel rheol, ni dderbynnir cyllid ychwanegol gan GyC neu gyrff eraill i wneud iawn am unrhyw brinder yn y coffrau.

Wrth reswm, doedd llynedd, ddim o bell ffordd, yn flwyddyn normal. Digynsail oedd gweld cau drysau ein heglwysi, yn y fath fodd ac am gyhyd o amser ag a ddigwyddodd. Mae ein gwerthfawrogiad, gan hynny, yn ddyledus tu hwnt i Gorff y Cynrychiolwyr am gefnogi'r esgobaethau yn ariannol. Penderfynodd ein Bwrdd Cyllid ni, drosglwyddo 100% o'r arbedion i'r eglwysi. Nid felly y bu, o ran pob esgobaeth.

Mae'n hanfodol sylweddoli, onid yw amgylchiadau'n newid yn sylweddol, y bydd y cymorth ariannol gan y GyC yn dod i ben o Chwarter 3 ymlaen. Felly, wrth i ni ddechrau (yn ara deg) datgloi drysau ein heglwysi ac ail-adeiladu ein cynulleidfaoedd a'n bywyd eglwysig, byddwn unwaith yn rhagor yn dibynnu ar Gyfran y Weinidogaeth i dalu am y gwaith yn yr AddGLl, a bod yn brif ffynhonnell incwm y Bwrdd.

Yn ddi-os, bydd yna heriau sylweddol yn ein wynebu, bawb ohonom, yn ystod y flwyddyn sydd o'n blaenau, ac am sawl blwyddyn wedi hynny. Mae'r Is-Bwyllgor Cyfran Weinidogaethol yn chwarae rhan nid bychan yn y gwaith o gadw golwg ar gyfraniadau'r gyfundrefn-dalu honno, gan gydweithio'n agos gydag eglwysi i estyn cymorth, cyngor a chefnogaeth i'r rheiny sy'n ei chael yn anodd talu eu cyfran yn llawn. A bwrw bod eglwys yn y sefyllfa honno, neu yn rhagweld anawsterau i ddyfod, yna rhodded gwybod i'r Is-Bwyllgor Cyfran Weinidogaethol, ar fyrder. Dylid cysylltu â'r Parch Jeff Thomas yn y lle cyntaf, a bydd yntau, yn rhinwedd ei waith fel Swyddog AddGLl dros Stiwardiaeth a Chefnogaeth, yn barod i gynghori a chefnogi, ac yna i ddwyn anawsterau a phroblemau gerbron yr Is-Bwyllgor Cyfran Weinidogaethol.

# Is-bwyllgor Eiddo Esgobaeth Tyddewi
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Miss Emma O'Connor, Rheolwr Eiddo **AGENDUM 7**

---

Mae'r Is-bwyllgor Eiddo yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn dan gadeiryddiaeth Mr Nicholas Griffin, ac yn cynnwys Aelodau Clerigol a Lleyg y Bwrdd Cyllid Esgobaethol. Ei waith yw: -

- Rheoli holl dir ac adeiladau'r BCE (yn unol â'r polisïau cydnabyddedig, yr amcanion strategol a'r cyllidebau a benderfynir gan y BCE).

Mae Portffolio Eiddo Esgobaethol Tyddewi yn amrywiol, gan gynnwys neuaddau, tai byw, lleiniau o dir a thai gwyliau. Mae rhai rhannau o'r eiddo hwn yn gyfangwbl yn nwylo'r BCE, tra bod eraill ar Ymddiriedolaeth ar ran Plwyfi. Yr Adran Eiddo sy'n cyflawni cryn dipyn o'r gwaith a ddaw drwy ddwylo'r Is-bwyllgor Eiddo, gan gydweithio'n agos â phlwyfi, er cynorthwyo â materion yn ymwneud ag eiddo, yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Ceisiadau i'r Gofrestrfa Dir
- Cynhgori ynglŷn â chynnal a chadw/trwsio
- Cyfleoedd datblygu
- Rhenti, prisiannau a gwerthiannau

Daeth ambell her yn sgîl y pandemig byd-eang yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Gwelwyd rhai o'r sefydliadau y deuwn i gysylltiad â hwynt yn gorfod cau neu gyfyngu ar eu gweithgareddau, a phrofi prinder staff. O ganlyniad, ni fedrwyd ymgynghori yn y modd arferol, ag archifau a llyfrgelloedd at ddibenion ymchwil, a gwelwyd gwaith yn cronni yn wyneb prinder staff; anochel felly, fu'r oedi o ran gwasanaethau megis y Gofrestrfa Dir ac Adrannau Cynllunio yr Awdurdodau Lleol.

Er gwaethaf y cyfryw anawsterau, llwyddodd y Pwyllgor i gysylltu'n llwyddiannus ag AddGLl/Plwyfi, Grwpiau Cymunedol a Chymdeithasau, i gynghori, i gwblhau trefniannau prydles a gwerthiant eiddo, hefyd i nodi eiddo na wyddai'r BCE am ei fodolaeth, gynt.

# Cymdeithas Gweddwon, Plant Amddifad a Dibynyddion

## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Mrs Nia Evans, Rheolwr Cyllid **AGENDUM 7**

---

Gyda golwg ar y gweddwon oedd yn derbyn pensiwn gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn ystod 2020, roedd 9 ohonynt ag incwm oedd yn llai na'r lefel-darged y cytunwyd arni gan Bwyllgor Pensiynau a Chymorth Esgobaeth Tyddewi, sef £15,420. Talwyd grantiau o gronfa'r Gymdeithas Daleithiol er mwyn i'w hincwm gyrraedd y man hwnnw.

Er sicrhau fod y gweddwon perthnasol yn derbyn yr hyn sy'n ddyledus iddynt, cyfrannodd y Pwyllgor Pensiynau a Chymorth Esgobaethol £17,000 i helpu'r Gronfa Gymdeithas Daleithiol.

Roedd yn dda gan Bwyllgor Pensiynau a Chymorth yr Esgoabeth fedru rhoi grant ychwanegol o £150 yr un i'r gweddwon, adeg y Nadolig, hynny'n gwneud cyfanswm y pen o £7,200. Cafwyd gair o ddiolch gan y gweddwon oll, a elwodd o'r cymorth ychwanegol hwn. Ni threfnwyd achlysur cymdeithasol ar gyfer gweddwon clerigiaid, oherwydd cyfyngiadau Covid.

Mae Pwyllgor Pensiynau a Chymorth yr Esgobaeth yn dymuno diolch i'r plwyfi hynny a anfonodd gyfanswm cyfraniadau o £150 i gynorthwyo'r gwaith. Mae yna alwadau cynyddol ar y gronfa, felly byddai swm cyfalaf, £18,652 ar gael i ni o Ymddiriedolaeth 464.

Nodir fod gweddill o £3,255 ar gael, 31ain Rhagfyr 2020, ar gyfer ceisiadau brys am gymorth gan weddwon/widmanod.

# Y Gyfarwyddiaeth Addysg
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Parch John Cecil – Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol **AGENDUM 7**

---

AELODAETH
Cadeirydd y Gyfarwyddiaeth Addysg yw Archddiacon Tyddewi, a'r prif swyddogion yw'r Cyfarwyddwr Addysg a'r Swyddog Ysgolion, ynghyd â Mrs Abi Hook yr ysgrifennydd. Mae aelodaeth y Gyfarwyddiaeth yn cynnwys cynrychiolwyr y Pwyllgor Sefydlog, Penaethiaid Ysgolion Eglwys, Ymwelwyr Esgobol, Clerigiaid a Llywodraethwyr Ysgolion.

AMCANION
Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn arolygu gwaith ysgolion eglwys yr Esgobaeth. Gwneir hyn yn bennaf drwy'r Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol, y Swyddog Ysgolion, ynghyd â'u Llywodraethwyr Gwaddoledig a'u Hymwelwyr Esgobol. Y Pwyllgor Ysgolion Gwaddoledig sy'n gyfrifol am gyllido ein Hysgolion Gwirfoddol dan Gymorth, a'r cyfryw rai dan Reolaeth, a'r un pwyllgor yw adain ariannol y Gyfarwyddiaeth Addysg. Bydd y Gyfarwyddiaeth yn cyfarfod, dan enw'r Pwyllgor Ysgolion, dair gwaith y flwyddyn – fesul tymor, mewn gwirionedd, a chynhaliwyd y cyfarfodydd hyn drwy gyfrwng Zoom.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
Mae cyfnod yr adroddiad hwn yn cyd-ddigwydd â phandemig y firws corona, a fu'n achos newid syfrdanol ym mywyd beunyddiol ysgolion. Gwelwyd ambell ysgol eglwys yn dod yn ganolfan fach leol i blant gweithwyr allweddol; cymeradwywyd ysgol Wirfoddol St Mark am gefnogi'r gymuned leol gydag arddeliad, tra bod Ysgol Penrhyn Dewi wedi dyfeisio dull cwbl newydd o hybu addysg disgyblion arlinell, a chan sicrhau cefnogaeth i blant bregus a'u teuluoedd. Enynnwyd clod y Gweinidog Addysg Kirsty Williams am hyn. Defnyddiwyd dulliau rhithiol i ddal cysylltiad â phob ysgol, er mwyn hyfforddi staff, cynnig cefnogaeth fugeiliol a chynghori yn ôl y galw. Chwaraeodd y Gyfarwyddiaeth ran yng ngwaith trefnu'r maes llafur newydd ar gyfer Cymru, yn arbennig y fframwaith o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Esgorodd hyn ar gyfleoedd cydweithio ag Esgobaethau eraill y Dalaith, o ran cynhyrchu adnoddau defnyddiol, er mawr werthfawrogiad ysgolion eglwys.

HERIAU ELENI
Heriol fu'r gwaith o gefnogi ysgolion eglwys yn ystod y pandemig, yn arbennig gan na ellid ymweld â hwynt yn y modd arferol. Bu'n allweddol bwysig i gefnogi staff ysgolion, yn wyneb newidiadau sydyn a di-rybudd o ran rheoliadau Covid; felly hefyd blant bregus a'u teuluoedd.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Mae'r Gyfarwyddiaeth yn eiddgar i barhau i weithio gydag ysgolion eglwys, llywodraethwyr sylfaen ac eraill, i hyrwyddo addysg ffydd yn yr Esgobaeth. Diau y gwelir newid yn null rheoli ambell ysgol, yn wyneb her denu staff a hefyd gostyngiad yn y cyllidebau. Bydd maes llafur newydd Cymru'n ennyn sylw cyson y Gyfarwyddiaeth ac yn gyrru'r dyhead am sylabws addas ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae yna brosiectau cyffrous ar y gweill, o ran defnyddio rhai adeiladau ysgol ar gyfer gwaith meithrin a mentrau eraill dan nawdd cymunedau lleol.

# Tasglu Plant Ieuenctid & Theuluoedd(PITh)
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Hyb Paul Mackness, Cadeirydd y Tasglu **AGENDUM 7**

---

AELODAETH Y TASGLU
Y Cadeirydd yw Archddiacon Tyddewi, a chynhwysa'r aelodaeth gynrychiolwyr y Gyfarwyddiaeth Addysg, y Bedwaredd Archddiaconiaeth, y CEGC/Plant Dewi a chlerigiaid sy'n diddori neu sydd â phrofiad mewn gwaith gyda Phlant, Ieuenctid a Theuluoedd; penodir aelodau ychwanegol, cyn bo hir, i gynrychioli'r Pwyllgor Sefydlog.

AMCANION
Prif nod y Tasglu yw cydlynu'r cyrff Esgobaethol perthnasol sy'n gweithio gyda Phlant, Ieuenctid a Theuluoedd, er mwyn ceisio meddwl ac agwedd "cyffredin" a rhoi taw ar weithio'n unigol. Ffurfiwyd y Tasglu ar gais yr Esgob yn 2019, a bydd yn cadw golwg, dan y Gyfarwyddiaeth Addysg, ar bopeth fydd yn digwydd yn yr Esgobaeth, o ran Plant Ieuenctid a Theuluoedd. Bydd yn gyfrifol am y gyllideb strategaeth a ddyfernir ar gyfer gwaith gyda Phlant, Ieuenctid a Theuluoedd, ac ochr yn ochr â'r pwyllgor Grantiau, yn ystyried ceisiadau am gymhorthdal tuag at waith gyda Phlant ac Ieuenctid. Mae yna awydd i ymwneud yn uniongyrchol â Phlant ac Ieuenctid wrth geisio llunio strategaeth.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
Cyfarfu'r Tasglu'n rheolaidd arlinell, drwy gyfrwng Zoom. Cytunwyd ar swydd-ddisgrifiad ar gyfer Cenhadydd Plant, Ieuenctid a Theuluoedd, sef swydd Esgobaethol 0.5, a swydd Offeiriad â Gofal 0.5 yn AWL Daugleddau. Er y gallai'r swydd fod yn llawn-amser, mae'r Tasglu'n ymwybodol o'r cyni economaidd presennol yn yr Esgobaeth. Bydd y sawl a benodir yn llunio strategaeth PITh ar gyfer yr Esgobaeth, ac yn cydlynu gwaith gyda'r AddGLl, aelodau'r Tasglu, a'r Bedwaredd Archddiaconiaeth.

Comisiynwyd Byddin yr Eglwys gan y Tasglu, i wneud ymchwil er asesu angen sylfaenol gwaith gyda Phlant, Ieuenctid a Theuluoedd yn yr Esgobaeth, hynny er mwyn canfod dylanwad tebygol Cenhadydd PITh, hefyd Strategaeth PITh.

O ran y Bedwaredd Archddiaconiaeth, mae yna bosibilrwydd y gallai sawl Efengylydd o'r Canolfannau Cenhadu weithio uchafswm o 20% o'u hamser i helpu AddGLl gyda gwaith PITh.

HERIAU ELENI
Bu sawl her yn sgîl COVID, gan rwystro penodiad Cenhadydd PITh, ond ein gobaith yw hysbysebu'r swydd yn yr Hydref 2021. Yn anffodus hefyd, bu rhai AddGLl yn gyndyn o ymateb, pan ofynnwyd am wybodaeth neu gymorth.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Mae'r tasglu'n disgwyl yn eiddgar am benodiad y Cenhadydd PITh newydd, ac am lunio a mabwysiadu strategaeth 5-mlynedd. Gobeithiwn y bydd prosiect ymchwil Byddin yr Eglwys yn fodd i fesur ac asesu llwyddiant y gwaith.

# Y Gyfarwyddiaeth Weinidogaethu
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 - Pasg 2021
Awdur: Parch Ganon Ddr Rhiannon Johnson, Cyfarwyddydd y Gyfarwyddiaeth Weinidogaethu

**AGENDUM 7**

---

AELODAETH Y GYFARWYDDIAETH

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cynnwys swyddogion yr Esgob sydd â chyfrifoldeb am Ddatblygiad Gweinidogaethol, sef y Cyfarwyddydd Gweinidgoaethu, Warden Ymgeiswyr a'r Warden Cynorthwyol yn yr un maes, Warden y Darllenwyr, y Swyddog Datblygiad Gweinidogaethu (hefyd yn gyfrifol am hyfforddiant parhaus clerigiaid, [HPC], a datblygiad curadiaid [AWDd 4-7]), Cydlynydd y Gyd-Gymdeithas Alwedigaethau, Cydlynydd Gweinidogion Ffocal, a Chydlynydd y Coleg Cyfarwyddwyr Ysbrydol. Ni fu gennym Swyddog Datblygiad Lleyg yn ystod y cyfnod dan sylw. Mae yna ddau aelod o'r Pwyllgor Sefydlog, sef Mrs Elizabeth Thomas a'r Hyb Mones Farah hefyd yn aelodau o'r Gyfarwyddiaeth. Ein cadeirydd yw Archddiacon Caerfyrddin. Gwahoddir, yn ogystal, Tiwtor sefydliad St Padarn dros yr Esgobaeth, i fynychu ein cyfarfodydd ac i gyfrannu.

AMCANION Y GYFARWYDDIAETH WEINIDOGAETHU

Cefnogi galwedigaeth a gweinidogaeth (yn arbennig gweinidogaeth gyhoeddus gynrychioliadol) o fewn i'r Esgobaeth yw nod y Gyfarwyddiaeth. Cydlynir holl waith yr amryw swyddogion sydd â chyfrifoldeb yn y maes hwn.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI

Fel y dengys adroddiadau'r swyddogion unigol, cynnal gwaith o ran galwedigaethau a gweinidogaeth yn ystod blwyddyn ddigon anodd fu'r her fwyaf. Hefyd, cynhaliodd y Gyfarwyddiaeth archwiliad amgylcheddol o'r gwaith, gan gynllunio gweithio mewn modd mwy cyfrifol, o ran yr amgylchedd, yn y dyfodol. Paratowyd gwasanaethau a homilïau ar gyfer Boreol Weddi, yn wythnosol, yn ystod y pandemig, drwy gyfrwng Saesneg a Chymraeg, er budd arweinwyr addoliad ac eraill. Aeth gwaith arferol y Gyfarwyddiaeth yn ei blaen, drwy ymroddiad dygn yr aelodau. Trwyddedwyd un Darllenydd newydd yn 2020, derbyniwyd unarddeg diacon ac ordeiniwyd naw offeiriad, un ohonynt yn cymryd urddau mynachaidd, yn ogystal. Crewyd grŵp bychan gennym i ffurfio strategaeth ar gyfer galwedigaethau.

HERIAU'R FLWYDDYN

Yn ddios, Covid fu'r maen tramgwydd pennaf. Bellach, gwneir llawer o'n gwaith arlinell; er i hyn fod yn llwyddiant, profwyd anawsterau yn ogystal, ac yn arbennig o ran dirnadaeth a recriwtio. Bu trefnu gwasanaethau ordeinio saff, a'r encilion o flaen llaw (arlinell) yn rhywfaint o destun gofid. Rhaid diolch i staff y Gadeirlan a swyddogion eglwysi Abergwili ac Aberdaugleddau (St Katharine) am hwyluso hyn. Pan fu bygythiad angladdau niferus, bodlonodd rhai o'r ymgeiswyr dderbyn hyfforddiant cymwys ychwanegol, rhag ofn gorfod ateb y galw.

EDRYCH TUA'R DYFODOL

Parhau mae ein gwaith ar y cyfan yn ôl ein harfer. Mae posibiliadau gweinidogaeth ddigidol ar ein meddyliau a bwriadwn edrych o ddifri ar hyn o ran yr Esgobaeth. Bydd Arolwg Gweinidogaethol clerigiaid a Darllenwyr (arolwg gwirfoddol) yn digwydd; mae sefydlu gwaith Caplaniaeth Anna ymhlith pobl hŷn yr Esgobaeth, ar y gweill gennym, a bydd cryn ail-adeiladu yn angenrheidiol pan ddaw trefn eto wedi dyddiau'r haint.

# Hyfforddiant
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd : Pasg 2020 - Pasg 2021
Awdur : Parch Ganon Ddr Rhiannon Johnson, Cyfarwyddydd Gweinidogaethu **AGENDUM 7**

---

NIFEROEDD YN DERBYN HYFFORDDIANT

Roedd yna 36 pherson yn cychwyn eu hyfforddiant ar gyfer gweinidogaeth drwyddedig gyhoeddus yn yr Esgobaeth yn y cyfnod hwn, fel a ganlyn:

- Darpar Ddarllenwyr – 2
- Ordeiniwyd yn offeiriaid yn 2020 – 9 (6 GDG(Ll) a 3 Cyflogedig)
- Derbyniwyd yn ddiaconiaid yn 2020/2021 (un yn yr Ystwyll) – 11 (6 GDG(Ll) a 4 cyflogedig)
- Paratoi at fod yn ddiaconiaid Mehefin 2021 – 6 (4 GDG(Ll) a 2 cyflogedig)
- Dirnadwyd i'w hyfforddi'n GDG(Ll) – 4
- Dirnadwyd i'w hyfforddi'n GDG – 1
- Dirnadwyd i'w hyfforddi, ac yn derbyn hyfforddiant ar gyfer gweinidogaeth gyflogedig – 4

Mae un o'r uchod yn fyfyriwr yn y Drindod, Bryste; felly hefyd ddau o blith y diaconiaid a'r offeiriaid. Bu un diacon newydd yn fyfyriwr yn St Steffan, Rhydychen. Hyfforddwyd y gweddill drwy St Padarn. Rhoddwyd cefnogaeth a hyfforddiant pellach i'r GDG(Ll) gan yr Esgobaeth. Mae'r niferoedd rywbeth yn debyg i'r Esgobaethau eraill.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI

Parhau i ddirnad ymgeiswyr a'u hyfforddi, er gwaetha'r pandemig, fu'r pennaf gamp. Arlinell, ar y cyfan, y mae'r hyfforddiant erbyn hyn, a gohiriwyd rhai elfennau nes medru hyfforddi yn y cnawd eto. Er yn llai profiadol o rai agweddau o fywyd yr eglwys, mae'r rhain yn fwy profiadol o dipyn, o ran gweinidogaeth ddigidol ac ymdopi ag argyfwng iechyd cyhoeddus.

HERIAU ELENI

Ail-drefnwyd staff St Padarn, fel bo newid yn syniad y 'tiwtor esgobaethol'. Amser a ddengys beth ddaw o hyn.

EDRYCH TUA'R DYFODOL

Boddhaol yw'r niferoedd ar hyn o bryd; eto i gyd, arafu mae'r drefn yn gyffredinol, a llai o nifer o ddynion yn ymddangos i'w dirnad a'u hyfforddi. Dymunem weld mwy o bobl ifainc yn ystyried galwedigaeth, hefyd mwy o siaradwyr Cymraeg cynhenid. Mae'r grŵp strategaeth galwedigaethau yn ceisio rhyw atebion, ond mae gweddi a myfyrdod personol yn allweddol, ar yr un pryd.

# Darllenwyr (Gweinidogion Lleyg Trwyddedig)
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020-Pasg 2021
Awdur: Ruth Evans (Warden Darllenwyr) **AGENDUM 7**

Ni bu Darllenwyr yn cyfarfod yn y cnawd eleni, oherwydd cyfyngiadau Coronavirus, ond drwy gyfrwng Zoom, etc.

Bwriadwyd cynnal Cynhadledd Daleithiol mis Gorffennaf, 2020, ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant/Abertawe, ond gohirio fu raid, fel popeth arall.

Cynhaliwyd gwefinarau, fisoedd Gorffennaf ac Awst, 2020, dan nawdd Sefydliad St Padarn, a bu nifer o Ddarllenwyr yn cyfranogi.

Mae llai o nifer Darllenwyr, bellach, gan fod rhai ohonynt yn gweinidogaethu fel arall a rhai yn symud i esgobaethau eraill, ynghyd â marwolaethau. Fodd bynnag, cynhaliwyd, yn rhithiol, y Dydd Darllenwyr Blynyddol, fis Hydref, 2020, a gwelwyd trwyddedu un Darllenydd yno, ac un ychwanegol yn ymuno â ni o esgobaeth arall. Nodir fod rhai Darllenwyr yn Weinidogion Ffocal. Mae dau ychwanegol yn derbyn hyfforddiant ar hyn o bryd – y naill i dderbyn trwydded yn 2022 a'r llall yn 2023.

Daeth Darllenwyr i'r bwlch a hithau'n flwyddyn anodd, gan gynnal gwasanaethau arlinell, a chan fugeilio'u plwyfolion ar Zoom ac ar y ffôn, etc.

Mae darllenwyr yn ymuno â chlerigiaid ar ddyddiau GDP. Maent yn diolch i'r clerigiaid oll sy'n gefnogol i'r cysyniad o Weinidogaeth Darllenwyr.

# Datblygiad Gweinidogaethol Dechreuol(DGD), a Datblygiad Gweinidogaethol Parhaus(DGP)

## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Parch Marcus Zipperlen, Swyddog Datblygiad Gweinidogaethol **AGENDUM 7**

---

DGD
Hyfforddiant yn benodedig ar gyfer gweinidogion sydd newydd eu trwyddedu(GNT) yw GDG – a hynny'n cynnwys curadiaid a Darllenwyr – ym mlynyddoedd cynnar eu gweinidogaeth. Mae'n parhau, fel rheol, rhwng dwy a phedair blynedd, yn ddibynnol ar anghenion y gweinidog. Yn 2020-2021 roedd wyth ar hugain GNT(25 curad a 3 darllenydd) yn y rhaglen.

Gwaith y swyddog DGD yw darparu cefnogaeth fugeiliol ar gyfer y GNT, hefyd gyfleoedd hyfforddi ychwanegol, yn ôl y galw. Bydd yn ceisio adeiladu perthynas hwylus gydag ebrwyaid hyfforddi, drwy sefydlu 'Cytundebau Dysgu' a chadw cysylltiad cyson, er mwyn sicrhau fod GNT mewn 'Cell Cefnogi Ffurfiannol' a bod ganddynt Ymgynghorydd Ysbrydol; bydd hefyd yn cadw llygad arnynt yn flynyddol ac yn hysbysu'r Esgob am eu hynt.

Eleni newidiwyd trefniant y 'Cell Cefnogi Ffurfiannol', gan ddarparu celloedd cefnogi ar wahân, ar gyfer rhai sydd heb eu trwyddedu eto, a'r rhai sydd wedi eu trwyddedu eisoes (yn lle grŵp yn cynnwys y ddau); adolygwyd yr aelodaeth er mwyn lleoli GNT o'r un ardal Weinidogaethol mewn grwpiau gwahanol - o 2021 ymlaen.

Bu ymweld yn anodd oherwydd Covid, felly cyfathrebu drwy gyfrwng Zoom fu'r drefn, at ei gilydd. Ni fedrwyd hyfforddi wyneb yn wyneb, ac o ganlyniad, bu'n rhaid cynnal dau ddigwyddiad ychwanegol ar Zoom: gweithdy 'Cyflwyniad i sgiliau cwnsela sylfaenol' a sesiwn 'Croeso i'r Esgobaeth'.

DGP
Ceir cyfleoedd hyfforddi, drwy DGP, ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus gweinidogaion trwyddedig. Maent yn orfodol, o ran clerigiaid cyflogedig llawn-amser, ond gall yr hunan-gyflogedig ddewis mynychu neu beidio. Bu'r hyfforddiant yn gyfangwbl ar Zoom eleni, fel a ganlyn:

- 2$^{il}$ Gorffennaf 2020 - 'Newid Hinsawdd: Y Newydd Da', gan drafod oblygiadau ymateb yr eglwys, yn ddiwinyddol ac ymarferol, i'r argyfwng hinsawdd.
- 6$^{ed}$ Tachwedd 2020 – sesiwn hyfforddi ddewisol 'Cyflwyniad i Zoom'.
- 11$^{eg}$ Tachwedd – 'Nadolig dan Covid', gan drafod a rhannu syniadau ynglŷn â dathlu'r Nadolig dan gyfyngiadau cyfnod clo.
- 11$^{eg}$ Chwefror 2021 – 'Arweiniad Ysbrydol mewn Eglwys Genhadol', yn ystyried sut i annog ac arwain cymunedau eglwysig i ymgymryd â chenhadu, ac i ddygymod â newid, a chan ddarparu gofal bugeiliol ar yr un pryd.

Trefnwyd sesiynau GDP ychwanegol yn Daleithiol (drwy St Padarn) gan ganolbwyntio ar newidiadau cyfreithiol diweddar ym maes cofrestru priodasau.

Derbyniwyd dau gais am gyfnod sabothol gan glerigiaid, ac fe'u cymeradwywyd gan yr Esgob, ar ôl derbyn geirda am yr ymgeiswyr.

# Coleg Cyfarwyddwyr Ysbrydol Esgobaeth Tyddewi
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 21-Hydref 21
Awdur: Parch Andrew P Johnson (Cadeirydd) **AGENDUM 7**

---

AELODAETH Y BWRDD
Mae yna 25 Cyfarwyddwr cydnabyddedig yn yr Esgobaeth ac ychydig o nifer o'r tu allan.

AMCANION
Nod Coleg y Cyfarwyddwyr Ysbrydol yw ceisio sicrhau cydweddiad rhwng Cyfarwyddwyr a chleientiaid, er mwyn perthynas ysbrydol hwylus.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
Rhoddwyd cyfarwyddyd lle roedd hynny'n bosib, yn rhannol arlinell.

HERIAU ELENI
Methwyd, oherwydd cyfyngiadau, â chynnal nifer o'r cyfarfodydd; y gobaith, gyda llacio, fydd gweld adfer y cyfarfodydd.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Er fod pobl yn barod i deithio i weld Cyfarwyddwr, mae diffyg Cyfarwyddwyr cymwys yn rhannau gogleddol yr Esgobaeth, felly mae angen rhai i lanw'r bwlch hwnnw.

# Y Gyd-gymdeithas Alwedigaethau (CA)
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Parch Ganon John S Bennett, Cydlynydd **AGENDUM 7**

---

AELODAETH Y GYD-GYMDEITHAS
Cydlynydd y Gyd-gymdeithas yw'r Parch Ganon John Bennett (a etifeddodd fantell Parch Robb Wainwright fis Medi 2020) ac fe'i cefnogir gan bum caplan: Parch Beth Davies, Mrs Sally Farah, Parch Elizabeth Lort-Phillips, Mrs Sally Price a'r Parch Sophie Whitmarsh. Mae'r gyd-gymdeithas yn agored i bawb yn yr Esgobaeth, sy'n pwyso a mesur galwad Duw yn eu bywydau. Ar hyn o bryd, mae yna 68 o bobl (gan cynnwys caplaniaid) sy'n rhan o'r gyd-gymdeithas.

AMCANION
Sefydlwyd y CA i fod yn gyfrwng cefnogaeth i bobl sy'n ystyried galwad Duw yn eu bywydau, p'un ai o ran rhyw fath o waith 'eglwysig' (megis Darllenydd, gwaith ieuenctid, ordinasiwn etc.) neu waith yn y gymuned ehangach (megis ysgolion etc.). Cefnogir y CA gan gaplaniaid sy'n cynorthwyo grŵp CA lleol er mwyn i bobl y cylch gyd-gyfarfod bob 2 neu 3 mis, i rannu hanes eu pererindod ac annog a chefnogi ei gilydd. Mae'r CA ar wahân (yn fwriadol felly) i waith yr ymgynghorwyr galwedigaeth, fel na bo ymdeimlad o 'asesu' yn y CA.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
Ein prif waith ers y trawsnewid fis Medi (2020) fu ail-gysylltu ag aelodau'r CA, croesawu aelodau newydd a sicrhau fod aelodau'n rhan o grŵp CA lleol. Gofynnwyd i aelodau ynglŷn â'u 'pererindod alwedigaeth', ac – A fynnant aros gyda'r CA, hefyd pa gefnogaeth bellach fyddai'n dderbyniol? Ni chawsom ymateb gan bawb ar restr yr aelodau, ond mae yna nifer sylweddol (tua 38) o enwau parod gennym, er gwaethaf hynny. Croesawyd Caplan newydd i'r tîm (Mrs Sally Price), felly gellir cadw golwg yn gyson ar grwpiau lleol, ledled yr esgobaeth.

HERIAU ELENI
Yr her fwyaf fu – grwpiau lleol yn methu cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd Covid-19. Diolch i'r caplaniaid am gadw cysylltiad drwy Zoom, ffôn ac ebost.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Ein gobaith yw medru cynnal cymhadledd flynyddol y CA ddiwedd Tachwedd eleni, ond bydd hyn yn dibynnu ar lefelau Covid-19 a sicrhau lleoliad addas. Hyderwn fedru croesawu aelodau newydd, yn ogystal, i'r gyd-gymdeithas.

# Galwedigaethau
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 21- Hydref 21
Awdur:  Parch Mark Ansell, Cydlynydd Galwedigaethau **AGENDUM 7**

---

Er gwaetha'r pandemig, bu'n gyfnod prysur o ran Galwedigaethau yn yr esgobaeth, â nifer o bobl yn ceisio cyngor ffurfiol ynglŷn â Galwedigaeth, yn ystod y flwyddyn.

Testun calondid fu canfod cynifer o enghreifftiau o Dduw yn galw unigolion i'w wasanaethu mewn amryw ffyrdd yn ein Hesgobaeth, er i'r cynnydd mewn gweinidogaethau trwyddedig ddwyn ambell her yn ei sgîl, o ran dethol, hyfforddi ac integreiddio sawl rôl newydd.

Mae ein tîm Esgobaethol o Ymgynghorwyr Galwedigaethau yn gweithredu ymhob ardal, ac ar hyn o bryd, mae yna naw ohonynt o gefndiroedd gwahanol, ond wedi eu hyfforddi'n gymwys. Gwerthfawrogwn eu cyfraniad, a hwythau eisoes yn cyflawni gwaith trwm arall.

Nodir fod y tîm galwedigaethau'n cydweithio'n agos â'r Gyd-gymdeithas Alwedigaethau, er sicrhau y gefnogaeth fugeiliol addas ar gyfer ymgeiswyr, wrth iddynt gyrchu'r nod.

# Gweinidogaeth Ffocal

## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 21-Hydref 21

Awdur: Hyb Denis Wight (Swyddog Gweinidogaeth Ffocal) **AGEMDUN 7**

O ystyried delwedd draddodiadol y weinidogaeth, sef yr offeiriad unigol mewn plwyf, mae'n ymddangos mai'r ficer fyddai'n gwneud popeth a'r gynulleidfa yn eu lle'n dawel. Nid person rhan-amser, di-dâl ac "ail-orau" mo'r Gweinidog Ffocal. Swyddogaeth y cyfryw unigolyn yw hybu ac arwain gweinidogaeth y bobl yn yr eglwys leol, a'u sbarduno ar gyfer gweinidogaeth a chenhadaeth fugeiliol, a hynny wrth galon y gymuned eglwysig. Nid rhywrai'n cyflawni ambell orchwyl ddi-gyswllt mohonynt, ond rhan allweddol o'r tîm mewn Ardal Weinidogaeth leol.

Pasg 2020 – Pasg 2021

Adolygwyd y ddogfen 'Procedures for Focal Ministers/Ministry' yn ystod Hydref 2020, a mae hi ar gael bellach. Derbyniodd deoniaid AddGLl wybodaeth ynghylch proses a ffurf, gan gynnwys cyflwyniadau gan y Cyfarwyddydd Gweinidogaeth. Mae gennym Gydlynydd erbyn hyn, ar gyfer adolygu, datblygu a mentora. Hefyd mae yna grŵp cefnogi, i helpu Gweinidogion Ffocal i ymgysylltu.

Gan edrych tua'r dyfodol: Bwriedir trafod gyda Deoniaid AddGLl a chadeiryddion Lleyg, wedi i'r naill a'r llall dderbyn gwybodaeth bellach a'r llyfryn: "Leading One Church at a Time" – o weinidogion aml-eglwys i arwain, dysgu, hybu ac ysbrydoli – a hynny heb ymládd!

# Cyfarwyddiaeth Genhadu Esgobaeth Tyddewi
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Ionawr i Rhagfyr 2020
Awdur: Hybarch Eileen Davies **AGENDUM 7**

---

**AELODAETH Y GYFARWYDDIAETH**
Mae'r Gyfarwyddiaeth Genhadu yn cydlynu gwaith sawl tîm: Cyfathrebu, Plant & Ieuenctid, Cenhadaeth Fyd-eang, Eciwmeniaeth a Rhyng-ffydd dan gadeiryddiaeth Archddiacon Ceredigion. Bellach hefyd, cynhwysir mewnbwn gan Plant Dewi, ac, yn anffurfiol, gan y Grŵp Efengylu Esgobaethol sy'n gweithio ar wahân.

**AMCANION**
Mae'r Esgobaeth yn cynnal amrywiaeth o weinidogaethau all-weithredol. Er sicrhau cyd-ddealltwriaeth a chyd-anogaeth o waith y gweinidogaethau hyn, mae'r Gyfarwyddiaeth Genhadu wedi cyfarfod ddwywaith yn ystod y flwyddyn, i gyfnewid syniadau.

**YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI**
Cydlynu dulliau gweithredu da, rhannu syniadau a manteisio ar gryfderau pob tîm yn y Gyfarwyddiaeth – dyna fu pennaf nodweddion ein cenhadaeth.
Da gwybod fod **y Tîm Cyfathrebu**, drwy newyddion a materion cyfoes Pobl Dewi, yn cyrraedd pob rhan o'r Esgobaeth; ond rhaid nodi mai cyhoeddi arlinell yn unig a wnaethpwyd o ran tri rhifyn, a dim ond un ar bapur – hynny oherwydd amodau blwyddyn anodd. Trafodwyd dyfodol fersiwn brint Pobl Dewi, a bydd trafod pellach yn ein cyfarfod nesaf.
Bu'r Cyfryngau Cymdeithasol yn allweddol, o ran cyfathrebu Esgobaethol, defosiwn ac addoliad yn ystod y flwyddyn; mae'r Calendr Ymbiliau, o waith y golygydd newydd, Parch Lorna Bradley, ar gael drwy gyfrwng Gwefan yr Esgobaeth, tra bo'r Wefan yn datblygu'n raddol.
Mae **Cenhadaeth Fyd-eang,** wrth ymwneud â phrosiect Bukavu, wedi nodi pa mor araf fu'r cynllun brechu yno (Astra Zeneca), er gofid i bawb; clywyd hefyd fod y Llyfrgell, a wnaeth elwa o gefnogaeth ymarferol Esgobaeth Tyddewi, yn gyfrwng defnyddiol o ran Addysg Gristionogol; noddwyd merch ifanc, yn ogystal, wrth iddi ymgymryd â chwrs nyrsio mewn coleg. Gohiriwyd cynhadledd Lambeth unwaith eto, o raid, ond, disgwylir medru croesawu'r Esgobion yn 2022.
Bu'r Tîm **Eciwmeniaeth** yn ffurfio dolenni cyswllt ag amrywiol draddodiadau'r ffydd Gristionogol, er mwyn cyd-rannu adnoddau addoli. Heriwyd pob AWL i ymgymryd ag o leiaf un fenter eciwmenaidd yn ystod y flwyddyn, gan fanteisio ar y dechnoleg gyfoes.
Bu'r Tîm **Rhyng-ffydd** yn hynod brysur yn ystod y flwyddyn, gan estyn allan at y crefyddau eraill, yn enwedig y gymuned Foslemaidd, hyn yn dangos pa mor allweddol yw cyfnewid dealltwriaeth o'n hamrywiol werthoedd crefyddol. Mae Plant Dewi a Tir Dewi yn ymroi i rannu cariad Crist ymhlith teuluoedd ifainc a'r gymdogaeth wledig ledled yr Esgobaeth – gweler CEGC am adroddiadau cyflawn o'r uchod.

Mae gan **Y Tîm Cymunedau Cristionogol Newydd ac Efengylu** dair canolfan Impact 242, â 2 aelod staff i bob un ohonynt; mae arweinyddion y Timau yn cadw golwg ar y datblygiadau, yn wyneb COVID, gan ystyried strategaeth at y dyfodol a phenodiad efengylwyr-arloesi pellach. Symudodd y Gaplaniaeth o Lambed i Gaerfyrddin. Y gobaith yw cynnal 'Deued dy Deyrnas' fis Mai.

**HERIAU ELENI**

Mae'r Tîm Plant ac Ieuenctid yn cynnal asesiad llawn o'r gwaith o fewn yr Esgobaeth. Deil y Tîm Eciwmeniaeth i geisio cyfleoedd i hybu eglwysi i greu dolenni cyswllt â'r enwadau yn eu bröydd; mae hyn yn dwyn ffrwyth mewn rhai mannau, er fod lle i wella. Mae Tir Dewi'n bwriadu ymestyn i ambell Esgobaeth arall yng Nghymru, a bwrw fod y sefyllfa ariannol yn caniatáu.

Sut fydd ymgymryd â chenhadaeth wedi COVID; pa wersi a ddysgwyd o brofiadau y llynedd?

**EDRYCH TUA'R DYFODOL**

Gyda golwg ar y Grŵp Cymunedau Cristionogol Newydd ac Efengylu, y gobaith yw y bydd modd plannu eglwysi a thimau newydd ledled yr Esgobaeth.

Mae canolbwyntio ar weithio gyda phlant a phobl ifainc yn sicr yn allweddol bwysig, a bydd yr Esgobaeth yn ymdrechu i'r eithaf, yn y flwyddyn sydd o'n blaenau, i gyflwyno datblygiadau newydd a hybu yr hyn sy'n bodoli eisoes.

# Y Tîm Cyfathrebiadau
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: David Hammond-Williams, Cadeirydd **AGENDUM 7**

---

AELODAETH Y TÎM

Mae'r Tîm Cyfathrebiadau yn cynnwys amrywiaeth o aelodau clerigol a lleyg, pob un â dawn benodedig at y gwaith. Gwelwyd sawl aelod newydd yn ymuno yn ystod y cyfnod, gan roi hwb ychwanegol i'r gweithgareddau.

AMCANION

Sicrhau gwell cyfathrebu, yn fewnol ac allanol, yw nod parhaus y Tîm hwn, gan fod ar flaen y gâd, o ran cyflawni disgwyliadau'r esgobaeth.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod yn ystod y cyfnod; arlinell, drwy gyfrwng Zoom, a hynny o raid oblegid cyfyngiadau Coronafirws, y trefnwyd y rheiny, gan arbed cryn gostau o ganlyniad.

- Ymddangosodd *Pobl Dewi* a'r *Calendr Ymbiliau* yn ôl yr arfer, er mai arlinell (ar wahân i un rhifyn) y digwyddodd hynny, gan nad oedd digon o eglwysi'n agored i dderbyn y nifer copïau print a fyddai'n cyfiawnhau costau cynhyrchu a dosbarthu.
- Aeth gwaith y Tîm mewn perthynas â'r wefan esgobaethol a'r sianelau cyfryngau cymdeithasol, yn ei flaen. Crëwyd dwy dudalen Weplyfr newydd, y naill ar gyfer y Flwyddyn Weddi Esgobaethol, a'r llall ar gyfer Adnoddau Gweinidogaeth.
- Chwaraeodd y Tîm ei ran yn y dasg o ddarparu adnoddau testun arlinell a fideo, yn cynnwys addoliad a litwrgi.

HERIAU ELENI

Y pandemig a ddaeth i'r brig yn ystod y cyfnod, gan gyfyngu'n enbyd ar weithgareddau'r Tîm. Bu cadw cysylltiad â phob rhan o'r esgobaeth yn gryn her, ac nid bychan o dasg, pan fu cyfle, oedd cefnogi a hybu eglwysi i ymaddasu i fywyd arlinell, yn enwedig o ran addoliad.

EDRYCH YN WEDDÏGAR TUA'R DYFODOL

Dylai datblygiad rhaglen frechu effeithiol ffrwyno'r Coronafirws, er mwyn i ni fedru cefnu ar y cyfyngiadau, maes o law, ac ail-gydio, i ryw raddau, yn nhrefn arferol bywyd. Bydd y Tîm yn cadw golwg ar sefyllfa *Pobl Dewi* a'r *Calendr Ymbiliau*, ac fe geir copïau print unwaith eto pan fydd yr amodau (yn ariannol ac fel arall) yn caniatáu.

# Eciwmeniaeth

## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021

Awdur: Parch Ganon Huw Mosford, Swyddog Eciwmeniaeth **AGENDUM 7**

---

Gwaetha'r modd, neilltuwyd llawer o'r gwaith eciwmenaidd oherwydd y pandemig covid 19 a'r cyfyngiadau gorfodol.

Heriodd y Pwyllgor Eciwmeniaeth Esgobaethol bob AWL i ymgymryd ag o leiaf un fenter eciwmenaidd yn ystod 2021.

Er gwaetha'r cyfyngiadau covid yn ystod yr Wythnos Weddi dros Undod Cristionogol, gwelwyd amryw eglwysi yn cymryd rhan mewn gwasanaethau rhithiol via Zoom.

Testun syndod fu'r nifer Eglwysi a fu'n rhan o'r Dydd Gweddi Byd-eang, eto via Zoom. Dyma ddigwyddiad poblogaidd yn y calendr a gwelwyd cynnydd graddol yn yr addoli, gyda threigl y blynyddoedd.

Yn 2020, yn wyneb yr her Eciwmenaidd, cafwyd fod 68+ Eglwys wedi ymateb, gan fwriadu cynnal sawl digwyddiad eciwmenaidd, megis boreau coffi, astudiaethau Beiblaidd, arwerthiannu pen-bwrdd, yn ogystal â theithiau cerdded; bydd y cyfryw rai yn dystiolaeth werthfawr, a hyderaf weld eu gwireddu yn 2021.

Deil y pwyllgor i gefnogi ac annog mentrau eciwmenaidd, Zoom neu beidio!

# Tir Dewi
# ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021

Awdur: Gareth Davies

**AGENDUM 7**

## Y CYCHWYN

Gwelwyd dechrau'r daith yn 2015, pan luniwyd taflen gan Eileen (Davies) yn nodi rhif ei ffôn symudol er budd ffermwyr, gan elwa ar gymorth ariannol o gymynrodd Olszewski i'r esgobaeth, ac wele eni Tir Dewi. Buan y daeth yn drefniant â 2 aelod staff rhan-amser, 20 a mwy o wirfoddolwyr, Bwrdd Ymddiriedolwyr cryf, a phroffil amlwg ledled tair sir Gorllewin Cymru. Yn fwy na dim, llwyddwyd i helpu dros 200 o amaethwyr a'u teuluoedd, gan estyn llaw er dygymod ag amryw broblemau - rhai o'r cyfryw yn ddwys a thyngedfennol.

## Y GWEITHREDU

Gyda 2020 ar y trothwy, derbyniwyd y newyddion gwych fod ein cynlluniau i gyflwyno ac ymestyn ein gwasanaeth i ardaloedd eraill yng Nghymru, yn gymeradwy. Wedi i ni sicrhau penodiad aelodau ychwanegol i'n tîm, fe ddeuai'r cyllid i'n coffrau, a dyna ni. 'Bant â'r cart' fyddai hi wedyn!

Doedd yna neb wedi clywed am Coronafirws, na Covid 19!

Penderfynwyd bwrw ymlaen, beth bynnag, gan addasu cynlluniau'r lawnsio a'r cychwyn, a chyflwyno Tir Dewi i Bowys, fis Gorffennaf 2020. Dilynwyd hyn, fis Awst, gyda'n bod wedi mentro i Wynedd, Conwy ac Ynys Môn, ac i goroni'r cyfan, sefydlwyd cangen ar Benrhyn Gŵyr yn fuan wedyn.

## Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

Mae ein tîm, bellach, yn cynnwys 2 aelod staff llawn-amser, 3 yn rhan-amser, a 65+ o wirfoddolwyr. Mae galw am ein gwasanaeth ar gynnydd, a daw 2 neu 3 chais am gymorth yn wythnosol; nifer fechan, i bob golwg, ond mae'r effaith ar fywydau amaethwyr yn syfrdanol. Ar hyn o bryd, gwelir 53 achos ar waith gennym, ac amryw o'r rheiny wedi bod ar y gweill ers misoedd.

Gwerthfawrogir cefnogaeth gyson yr Eglwys yng Nghymru, gan gynnwys ein Llywydd, Esgob Joanna, negeseuon rheolaidd gan Esgob John, a gair calonogol adeg y lawnsio oddiwrth Esgob Andy; mae eraill hefyd yn ein cefnogi, megis Archddiacon Eileen, Parch Ganon Jeni Parsons, Parch Wyn Maskell, Sharon Edge yn Nhyddewi, Parch Justin Davies ar y Gŵyr a'r Parch Llew Moules Jones yn y gogledd. Derbyniol iawn, yn ogystal, yw gweddïau'r eglwys ehangach a rhoddion ariannol mynych gan gynulleidfaoedd.

## BETH NESAF?

Fe'm hatgoffir yn aml am y sgwrs rhwng Eileen ac Esgob Wyn tuag adeg cychwyn ein menter, sef fod 'Tir Dewi'n cynrychioli'r CWBL o Dir Dewi', a mae hynny'n taro deuddeg o ran ein cynlluniau. Y bwriad, yn ystod y misoedd sy'n dod, yw ail-gychwyn y broses dyfu, llunio cynllun, chwilio cyllid, adeiladu'r tîm, a lledu gorwelion ein gwasanaeth nes cwmpasu gweddill Cymru, gan gynnwys y Gogledd-Ddwyrain a'r De-Ddwyrain.

Yn ddi-os, mae'r galw yna; derbyniwyd ceisiadau am gymorth eisoes, a chredwn fod ymateb, a mynd acw ar fyrder, yn rhan o'n cenhadaeth. Parhewch i weddïo dros y tîm, dros ein gwirfoddolwyr parod, a thros amaethwyr Cymru.

# Cenhadu Byd-eang
# ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021

Awdur: Parch Ganon Dewi Roberts **AGENDUM 7**

---

Ni chynhaliwyd cyfarfodydd ffurfiol o'r 'Pwyllgor Cenhadu Byd-eang' eleni, hynny oherwydd cyfyngiadau'r pandemig. Er hyn, ni fuom yn segur a heb gynllunio a rhoi meddwl ar waith, o ran y dyfodol.

Gohiriwyd Cynhadledd Lambeth tan Haf 2022. Rydym yn edrych ymlaen i wahodd o leiaf ddau esgob i'n hesgobaeth ar derfyn y gynhadledd honno, y naill ohonynt o India'r Gorllewin, a'r llall Esgob Bukavu o'r Congo. Y bwriad yw atgyfnerthu'r ddolen gyswllt sydd eisoes yn bodoli rhyngom ac esgobaeth Bukavu, a ffurfioli'r berthynas ymhellach.

O'r braidd y gellir dweud fod bywyd eglwysig yn ddidramgwydd yn esgobaeth Bukavu. Bu rhai troeon anffodus yn hanes y wlad yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, gan gynnwys difrod sylweddol i'r Gadeirlan, o ganlyniad i ddaeargryn.

Â ninnau'n 'Bwyllgor Cenhadu Byd-eang', ein gobaith yw cychwyn ymgyrchoedd i dalu am ardal o fewn i'r Gadeirlan, pan fydd ar ei newydd wedd, lle bydd yna ofod ar gyfer llyfrgell a chanolfan addysg a adeiledir i wrthsefyll daeargrynfáu.

Eisoes, cyrhaeddodd y cyflenwad llyfrau diwinyddol a anfonwyd gennym ar gyfer llyfrgell y Gadeirlan, ynghyd ag angenrheidiau meddygol a phersonol, peiriannau gwnïo mecanyddol etc. Ond, oherwydd y ddaeargryn, bu'n rhaid gohirio amryw gynlluniau i greu canolfan hyfforddiant ddiwinyddol yn y Gadeirlan, ar gyfer clerigiaid. Mae'r Parch Ddr Jennifer Annis yn dal cysylltiad yn rheolaidd ag esgobaeth Bukavu, a hi ei hun a fydd yn gofalu am y Gwir Barchedig Sylvestre Bahati, Esgob Bukavu pan ddaw ef i'r D.U. ar gyfer Cynhadledd Lambeth.

Ein gobaith a'n gweddi yw y bydd 2022 A.D. yn flwyddyn ffrwythlon o ran tyfiant Teyrnas Dduw, ac y bydd bendith ac arweiniad ein Tad Nefol yn ysbrydoliaeth gynyddol i ni, wrth i ni fyw a thystio yn enw Crist, ein Harglwydd a'n Brenin.

# Cyngor Esgobaeth Tyddewi dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Parch Delyth Wilson, Cadeirydd **AGENDUM 7**

AELODAETH y CGCE
Elusen gofrestredig dan lywyddiaeth Esgob Tyddewi, y Gwir Barch Joanna Penberthy, yw Cyngor dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol Esgobaeth Tyddewi (CEGC); Parch Delyth Wilson yw'r Cadeirydd, ynghyd â 14 o aelodau ychwanegol â 4 ohonynt hwy yn ymddiriedolwyr, yn ogystal. Arferir cynnal 6 chyfarfod y flwyddyn er mwyn trefnu a gwyntyllu'r gwaith. Yn gyfuniad o leygwyr a chlerigiaid, mae'r corff ymddiriedolwyr yn frwd ei ddiddordeb dros les a llwyddiant cymdeithasol pobl Esgobaeth Tyddewi.

AMCANION y CEGC
Prif amcan y CEGC yw hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol fel elfen hanfodol ffydd fyw, a rhan allweddol o genhadaeth Eglwysig. I'r perwyl hwn, ymhlith ymdrechion eraill, cefnogir gwaith dwy ymddiriedolaeth Esgobaethol pellach - Plant Dewi a Tir Dewi – sy'n gweithio'n ddyfal gyda theuluoedd difreintiedig a chymunedau ffermio yng nghefn gwlad. Drwy gydweithio'n ogystal, â chymdeithasau/threfniannau eraill, yn lleol a chenedlaethol, mae'r CEGC yn awyddus i nodi sefyllfaoedd neu bobl sydd angen cymorth/ymgeledd, ac i ymateb yn gadarnhaol yn ôl y galw.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
Er gwaetha'r anawsterau amlwg a ddaeth yn sgîl pandemig Covid-19, medrodd y CEGC ymaddasu a pharhau i gyfarfod yn gyson via Zoom. Denwyd rhai aelodau newydd ac un ymddiriedolwr ychwanegol, sef Archddiacon Mones Farah, a bu'r penodiad Bwrdd hwn yn gadarnhâd o'r cyswllt newydd â'r Bedwaredd Archddiaconiaeth.
Cefnogi Plant Dewi fu pennaf nodwedd ein gwaith eleni, a hynny ar y cyd ag Impact 242 wrth iddynt ymateb i'r crebachu a achoswyd gan y cyfnod clo. Rhaid eu cymeradwyo hwythau am hyn, gan iddynt weithredu ar fyrder ac addasu eu gwasanaeth yn ôl y galw cynyddol. Bu'r ymddiriedolwyr yn hael eu cefnogaeth i reolwr Plant Dewi, Mrs. Catrin Eldred a theulu cyfan Plant Dewi, wrth i straen a gofynion y cyfnod bwyso'n drwm arnynt, a hwythau'n ceisio dygymod â ffordd newydd o weithredu. Gweithiodd yr ymddiriedolwyr ar raglen y Weston Pilotlight, ochr yn ochr â Catrin Eldred, a bu hynny'n fodd i rymuso llywodraethiant y CEGC. Profwyd hefyd fod gofyn i ymddiriedolwyr fod ar eu gorau'n gyson; mae trefniadau ar waith i'r perwyl hwn.
Mae'r Cyngor yn parhau i gadw golwg ar waith ehangol Tir Dewi, a hithau wedi bod yn flwyddyn heriol unwaith eto, o ran y gymuned amaethyddol. Croesawyd y Parch Wyn Maskell yn aelod o'r Cyngor, ag yntau wedi ei benodi'n Ymgynghorydd Cefn-gwlad.

HERIAU ELENI
Yr her fwyaf fu dygymod ag effeithiau Covid ar ein cymunedau. Bu gofyn addasu, yn ôl y galw, i anghenion a rheoliadau oedd yn newid yn gyson, a sicrhau ar yr un pryd, ddiogelwch pawb. Bu'n rhaid ail-werthuso a newid y ffordd y bu'r CEGC, a Plant Dewi'n arbennig, yn cysylltu â phobl, a hynny'n fewnol ac allanol. Roedd hi'n gynyddol anodd sicrhau cyllid, a rhoddai hynny straen ychwanegol ar y tîm.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Bydd arweiniad yr Ysbryd Glân yn allweddol wrth i ni geisio hybu Teyrnas Dduw mewn byd o newid. Bwriadwn barhau yn effro i anghenion cymdeithas, gan weithredu o ran dangos cariad Duw, mewn modd ymarferol, i'r sawl sy'n dioddef. Ein gobaith yw gweld y Swyddog dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol newydd yn cyflwyno rhyw weledigaeth wahanol, o ran gwaith gwerthfawr y CEGC.

# Adroddiad Ymgynghorydd Bywyd Cefn-gwlad Esgobaeth Tyddewi
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Parch Wyn Maskell **AGENDUM 7**

---

AELODAETH Y BWRDD
Mae Grŵp Ymgynghorol Taleithiol dros Faterion Cefn-gwlad yn cyfarfod bob deufis, ac ar hyn o bryd dan gadeiryddiaeth Esgob Joanna Penberthy, yn absenoldeb Parch Michelle Bailey. Dyma aelodau'r grŵp: Parch Victoria Ashley, Parch Hermione Morris, Parch Carol Wardman, Parch Tim Clement, Parch Wyn Maskell

AMCANION
Pennaf amcan y Grŵp yw ymwneud â phob agwedd o'r sefyllfa wledig, gan sicrhau fod materion pwysig yn dod i sylw'r Esgobion a'r Clerigiaid. Mae'r Ymgynghorwyr Bywyd Cefn-gwlad (YBCG) yn ymgysylltu â chymdeithasau/mudiadau eraill sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig; mae hyn yn galw am rwydweithio a chynnig cefnogaeth, gan ysgogi a hyfforddi Clerigiaid a Lleygwyr sy'n gwasanaethu yn y cylchoedd hynny. Mae'r YBCG yn cyflwyno gwybodaeth yn rheolaidd i'r Esgob ac i'r Cyngor Esgobaethol dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol (CEGC).

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
Cyfarfu'r grŵp ddwywaith eleni, a bwriedir ail-gychwyn cyfarfod bob deufis dan gadeirydd penodedig.
Gwelwyd cyflenwyr bwyd lleol yn dod i'r adwy, gan ddarparu a dosbarthu bwydydd lleol i bobl yn eu cymunedau; gwerthfawrogwyd hyn yn ddybryd. Bu amrywiol glybiau a sefydliadau (megis Mudiad y Ffermwyr Ifainc) hefyd yn hael eu cefnogaeth ledled siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro. Ymateb i'r alwad am gefnogaeth a gwasanaethau i drigolion ein bröydd (rhai ohonynt yn hunan-ynysu) – dyma fu'n digwydd, a mawr fu'r gwerthfawrogiad a'r canmol.

HERIAU ELENI
Cadwyd golwg ar ddatblygiadau o fewn i'r diwydiant amaeth, a bu rhai o'r polisïau a gyflwynwyd yn destun gofid – yn bennaf y Parthau Bregus o ran Nitradau, ac effeithiau'r Cytundeb Masnach. Anfonodd yr YBCG Taleithiol a'r Esgobion, ddau lythyr at Lywodraeth Cymru yn tanlinellu effeithiau negyddol gweithredu'r cyfryw bolisïau, ar ein cymunedau gwledig.
Covid-19: Collwyd y cyfle i'r YBCG ddod i gyswllt uniongyrchol â chymunedau cefn-gwlad, am fod digwyddiadau amaethyddol a lleol wedi gorfod cau eu drysau i'r cyhoedd; ymhlith y rhain oedd Sioe Penfro, Sioe Tregaron, hefyd Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion 2020. Gwelwyd effaith andwyol, yn ogystal, ar iechyd meddwl pobl, o ran gorfod cadw pellter, a'r unigrwydd anochel sy'n taro ambell berson yn sgîl hynny. Bu Tir Dewi'n brysur yn ymateb i ymholiadau cyson am gymorth a chefnogaeth gan bobl cysylltiedig â byd amaeth, a mae dal ati i gydweithio â hwy yn allweddol bwysig.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Byddwn yn gwahodd cynrychiolwyr sefydliadau allanol (RABI, NFU Cymru ac UAC) i ddod atom i drafod materion bywyd cefn-gwlad. Hyderwn weld ysbryd cydweithio yn deillio o hyn, ac y bydd i'r Eglwys fedru ymateb ymhellach i anghenion ein cymunedau gwledig yn yr Esgobaeth.
Bwriad ein gwaith yn y cymunedau gwledig yw adfer hyder pobl, i ail-gydio mewn bywyd beunyddiol a chyda cymdeithas cefn-gwlad yn gyffredinol, wedi'r pandemig.
Rydym yn ceisio meddwl am ffyrdd newydd o ddathlu tymor y cynhaeaf yn ein heglwysi, ac yn ystyried dysgu pobl ynglŷn â phlannu a thyfu eu bwyd eu hunain.
Mae trefniadau ar waith i hyfforddi a chefnogi clerigiaid sy'n gwasanaethu yn ardaloedd gwledig yr Esgobaeth.

# Plant Dewi
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Catrin Eldred, Rheolwr Plant Dewi **AGENDUM 7**

---

AELODAETH Y BWRDD
Elusen gofrestredig yw Cyngor Esgobaeth Tyddewi dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol, a Plant Dewi'n brif brosiect cynhaliaeth deuluol iddi. Ei llywydd yw Esgob Tyddewi, y Gwir Barch Ddr Joanna Penberthy; ei chadeirydd yw'r Parch Delyth Wilson, ynghyd â 14 o Aelodau Cyngor (y Cadeirydd a 4 aelod yn Ymddiriedolwyr). Mae'r Cyngor yn cyfarfod 6 gwaith y flwyddyn, yn lleygwyr a chlerigwyr, gan arddangos diddordeb yn lles a ffyniant cymdeithasol pobl yr Esgobaeth.

AMCANION
Meithrin teuluoedd a chryfhau cymunedau, drwy sicrhau modd i deuluoedd drawsnewid eu bywydau, gan ennyn gobaith ac ymdeimlad o berthyn, ledled Esgobaeth Tyddewi.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
Cyflawnwyd 24 o brosiectau gan 46 aelod staff, yn cynnwys 9 Canolfan Deuluol, 4 Grŵp Teuluoedd Ynghyd, 4 grŵp Rhieni Ifainc, 3 phrosiect Gwaith Tadau, 2 Feithrinfa a banc Bwndel Babi sydd â 4 cangen hwnt ac yma. Cefnogwyd 1012 o deuluoedd, a chyflwynwyd 174 Bwndel Babi i deuluoedd ledled yr Esgobaeth.
Gweithredu'n gyfunol a wnaeth Plant Dewi, wrth gynnig ei wasanaeth yn ystod y cyfnod dan sylw; defnyddiwyd ffôn a chyfrifiadur, i gefnogi pobl yn unigol ac ar y cyd, i gyflwyno pecynnau gwaith a llesiant i deuluoedd ac ar gyfer gwaith grŵp wyneb yn wyneb, ac yn yr awyr agored ar y cyfan. Derbyniwyd cefnogaeth ariannol gadarn ar gyfer y gwaith, gan gyrff allanol, a buont yn ddigon parod i ganiatáu i ni fod yn hyblyg o ran sicrhau fod y prosiectau yn cyrraedd eu nod. Gwelwyd amrywiaeth o weithgareddau yng nghyd-destun y cyfryw brosiectau, wrth iddynt ymateb i anghenion cyson teuluoedd, a da fu cael cyfle i wneud gwaith cymunedol a gweld cenedlaethau'n cydweithio fwyfwy, a hynny mewn cyfnod ansicr.
Bu Plant Dewi yn ymwneud â rhaglen y Weston Pilotlight, a bu mentora gwaith-arwain a rheoli yn fodd i'r Rheolwr ddechrau llunio Cynllun Strategol 5-mlynedd ar gyfer y prosiect, wedi cyd-drafod â staff, ymddiriedolwyr a defnyddwyr ein gwasanaeth.
Ychwanegwyd at y tîm rheoli o ddechrau 2021, gan benodi Rheolwr Cyllid a Chodi Arian, a Rheolwr Swyddfa; bydd hyn yn cryfhau ein trefn fewnol. Hefyd, symudodd swyddfa Plant Dewi o'i hen safle yn Red Street, Caerfyrddin, yn ôl i 21 King Street, Caerfyrddin, wedi ail-wampio'r adeilad.

HERIAU ELENI
Bu'n her i Plant Dewi orfod ymaddasu yn wyneb ansicrwydd a diflastod pandemig covid-19, yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Achoswyd cryn gynnwrf i'r staff a'u teuluoedd, o orfod cau pen y mwdwl ar brosiectau a symud popeth arlinell, a bu'n rhaid i'r rheolwyr ymateb ar fyrder i'r sefyllfa.
Parodd y pandemig i anghenion teuluoedd ddwysáu a bu gofyn cefnogi rhieni a phlant yn gyson. Fodd bynnag, bu gorfod pellhau yn gymdeithasol yn broblem enfawr o ran cysylltu â theuluoedd bregus ac anodd eu cyrraedd, ac o ganlyniad, mae yna bobl yn y gymdeithas sy'n dal heb gymorth a chefnogaeth. Bu sicrhau cyllid at gyfer prosiectau hir-dymor Plant Dewi, hefyd yn her eleni.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Bydd Plant Dewi yn defnyddio grym y tîm rheoli a staffio i ddatblygu a dechrau gweithredu'r Cynllun Strategol 5-mlynedd, yn ystod y flwyddyn i ddod. Yn hyn o beth, bydd cyfleoedd i hybu presenoldeb Plant Dewi ledled yr esgobaeth, i ymwneud â mwy o deuluoedd, i fwrw ati i godi arian a sicrhau fod y prosiect ar ei ennill ac yn gynaliadwy drwyddo draw.

# Yr Archddiaconiaeth dros Gymunedau Cristionogol Newydd ac Efengylu

## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Hyb Mones Farah, Archddiacon dros Gymunedau Crisionogol Newydd ac Efengylu

**AGENDUM 7**

---

Amcan yr Archddiaconiaeth yw datblygu a chefnogi'r amrywiol weinidogaethau nad oes yna le taclus ar eu cyfer o fewn i strwythurau ein AddGLl, Impact 242, Efengylu ac Efengyleiddio, Cyfrifoldeb Cymdeithasol a'r caplaniaethau addysg uwch yn yr esgobaeth.

### EFENGYLU AC EFENGYLEIDDIO

O ganlyniad i'r cyfarfod buddiol iawn y flwyddyn flaenorol, gydag Esgob Graham Crey, hefyd y gynhadledd undydd ar gyfer AddGLl ar bwnc Efengylu, sefydlwyd cwrdd gweddi deu-fisol ar gyfer yr esgobaeth, i weddïo dros y bobl nas cyffyrddwyd gan yr eglwys o fewn i'n hesgobaeth, gyda'r bwriad o'u hefengylu a'u hefengyleiddio. Cafwyd cefnogaeth frwd i'r cwrdd hwn gan aelodau amryw eglwysi yn y tair archddiaconiaeth, a ddaeth i'r cyfarfodydd yn gyson, gydag ambell aelod yn arwain ar dro.

Bu'n hwb i'r cyrddau gweddi hyn, weld cyd-groesawu cyfarfodydd dyddiol Deued Dy Deyrnas rhwng y Dyrchafael a'r Pentecost 2020, a nodi aelodau eglwysig lleyg, o wahanol eglwysi a thraddodiadau ledled yr esgobaeth yn arwain cyfarfodydd cyfan am y tro cyntaf.

Bu newid yn aelodaeh y pwyllgor Efengylu ac Efengyleiddio; daeth yn fwy o faint, yn ogystal, gydag ychwaneg o leygwyr yn ymuno, a newidiwyd amser cychwyn cyfarfodydd, er budd pobl yn canlyn swyddi – yn yr hwyr y cyfarfyddir, bellach. Canolbwyntiwyd ar efengylu yng nghefn gwlad, hyfforddi a chynllunio gogyfer â chenhadu ledled yr esgobaeth, hefyd cefnogwyd Impact 242 o ran ffurfiant a gweithgareddau.

### CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL

Er fod gan yr adran gyfrifoldeb cymdeithasol ei strwythur a'i harweinyddiaeth ei hun, teimlwyd mai da fydd i'r Archddiaconiaeth gefnogi ei gweithgareddau, yn ysbrydol ac ymarferol. Felly, darparwyd gofod ar gyfer Plant Dewi gan Impact 242 Cross Hands, a hynny er gweithredu cynllun y Bwndel Babi a gwaith dros Rieni Ifainc. Anogir aelodau tîm Impact 242 i helpu a chefnogi yn ôl y galw ac i gynorthwyo Plant Dewi, os yn bosib, yn y tair ardal ddaearyddol benodedig. Bwriadwyd cyfarfod â Rheolwr Plant Dewi, ynglŷn â Chanolfannau Plant Dewi, fis Mai 2020, ond bu'n rhaid gohirio, yn wyneb cyfyngiadau Covid 19.

Ymunodd aelodau Tîm Plant Dewi yng Nghross Hands â gweddill aelodau'r Archddiaconiaeth, ar gyfer y Clonc a'r sesiwn Weddi wythnosol, gan rannu gwybodaeth a chefnogi ein gilydd.

### CAPLANIAETH

Er fod yna adroddiad cyfan wedi ei baratoi gan y Caplan, y Parch Ddr Emma Whittick, mae'n bwysig nodi'r trafod a fu yn 2020/2021 gyda'r Brifysgol ynglŷn ag adleoli'r Caplan i gampws Caerfyrddin a chytuno i benodi dau gaplan cynorthwyol i Gampws Llambed.

# Impact 242 (Canolfannau Efengylu)
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Hyb Mones Farah, Archddiacon dros Gymunedau Cristionogol Newydd ac Efengylu

**AGENDUM 7**

---

Amcan yr Archddiaconiaeth yw datblygu a chefnogi'r amrywiol weinidogaethau nad oes yna le taclus ar eu cyfer o fewn i strwythurau ein AddGLl, Impact 242, Efengylu ac Efengyleiddio, Cyfrifoldeb Cymdeithasol a'r caplaniaethau addysg uwch yn yr esgobaeth.

Sefydlwyd **Canolfan Genhadu Impact 242 Cross Hands** ddiwedd Mawrth 2020, pan oedd cyfyngiadau Covid 19 ar gychwyn. Felly, bu'n rhaid gohirio mwyafrif y cynlluniau, ac ymateb, orau y gallem, i'r cyfnod clo a'r canllawiau newydd. Y canlyniad fu canolbwyntio, am weddill 2020, ar argyfwng fwyd Covid 19, gan sicrhau carfan o wirfoddolwyr dan arweiniad Prif Efengylydd y ganolfan, y Parch Victoria Jones, a hwythau'n gweini prydau i fwy na 1600 o bobl pan oedd y pandemig ar ei anterth; ffurfiwyd a datblygwyd perthynas gydag unigolion a busnesau, a chyda'r sawl a dderbyniai'r cymorth.

Hysbysebwyd swyddi Efengylwyr Arloesol, a phenodwyd Miss Amy Lewis i un ohonynt, ond erbyn iddi hithau gychwyn, cafwyd fod y Prif Efengylydd yn bwriadu ymddiswyddo; felly bu'n rhaid dechrau chwilio rhywun yn ei lle hithau, a Mrs Esther Lockley a ddewiswyd i ddechrau ar ei gwaith ganol Ionawr. Ar yr un adeg, penodwyd Mr Ruach Mitchell yn ail Efengylydd Arloesol, gan gychwyn ar ei waith ganol Mawrth. Er hynny derbyniwyd ymddiswyddiad Miss Amy Lewis ddiwedd Mawrth 2021, ond tyfu fu hanes Gweinidogaeth y Ganolfan, er gwaethaf popeth, gan drefnu gwasanaethau Pob Oed arlinell ac wyneb yn wyneb, ac mae proses chwilio am Efengylydd Arloesol eto ar waith.

Bu tipyn o fynd a dod yn hanes staff **Canolfan Genhadu Impact 242 Merlins Bridge** yn ogystal. Cychwynnodd Miss Ruth Busissa, Efengylydd Arloesol, gyfnod mamolaeth ddiwedd Ebrill 2020, a daeth Miss Molly Balwin i lanw ei lle, arlinell am y misoedd cyntaf, oblegid cyfyngiadau Covid 19, ac yna wyneb yn wyneb ar ôl iddi symud i Merlins Bridge ganol Awst. Ymddiswyddodd y Chwaer Val Legg ddiwedd Awst, a phenodwyd Mr Mike Dare yn ei lle, ganol Ionawr 2021. Gwelwyd trydydd Efengylydd Arloesol yn ymuno ganol Mawrth eleni.

Parhawyd gweithio gyda Phlant, Ieuenctid, teuluoedd anghenus ac ysgol St Mark drwy'r cyfnod clo a'r cyfyngiadau.

Cychwynwyd **Impact 242 Morfa** fis Tachwedd 2020, gyda phenodiad y Parch Gapten Rob Lowe i arwain y gwaith efengylu, a Mrs Michelle Lloyd i fod yn Efengylydd Arloesol cyntaf. Bu'r ddau ohonynt yn frwd o'r cychwyn cyntaf, ac yn ymarferol eu gweinidogaeth o ran cefnogi'r gymuned leol, drwy gyd-gysylltu â'r cyngor, busnesau lleol a Chapel y Bedyddwyr, Emmanuel, Morfa. Er mai hon yw'r ddiweddaraf o'r tair canolfan i'w sefydlu, mae'n ymddangos fod ei gwaith cenhadu yn dwyn ffrwyth eisoes, o ran cysylltu â'r ysgolion lleol, aelodau'r cyngor a grwpiau cymunedol eraill.

Bu'r timau oll, ynghyd â'r Caplan a staff Plant Dewi, Crosshands, yn cyd-gyfarfod yn wythnosol ar gyfer Clonc a gweddi, ar hyd y flwyddyn.

Yn olaf, aethpwyd ati i symleiddio trefn arolygu Impact 242; un corff sydd bellach, yn cynnwys pawb, a bydd hwnnw, yn y pen draw, yn Sefydliad Elusennol Corfforedig.

# Caplaniaeth y Brifysgol
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Parch Ddr Emma L. Whittick, Caplan, PDDS Campysau Llambed a Chaerfyrddin.

**AGENDUM 7**

---

Gwelwyd y Gaplaniaeth yn Llambed, yn haf 2020, yn ffarwelio â chwarter ei chymuned addoli. Yn gynharach yn y flwyddyn, ciliasau y gymuned fyfyrwyr dros nos oherwydd pandemig y coronafirws, gan fethu, bron, canu'n iach i'w ffrindiau. Doedd dim amdani wedyn ond addoli arlinell, a buan y gwnaeth staff a myfyrwyr ymaddasu i gyfarfod yn ddyddiol ar gyfer gweddi, cymdeithas a gofal bugeiliol. Parhaodd y gaplaniaeth ei gwaith gydol gwyliau'r haf.

O gychwyn blwyddyn academaidd newydd, a'r brifysgol, fwy na heb, arlinell, canfuwyd sawl her: anodd tu hwnt fu cyfarfod myfyrwyr newydd, a theimlai rhai myfyrwyr a ddymunai fanteisio ar y Gaplaniaeth, nad da o beth, wedi diwrnod cyfan o ddysgu arlinell, fyddai gorfod troi eto fin hwyr neu ar benwythnos, at y cyfrifiadur, ar gyfer cysylltu â'r Gaplaniaeth. Fodd bynnag, drwy gynnig amrywiaeth gyson o ddigwyddiadau arlinell – yn ysbrydol a chymdeithasol – dechreuodd y gymuned dyfu yn raddol. Trwyddedwyd y Caplan, yn Hydref 2020, i weithio yn y ddau gampws, Llambed a Chaerfyrddin. Yn ystod y clo byr Hydref/Tachwedd 2020, lansiodd y Gaplaniaeth gyfres o ddigwyddiadau 'Lockdown Lifelines' er sicrhau cefnogaeth i fyfyrwyr pa bryd bynnag y byddai eu hangen, a chyfle hefyd i gyd-gymdeithasu drwy gyfrwng cyfarfod arlinell ar gyfer prydau bwyd, gemau a gweithgareddau. Yn ysbrydol, cynhelid Boreol Weddi yn ddyddiol, Ewcharist wythnosol, a Chwmplin ar nosweithiau Sul, fel y gallai aelodau'r Brifysgol barhau i addoli a chynnal eu ffydd. Gwelwyd cwmni o staff a myfyrwyr, a oedd yn chwilfrydig ynghylch Crisionogaeth, yn dilyn Cwrs Alpha, gan mwyaf ar linell. Yr uchafbwynt fu cyfarfod wyneb yn wyneb yng Nghapel Campws Llambed ar gyfer Dydd yr Ysbryd Glân, a derfynodd gyda Chymun a chyfle i dderbyn ychwaneg o'r Ysbryd Glân.

Gwelwyd dathlu'r Nadolig gan y Brifysgol, gyda Gwasanaeth Carolau a Drama'r Geni arlinell. Dilynwyd y Cwrs Alpha â chwrs astudio manwl Efengyl Marc ym mis Ionawr; bwriad hynny oedd ysgogi Cristionogion diweddar i fod â hyder i ddarllen yr Ysgrythur drostynt eu hunain a thrwy drafod a hunan-ymroddiad, herio ein gilydd i wireddu egwyddorion y Gair o ddydd i ddydd. Bu'n flwyddyn anodd i staff a myfyrwyr ynghyd, o ystyried yr anghenion a'r gofalon bugeiliol a ddaeth i'r amlwg. Gorfu i'r staff ddatblygu dull newydd hollol o weithio, a'r myfyrwyr hwythau orfod addasu i ffordd newydd o astudio heb wedd gymdeithasol bywyd prifysgol i lanw eu horiau hamdden. Braint fu byw a gweithio ochr yn ochr â'n cymuned brifysgol, yn ystod y cyfnod aruthrol anodd hwn.

# Pwyllgor Archddiaconiaeth Caerfyrddin Cymreictod a Dwyieithrwydd (PACCD)

## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Eluned Rees, Ysgrifennyss, PACCD **AGENDUM 7**

---

Ymddangosodd llythyr o gŵyn gan Aled Samuel yn y cylchgrawn 'Golwg' yn Ionawr 2018, am ddiffyg y Gymraeg mewn gwasanaethau carolau yn yr Eglwys Gadeiriol. Yn dilyn hyn, anfonodd dwy chwaer, Eluned Rees ac Enfys Tanner, merched i offeiriad sy hefyd wedi bod yn weithgar mewn eglwysi drwy eu bywydau, lythyr at Golwg yn cefnogi'r gŵyn ac yn ymhelaethu.

Bu'r ddwy ar Radio Cymru yn sôn ymhellach, ac fe atebodd Esgob Andy John i raddau, ond heb roi llawer o obaith i lawer ohonom.

Doedd yr ymateb ddim yn foddhaol, ac felly aethpwyd ati i sefydlu Pwyllgor, gyda anogaeth yr Archddiacon i geisio Cymreigeiddio'r Esgobaeth, a dylanwadu ar yr Esgobaeth i fod yn yn hollol ddwyieithog a pharchu'r Gymraeg.. Trefnwyd gwasanaeth Cymraeg ar adeg Gŵyl Ddewi a Nadolig, ond ein pwrpas yn y dyfodol bydd parhau i godi statws y Gymraeg a dwyieithrwydd.

Aelodau yw- Rhian Morgan, Llandeilo, (Cadeirydd)

Eluned Rees, Rhydaman (Ysgrifennydd)

Archddiacon Dorrien Davies

Enfys Tanner, Porth Tywyn

Parch. Jean Voyle Williams, Llanddarog

Rob Jones, Llandeilo

Branwen Llywelyn Jones, Llandeilo

Parch. Delyth Richards, Caerfyrddin

Canon Suzy Bale, AWL Bro Aman

Canon Dewi Roberts, Llanddarog

Dai Dyer, Llangadog

Roedd Covid wedi rhoi taw ar ein cyfarfodydd, ond mae'n braf clywed am apwyntiad y Parch Lyn Dafis fel Swyddog y Gymraeg a Dwyieithrwydd yr Esgobaeth.

Y mae 4 o'r pwyllgor yn cyfieithu Pobl Dewi i'r Gymraeg .

# Gofal y Cread a Chynaladwyedd
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Parch Marcus Zipperlen, Swyddog Gofal y Cread a Chynaladwyedd **AGENDUM 7**

---

Mae'r swyddog Gofal y Cread a Chynaladwyedd yn cynnull 'Grŵp Gweithredu Gofal y Cread' (GGGC) Esgobaeth Tyddewi, sy'n cynnwys aelodau lleyg ac ordeiniedig a sy'n cyfarfod tuag wyth gwaith y flwyddyn. Hybu gofal dros y cread, ledled yr esgobaeth, a chefnogi'r Swyddog yn ogystal, yw nod ein gwaith.

Dyma a gyflawnwyd gan GGGC eleni:

- Sefydlu tudalennau Gofal y Cread ar wefan yr Esgobaeth, gydag amrywiol adnoddau.
- Darparu mewnbwn ar gyfer digwyddiad hyfforddi DGP, fis Gorffennaf 2020, ynglŷn â Newid Hinsawdd.
- Llunio Polisi Amgylcheddol Esgobaethol.
- Annog a chefnogi eglwysi i fabwysiadu syniad Eco-eglwys.
- Lansio 'Pererindod Rithiol Esgobaeth Tyddewi parthed COP26'
- Sefydlu cyfres bodlediad 'Clerigiaid Crensio Carbon' (gyda chymorth arbennig Parch Sophie Whitmarsh) sy'n cofnodi podlediad fideo misol yn cynnwys syniadau ynglŷn â gweu gofal y cread i mewn i'r flwyddyn litwrgaidd ar gyfer addoliad a gweithredu ymarferol.
- Darparu diweddariad achlysurol o 'Creation Care News' ar gyfer clerigiaid, yn cynnwys syniadau ac adnoddau tymhorol.

Drwy'r flwyddyn ar ei hyd, mae'r Swyddog Gofal y Cread a Chynaladwyedd yn gweithredu fel adnodd er helpu cymunedau eglwysig i ymateb i alwad Duw ynglŷn â gofalu am y cread, annog eglwysi i gefnogi Eco-eglwys, er enghraifft, neu i dderbyn cyngor o ran gofal addas mewn perthynas â thir eglwysig.
Hefyd, fel aelod o CHASE (Church Action to Sustain the Environment), cefnogi ymateb y dalaith i faterion newid hinsawdd.

Yn wyneb datganiad yr Eglwys yng Nghymru parthed argyfwng hinsawdd, fis Mai 2021, rhagwelir blwyddyn o brysurdeb eithriadol ar y gorwel, pan ddaw llu o newidiadau gerbron i'w hystyried a'u mabwysiadu, o ran bywyd yr eglwys a'r esgobaeth.

# Cadeirlan Tyddewi a Tŷ'r Pererin

## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021

Awdur: y Tra Pharchedig Ddr Sarah Rowland Jones **AGENDUM 7**

LLYWODRAETHIANT AC AELODAETH

Mae Deon a Chabidwl Cadeirlan Tyddewi yn elusen gofrestredig, a'i Chorff Ymddiriedolwyr yw clerigiaid hŷn yr Esgobaeth – y Deon, yr Archddiaconiaid a'r Canoniaid – yn unol â'u penodi gan Esgob Tyddewi. Tŷ'r Pererin yw Canolfan Addysg a Phererindota y Gadeirlan. Pencadlys y gwaith yw'r hen ysgol, sy'n eiddo i Gyfeillion Cadeirlan Tyddewi, a'r cyfarwyddwr yw Mrs Janet Ingram, Swyddog llawn-amser dros Addysg a Phererindota.

AMCANION

Amcanion cyfreithiol Cadeirlan Tyddewi yw 'Hyrwyddo crefydd Gristionogol yr Eglwys yng Nghymru er Budd y Cyhoedd. Yn arbennig, hybu cenhadaeth yr Eglwys yng Nghymru, yn y Gadeirlan a thrwyddi, drwy bwysleisio datganiad ffydd a ddisgrifir yn benodedig yn: Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru; Siarter Frenhinol 1919; Deddf Eglwys Cymru 1914; Deddf (Tymorolion) Eglwys Cymru 1991.'

Yn ymarferol, rydym yn 'Croesawu ymwelwyr yn Bererinion', gan weddïo y bydd i bawb sy'n ymweld, i ba ddiben bynnag – boed staff, twristiaid, contractwyr adeiladu neu esgobion – synhwyro presenoldeb cariad iachäol Duw, gan ymglywed â galwad Crist 'dilyn fi', a'u nerthu i gamu ymlaen, yn unol â'i Air.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI

Manteisiwyd i'r eithaf ar bob cyfrwng a chyfle i barhau â'r gwaith. Llwyddwyd i rag-recordio ac i ffrydio gwasanaethau a digwyddiadau'r Gadeirlan; hefyd bererindodau, encilion, cynulliadau a gwaith ysgol cyffelyb o Tŷ'r Pererin. Dathlwyd y prif ŵyliau oll arlinell neu wyneb yn wyneb, gan ail-gyflwyno cerddoriaeth yn raddol, o biano i organ – o gantor i gôr. Cynigiasom Bererindod Garawys, 'Gorffwys, Myfyrio, Derbyn – Rest, Reflect, Receive' i gymuned y Gadeirlan, i'r Esgobaeth ac i bawb a'n dilynai arlinell. Lluniwyd trefn unffordd ar gyfer ymwelwyr, am ran o'r flwyddyn. Llwyddwyd, gyda chymorth ffyrlo, a grantiau gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Argyfwng Cerddoriaeth Cadeirlan, ynghyd â neilltuo ambell brosiect – i oroesi'n ariannol a chadw ein staff oll. Gwnaethom ddefnydd o'r amser i adolygu a threfnu rhai gweithgareddau o'r newydd, gan ddatblygu ambell agwedd yn ôl y galw. Bu Zoom yn fendith, o ran galluogi'r Cabidwl a'i bwyllgorau i barhau i reoli'n hwylus.

HERIAU ELENI

Bu gorfod cau oherwydd y pandemig, neu orfod gweithredu rheolau caeth o ran agor yn ystod y cyfnod hwnnw ar gyfer addoli ac ymweld 'swyddogol' – yn golygu gostyngiad sylweddol yn nifer yr ymwelwyr, a chostau ychwanegol; gweler uchod sut y deliwyd â hyn.

EDRYCH TUA'R DYFODOL

Ein gobaith yw medru ail sefydlu patrwm ein bywyd cyn bo hir. Gwelwyd mwy o ymwelwyr er pan agorwyd yn llawn fis Mai 2021, ond bu'n rhaid cadw pellter wrth eistedd mewn gwasanaeth. Mae gennym nifer dda o bobl yn croesawu ymwelwyr i'r Gadeirlan. Mae modd cyfrannu'n ariannol drwy gerdyn bellach, a dylai hyn, ynghyd â grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ein galluogi i fwrw ymlaen â phrosiectau a ohiriwyd. Mae paratoadau ar waith gogyfer â 900$^{fed}$ penblwydd y fraint babaidd, bererindodol, yn 2023. Tŷ'r Pererin fydd yn arwain y ffordd, o ran hyn o ddathliad, gan ddwysáu y gwaith o ran pererindodau ac encilion gan gynnwys gwaith ar gyfer yr Esgobaeth, AddGLI, neu unrhyw grwpiau eraill sy'n galw); bydd ail-sefydlu a datblygu cysylltiad ag ysgolion, yn ogystal. Mae'r CI ar y gorwel, a bydd yn allweddol, o ran ein prosiect adeiladu nesaf.

Rydym yn gwyntyllu ein Cyfansoddiad, gan amcanu bod yn Elusen Gorfforedig.

# Cyfeillion Cadeirlan Tyddewi
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021
Awdur: Mr Tim Llewelyn, Ysgrifennydd Mygedol **AGENDUM 7**

---

Ffurfiwyd y Cyfeillion ym 1932 gan y Deon ar y pryd, Watkyn Morgan. Sefydliad ydyw sy'n cydlynu unigolion, grwpiau corfforedig a phlwyfi o bob cwr o'r byd, sy'n dymuno cefnogi cenhadaeth a gweinidogaeth Cadeirlan Tyddewi.

Mae yna dri phrif amcan i waith y Cyfeillion: -

1. Cynorthwyo'r Deon a'r Cabidwl i adfer, ac i gynnal a chadw'r Gadeirlan er gogoniant Duw ac er anrhydeddu Dewi Nawddsant Cymru.
2. Cyfrannu at y draul ariannol achlysurol, o ran harddu'r Gadeirlan a sicrhau addoliad gweddus yn yr Eglwys.
3. Codi arian yn ôl y galw, pan ddaw argyfwng na ellir darparu ar ei gyfer gan y Deon a'r Cabidwl.

Daw aelodau'r Cyfeillion o bedwar ban byd, a hynny dan reolaeth Cyngor Gweithredu sy'n cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn. Cadeirydd y Cyngor hwnnw yw'r Deon, a mae yna 6 Chlerig o Gabidwl y Gadeirlan a 6 aelod Lleyg.

Effeithiodd y Pandemig yn drwm ar fywyd a gwaith y Gadeirlan, gan beri cyfyngu ar sawl digwyddiad, neu eu dileu yn llwyr. Cam ymlaen a dau gam yn ôl oedd hi, i bob golwg! Rhaid canmol ymroddiad a phenderfyniad tîm Staff a gwirfoddolwyr y Gadeirlan; heb eu dyfalbarhád hwythau, cloi'r drysau yn wynebau pererinion ac ymwelwyr fuasai'r hanes. Nodir hefyd i gefnogwyr y Gadeirlan fod yn hael eu cymorth ar hyd y cyfnod, a hyderir y gall y Cyfeillion, hwythau, barhau i gefnogi a datblygu'r lle, yn y presennol ac ar gyfer y to sy'n codi.

Er gwaetha'r Pandemig parhaodd Pwyllgor Gweithredu'r Cyfeillion i fanteisio ar gyfleoedd i godi'r cyllid sydd mor angenrheidiol ar gyfer ei waith. I'r perwyl hwn, prynwyd Belmont House, The Cross, a bydd hyn yn gyfle di-ail i ddwyn rhywfaint o naws y Gadeirlan i ganol y Ddinas. Y gobaith yw denu pobl i fentro i Glyn Rhosyn i ymweld â chysegrfan odidog Dewi.

# Undeb y Mamau

## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021

Awdur: Heather Witt, Llywydd Esgobaethol Undeb y Mamau **AGENDUM 7**

---

AELODAETH

Y Llywydd Esgobaethol

Tair Is-lywydd Archddiaconiaethol

2 Ymddiriedolwr Cyffredinol o bob Archddiaconiaeth

Byddai swyddogaeth, wedyn, gan bob Ymddiriedolwr, yn ôl y galw.

(Ymddiriedolwyr Cyffredinol: 2 o bob Archddiaconiaeth i gysylltu â'r Is-lywydd i roi gwybodaeth i rai sy'n arwain y canghennau)

Mae'r Caplan, yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd yn mynychu ond heb bleidleisio a heb fod yn Ymddiriedolwyr.

AMCANION

Mae Undeb y Mamau yn synio am fyd sy'n adlewyrchu cariad Duw, drwy gyd-berthynas iach pobl, a hynny'n gariadus a pharchus. Nod Undeb y Mamau yw dangos y ffydd Gristionogol ar waith, drwy drawsnewidiad cymunedau ledled y byd, gan feithrin syniad y teulu, yn ei amrywiol ffyrdd.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd Undeb y Mamau'n gweithredu fel a ganlyn:

- Pwysleisio dysgeidiaeth Crist ynglŷn â natur priodas, a hybu'r syniad i'r eithaf.
- Annog rhieni i fagu eu plant dan amodau ffydd a bywyd yr Eglwys; ceisio cynnal cymdeithas fyd-eang o Gristionogion wedi eu huno mewn gweddi, addoliad a gwasanaeth.
- Hyrwyddo amodau cymdeithas sy'n cymell bywyd teuluol sefydlog a gwarchod plant.
- Helpu'r rheiny sydd â'u bywyd teuluol ar chwâl.

Mae ethos gwirfoddol yn allweddol, o ran Undeb y Mamau; ei haelodau sy'n gyfrifol am reoli, arwain a threfnu gweithgareddau.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI

A bwrw fod pandemig Covid 19 wedi tarfu, trefnodd rhai canghennau gyfarfodydd Zoom, er fod hyn yn ddieithr i sawl person. Fel arall, cadwyd cysylltiad drwy ffonio'n rheolaidd.

Defnyddiwyd Zoom hefyd, yn rheolaidd, ar gyfer cyfarfodydd Ymddiriedolwyr a chyfarfodydd Cyngor.

Cynhaliwyd gwasanaethau arlinell.

Ymddangosodd Teulu Non, y daflen newyddion Esgobaethol, yn ddigidol, ond drwy ffôn o ran pobl di-gyfrifiadur.

HERIAU ELENI

Cyfarfu'r Llywydd ag Esgob Joanna, a oedd yn dymuno cefnogi UM ac yn arbennig aelodau bregus, mewn cyfnod anodd.

EDRYCH TUA'R DYFODOL

Gobeithir medru cynnal ein 16 Diwrnod Gweithredu yn erbyn Trais Rhywiau, tua diwedd y flwyddyn.

Ail-sefydlir Gwyliau 'Bant â Hi'.

Ail-gychwynnir Cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

# Urdd Clochyddion Esgobaeth Tyddewi

## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2020 – Pasg 2021

Awdur: Dawn Howells Ysgrifennydd yr Urdd **AGENDUM 7**

---

AELODAETH YR URDD

Mae yna 8 swydd yn Urdd y Clochyddion(a'r Esgob yn Llywydd):-

- Cadeirydd, sef Capten Tŵr y Santes Fair, Penfro.
- Meistr Canu
- Trysorydd
- Swyddog Addysg – y swydd yn wag
- Diogelu – y swydd yn wag
- Cynrychiolydd y Cyngor Canolog
- Swyddog Adfer
- Golygydd Newyddion
- Ysgrifennydd

Mae yna 80 aelod ar hyn o bryd, yn cynrychioli 16 Tŵr Canu ledled De Cymru.

AMCANION

Dyma brif amcanion yr Urdd:-

- Cydnabod gwir sefyllfa clochyddion fel cynrychiolwyr yr eglwys.
- Hybu crefft canu clychau cyn addoliad ac ar achlysuron addas eraill.
- Hybu gofal ac adferiad clychau.
- Recriwtio a hyfforddi clochyddion.
- Hybu a datblygu crefft canu clychau'n gyfnewidiol.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI

Nid yw'r Urdd wedi cyfarfod wyneb yn wyneb er pan osodwyd cyfyngiadau COVID; yn hytrach cynhaliwyd cyfarfodydd ar 2il Sadwrn y mis via Zoom, gan gysylltu â'r aelodau drwy gyfrwng ebyst a llythyrau newyddion chwarterol. Bu'n gyfle i wneud gwaith cynnal a chadw mewn ambell dŵr, yn cynnwys sefydlu tŵr newydd ag ynddo 10 cloch.

HERIAU ELENI

Ail-gychwyn canu clychau (yn ddiogel) cyn gwasanaethau, ymarfer yn wythnosol er mwyn symud y grefft yn ei blaen, gan obeithio denu eraill ati.

Poeni am gyflwr y tŵr gwlyb iawn yn St Florence er gwaetha'r gwaith trwsio.

EDRYCH TUA'R DYFODOL

Bwriadwn ymuno ag Urddau cymdogion er mwyn cynnal Cyfarfodydd Ymarfer ar y Cyd ledled Cymru, ac ail sefydlu Cystadleuaeth Daro'r Urdd, ynghyd â Chystadleuaeth Daro Cymru Gyfan.

# Y Gymdeithas Dai
## ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Ion – Rhag 2020
Awdur: Mrs N Evans BA FCCA, Ysgrifennydd Mygedol **AGENDUM 7**

---

AELODAETH Y PWYLLGOR
Cyfarfu'r Pwyllgor Rheoli ddwy waith yn ystod y flwyddyn. Yr aelodau yw Esgob Tyddewi, y Gwir Barchedig Ddr. Joanna Penberthy (Llywydd), Hyb B J H Jones (Cadeirydd), Mrs Nia Evans (Ysgrifennydd/Trysorydd), Archddiaconiaid Caerfyrddin, Tyddewi a Cheredigion, Cadeirydd y BCE a 2 berson lleyg.

AMCANION
Mae'r Gymdeithas Dai yn darparu cartrefi rhent gogyfer â chlerigiaid sydd wedi ymddeol, neu weddwon a dibynyddion clerigiaid. Mae'r Gymdeithas yn ceisio cadw ei holl eiddo mewn cyflwr da, gan ofalu fod yna wasanaeth-trwsio trwyadl ar gael ar gyfer y tenantiaid.

YR HYN A GYFLAWNWYD ELENI
- Yn ystod y flwyddyn bu un newid, o ran tenantiaeth; gyda dau dŷ yn wâg ddiwedd y flwyddyn.
- Gwnaed adolygiad rhent, gan godi'r raddfa 1.78% o Ionawr 2020.
- Bu i'r pandemig COVID-19 a'r adwaith iddo achosi amryw broblemau Ariannol ac Ymarferol, gan darfu ar batrymau gwaith a gorfodi staff Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi i weithio o'u cartrefi.
- Yn ystod y pandemig cadwodd Cadeirydd a Staff Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi gysylltiad â thenantiaid oedrannus a bregus.

Cofnodwyd cyfanswm incwm o £47,699 gogyfer â 2020. Gwariwyd cyfanswm o £33,275 ar Weithgareddau Elusennol. O ganlyniad nodwyd gweddill o £14,424 o ran y Cyfrif Incwm a Gwariant. Dangosodd y Fantolen ar derfyn y flwyddyn asedau cyfredol o £146,516.

HERIAU ELENI
Mae'r trafodaethau'n parhau ynglŷn â'r lês newydd rhwng Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru a Chymdeithas Dai Tyddewi. Ni nodai'r lês wreiddiol mai Cymdeithas Dai Tyddewi oedd yn gyfrifol am y waliau ffin; yn ôl telerau arfaethedig y lês newydd, bydd y Gymdeithas Dai yn dwyn y cyfryw gyfrifoldeb ar y cyd â'r landlord a'r Plwyf.

EDRYCH TUA'R DYFODOL
Y gobaith pendant yw gweld datrys cwestiwn adnewyddu'r lês yn 2021.
Bwriad y Gymdeithas Dai fydd parhau i gynnal yr holl eiddo, gan sicrhau y bydd mewn cyflwr da ac y bydd gwasanaeth-trwsio parod ar gyfer y tenantiaid.

# Polisi Amgylcheddol Drafft i Esgobaeth Tyddewi

*'Troedio'n ysgafn yn ôl Camau Dewi Sant'*

**AGENDUM 13**

## *Galwad i Ofalu am y Cread*

Dan gysgod bygythiad cynyddol newid hinsawdd a dinistr rhywogaethau, ail-ddarganfu Cristionogion, yn yr ysgrythur, eu galwad sylfaenol i ofalu am y cread. Mae Pumed Nod Genhadu y Cymundeb Anglicanaidd yn datgan y rheidrwydd hwn "ein bod yn ymlafnio i ddiogelu cyfanrwydd y cread, gan gynnal a chan adnewyddu bywyd y ddaear". Rydym yn poeni am mai 'eiddo'r Arglwydd y Ddaear a'i chyflawnder' (Salm 24:1). Â ninnau wedi ein creu ar lun a delw Duw, fe'n gelwir i ofalu am y cread, megis y gwna Duw, i *wasanaethu* a *diogelu'r* Ddaear, yn ôl un cyfieithiad posib geiriau Hebraeg Genesis 2:15. Yn yr un modd, am fod newid hinsawdd yn fater cyfiawnder cymdeithasol sy'n cael effaith andwyol ar bobl dlotaf y byd – a hynny'n gwbl ddi-rybudd a di-drugaredd – mae'r alwad i garu cymydog yn her i ni weithredu. Tasg i'w chyd-rannu â Christ yw caru cymydog a daear, y naill fel y llall, oherwydd 'ynddo ef y crëwyd popeth.a thrwyddo ef, ar ôl gwneud heddwch trwy ei farw aberthol ar y groes, i gymodi popeth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd' (Col 1: 16-20).

## *Ymrwymiad i Weithredu*

Mae Esgobaeth Tyddewi'n ymroi i'r canlynol:

- Byw Pumed Nod Genhadu y Cymundeb Anglicanaidd ac "ymlafnio i ddiogelu cyfanrwydd y cread, gan gynnal a chan adnewyddu bywyd y ddaear"
- Llawenhau yn rhodd y cread, drwy addoli, dathlu a gwireddu'r alwad i ni ofalu am y cread.
- Sicrhau cyfiawnder, o fwynhau ffrwyth y cread, i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol.

Drwy weithredu fel a ganlyn:

1. Ymateb i ddatganiad yr Eglwys yng Nghymru ynglŷn ag argyfwng hinsawdd, drwy leihau allyriadau carbon ein hesgobaeth o'n hadeiladau a'n harferion teithio, nes cyrraedd sero net erbyn 2030, a datblygu cynllun gweithredu i'r perwyl.
2. Datblygu yn 'Eco-Esgobaeth' lefel Efydd (ardystiedig gan Rocha DG) erbyn Cynhadledd Esgobaethol 2022 (01/10/22), a chyrraedd, yn y pen draw, lefelau Arian ac Aur.
3. Drwy ein haddoliad, gweddi, gweinidogaeth, dysgeidiaeth a hyfforddiant, sicrhau ein bod yn byw'n gynaliadwy ac yn unol â chread Duw.
4. Gwneud gofal y cread ac anelu at allyriadau carbon sero, yn elfennau allweddol yn ein strategaeth a'n gweledigaeth esgobaethol, hyn yn golygu fod pob pwyllgor esgobaethol perthnasol yn paratoi adroddiad blynyddol er gwybodaeth.
5. Cynnwys mewn adroddiadau cwincwennial dargedau a dulliau gweithredu er lleihau allyriadau carbon a gofalu am y cread.
6. Cynnwys sôn am ymdrechion i sicrhau gwobrau Eco-eglwys a lleihau allyriadau carbon, mewn adroddiadau a gofwyion Archddiaconiaid.
7. Rhoi cyfrif o'r gwaith yn flynyddol i'r tîm arweinyddiaeth hŷn a'r Gynhadledd Esgobaethol.
8. Peidio buddsoddi mewn tanwydd ffosil, ac ymgadw rhag gweithredu'n niweidiol, o ran hinsawdd.

***Atodiadau:***

1. *Targedau er sicrhau gweithredu'r Polisi Amgylcheddol*
2. *Datganiad yr Eglwys yng Nghymru parthed argyfwng Hinsawdd*

***Atodiad 1:***

***Targedau er hyrwyddo gweithrediad y Polisi Amgylcheddol***

***Y tymor byr (blwyddyn 1 – erbyn Cynhadledd Esgobaethol 2022)***

- **Datblygu cynllun gweithredu er cyrraedd nod allyriadau sero net:** Comisiynu 'grŵp carbon sero' i ysgrifennu, cynllunio a chydlynu'r trawsnewid. Bwriedir i'r grŵp hwn gydweithio â'r 'Hyrwyddwr Newid Hinsawdd' sydd newydd ei phenodi gan yr Eglwys yng Nghymru, gan gysylltu â phlwyfi ac AddGLI i helpu â'r trawsnewid.
- **Addoliad** – (i) pob plwyf/AWL i ddathlu 'Sul Hinsawdd'
- **Newid i gyflenwadau ynni adnewyddadwy.** Trydan: 50% adeiladau esgobaethol (eglwysi, neuaddau, ysgolion Gwirfoddol dan Gymorth) i gyfnewid y cyflenwr trydan, er mwyn sicrhau ffynhonnell adnewyddadwy 100% (75% erbyn diwedd 2023, 100% erbyn diwedd 2025). Nwy: cyflenwadau nwy gwyrdd - 10% erbyn 2022 (50% erbyn 2023, 75% erbyn 2025).
- **Lleihau teithio i gyfarfodydd o 30%**
- **Eco-Eglwys.** 10% cynulleidfaoedd i gofrestru gogyfer ag Eco-Eglwys (c. 30 eglwys) 5% i fod wedi derbyn gwobr efydd(c. 15 eglwys.).
- **Cychwyn arni, gan amcanu bod yn 'Eco-esgobaeth' lefel Efydd** (gofyn bod 10% o eglwysi lleol yn cofrestru gydag Eco-eglwys; 5% eglwysi lleol yn sicrhau gwobr Eco-eglwys lefel Efydd)
- **Addysg.** Darparu ar gyfer, ac annog astudiaeth feiblaidd ar y cyd, yn ystod Tymor y Cread (neu'r Garawys), gan fyfyrio ac ymholi ynghylch yr alwad a'r hyn sy'n allweddol o ran gofal y cread.
- **Dod yn aelod Esgobaethol o Erw Duw,** er mwyn gofalu am dir eglwysig mewn modd cynaliadwy.

***Y Tymor Canolig (o fewn pum mlynedd)***

- **Addoliad** – Cadw 'Tymor y Cread' fel esgobaeth. Sicrhau fod gan eglwysi adnoddau litwrgaidd addas.
- **Ynni.**
  Trydan: 75% adeiladau esgobaethol (eglwysi, neuaddau, ysgolion Gwirfoddol dan Gymorth) i newid cyflenwr trydan er mwyn sicrhau ffynhonnell adnewyddadwy 100% erbyn diwedd 2023 (100% erbyn diwedd 2025). Nwy: 50% cyflenwadau gwyrdd erbyn 2023 (75% erbyn 2025).
  Grŵp Carbon Sero i archwilio potensial mesurau effeithiolrwydd ynni o ran adeiladau, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, dulliau dala a storio carbon (e.e. drwy blannu coed) a chwblhau 'ambell' brosiect arbrofol.
- **Eco-Eglwys** – nodi a datblygu defnyddiau i annog ac adnoddi Eco-eglwys (adnoddau'r We, cyrsiau hyfforddi, cynllun mentora Eco)
- **Addysg.** Gwneud diwinyddiaeth a gofal y cread yn rhan amlwg o DGP, EWDd a rhaglenni hyfforddi lleyg. Annog ac adnoddi grwpiau eglwys/cartref. Cofrestru clerigiaid parod ar y cwrs tystysgrif dwy flynedd(dysgu o bell )'Astudiaethau Gwledig ac Amgylcheddol Cristionogol'. Gofalu fod gofal y cread yn dod yn rhan allweddol o raglen hyfforddi St Padarn. Annog llywodraethwyr ysgolion Eglwys i gynnwys gofal y cread ym meysydd llafur eu hysgolion.
- **Eco-esgobaeth**. Bod wedi ymgyrraedd at statws Eco-esgobaeth lefel Efydd, gan amcanu at lefel Arian.

*Yr Hir Dymor (pump i ddeg mlynedd)*

- **Addoliad** Tymor y Cread i fod yn rhan allweddol o'r cylchred litwrgaidd; yr Eglwys yng Nghymru, dan anogaeth, wedi cynnwys Tymor y Cread yn y Llithiadur.
- **Ynni.** Pob eglwys, neuadd ac ysgol Wirfoddol dan Gymorth, eisoes yn talu ar raddfa ynni adnewyddadwy.

  Cynhyrchu ynni adnewyddadwy lle bo'n addas. Allyriadau carbon erbyn hyn yn sero.
- **Eco-eglwys. Un Eco-eglwys o leiaf ymhob AWL**
- **Eco-esgobaeth.** Lefel Arian wedi ei chyrraedd
  - 20% eglwysi lleol wedi eu cofrestru yn Eco-eglwys; 10% eglwysi lleol wedi eu gwobrwyo
  - Cynllun rheoli gogyfer â chynaladwyedd /bioamrywiaeth ar gyfer tir eglwysig yn gyffredinol

*Atodiad dau*

**Datganiad yr Eglwys yng Nghymru parthed argyfwng Hinsawdd ac Ymrwymiad i Leihau Allyriadau Carbon i Sero net**

(mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol ar Ebrill 14eg 2021)

Ar sail ein gofal mawr a'n cyfrifoldeb dros gread a phobl Duw, nodwn:

- y rhybudd moel gan gymuned wyddonol y byd, mai ond 10 mlynedd sydd ar ôl i atal cynhesu o 1.5 gradd
- fod cynhesu y tu hwnt i 1.5 gradd yn cynrychioli bygythiad i ddyfodol dynoliaeth; a bwrw fod cynhesu'n aros ar y lefel honno hyd yn oed, bydd bygythiad dibendraw i fywoliaeth pobloedd byd
- y bydd cynhesu y tu hwnt i 1.5 gradd yn effeithio yn andwyol tu hwnt ar fioamrywiaeth ein planed.

Cydnabyddwn fod dirfawr angen ymateb byd-eang union, bellach.

Croesäwn y ffaith fod atebion i liniaru yr argyfwng hinsawdd ar gael yn helaeth, gan gynnwys technoleg adnewyddadwy, opsiynau teithio cynaliadwy ac adeiladau carbon sero.

Cefnogwn benderfyniadau llywodraethau, cynghorau a sefydliadau ledled Cymru, i basio cynigiad yn datgan fod yna argyfwng hinsawdd, gan osod targedau carbon sero net ar gyfer eu hardaloedd lleol.

Dylem geisio ymgyrraedd at sefyllfa o allyriadau carbon sero net, o ran gweithgareddau Esgobaeth Tyddewi, a hynny cyn gynted â sy'n ymarferol bosib.

Byddwn yn dyfeisio cynllun gweithredu fydd yn nodi sut y gall yr esgobaeth ymgyrraedd at safle allyriadau carbon sero net, gan amcanu cyrraedd y nod erbyn 2030.

**Dogfen gefnogi 1:**

***Yr Argyfwng Hinsawdd a'r Alwad i Ofalu am y Cread***

'Eiddo'r Arglwydd y ddaear a'i chyflawnder' (Salm 24:1). Mae Duw yn ymfalchïo yn yr hyn a wnaeth gan ddatgan ei bod yn 'dda iawn' (Gen 1:31). Â hwythau'n unigryw ymhlith creaduriaid, mae bodau dynol wedi eu creu ar lun a delw Duw, ac fe'u gelwir i gynrychioli Duw gerbron y cread cyfan drwy oruchwylio, ymfalchïo a gofalu, fel y gwna Duw (Gen 1:26) ac i *wasanaethu* a *diogelu'r* Ddaear, yn ôl un cyfieithiad posib geiriau Hebraeg Genesis 2:15. Cydnabyddwn na fu i ni gyflawni ein dyletswydd o ofalu, ac y mae Daear dda Duw, sef ein cartref bawb, yn dioddef yn enbyd. Rhaid nodi:

- y rhybudd moel gan gymuned wyddonol y byd mai ond 9 mlynedd sydd ar ôl i alluogi dynoliaeth i atal cynhesu o 1.5 gradd
- fod cynhesu tu hwnt i 1.5 gradd yn cynrychioli bygythiad i ddyfodol dynoliaeth; a bwrw fod cynhesu yn aros ar y lefel honno hyd yn oed, bydd bygythiad dibendraw i fywoliaeth pobloedd byd
- y bydd cynhesu y tu hwnt i 1.5 gradd yn effeithio'n andwyol tu hwnt ar fioamrywiaeth ein planed.
- fod newid hinsawdd yn fater cyfiawnder cymdeithasol sy'n cael effaith andwyol ar bobl dlotaf y byd – a hynny'n gwbl ddi-rybudd a di-drugaredd – mae'r alwad i garu cymydog yn her i ni weithredu (Marc 12: 31).

Gellir cael gwybodaeth bellach am y wyddoniaeth sy'n sail i'r rhybudd am y cynhesu 1.5 gradd a newid hinsawdd, yn https://www.ipcc.ch/sr15/

***Ymateb yr Eglwys yng Nghymru***

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, pasiodd yr Eglwys yng Nghymru ddau benderfyniad, gyda'r bwriad o ymateb i'r argyfwng hwn yn hanes y cread a phobl Duw. Yn 2017 cytunodd y Corff Llywodraethol ar benderfyniad i hyrwyddo cynllun Eco-eglwys A Rocha fel modd effeithiol o ddwyn gofal y cread i galon bywyd yr eglwys, gan alw ar bob esgobaeth i gofrestru ar y cynllun 'Eco-Esgoabeth' cyd-berthynol.

Yna, fis Ebrill eleni (2021), cytunodd y Corff Llywodraethol ar gynigiad o bwys yn datgan 'Argyfwng Hinsawdd', gan addunedu lleihau 'allyriadau carbon'[1] i 'sero net' erbyn 2030, neu cyn gynted â sy'n ymarferol bosib, hefyd i gomisiynu cynllun gweithredu yn nodi sut i gyrraedd at y trawsnewid cyflym hwn (gweler isod gopi o'r datganiad hwn). Ystyr 'Sero Net' yw na fyddwn yn cyfrannu Carbon ychwanegol i'r awyrgylch, a phan fo'n gweithgareddau yn cynhyrchu carbon rydym yn gwneud iawn am hyn drwy weithredu mewn modd arall sy'n dala a storio carbon. Felly, er enghraifft, lle na ellir osgoi defnyddio tanwydd ffosil ar gyfer teithio neu wresogi, byddwn yn dala ac yn storio swm cyfwerth y Carbon drwy dyfu coed.

O ganlyniad i dderbyn y cynnig hwn, penododd yr Eglwys yng Nghymru 'Hyrwyddwr Hinsawdd (Dr Julia Edwards) i lunio 'cynllun gweithredu Sero Net' i'w gyflwyno i'r Corff Llywodraethol yng nghyfarfod Ebrill 2022. Bydd y cynllun Gweithredu yn nodi sut i gyrraedd Carbon Sero Net dan yr amodau canlynol:

[1] Mae 'allyriadau Carbon' yn cyfeirio at y Carbon a ollyngir i'r awyrgylch drwy weithgaredd ddynol yn ffurff nwyon amrywiol, sy'n peri i hinsawdd y ddaear newid. Y pennaf o'r nwyon hyn yw Carbon dioxide, a ollyngir pan losgir tanwydd ffosil (petrol, olew, nwy).

1. Lleihau y galw am bwer: lleihau enbyd ar wresogi a goleuo ein hadeiladau; byddai hyn yn golygu gosod goleuadau LED, diogelu rhag oerfel, insiwleiddio etc

2. Defnyddio'r math iawn o bwer: ffurfiau gwresogi newydd seiliedig, yn fwy na thebyg, ar drydan a gynhyrchwyd yn gynaliadwy. Mae hyn yn gofyn am gyflenwad digonol, a gall gynnwys cyfleusterau i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar dir eglwysig.

3. Teithio'n anfynych : sicrhau fod staff, gwirfoddolwyr a phlwyfolion yn teithio'n llai mynych mewn ceir petrol/diesel a defnyddio technoleg ar gyfer cyfarfodydd etc. Lleihau teithio rhyngwladol.

4. Gwell defnydd o'r tiroedd: Hybu bioamrywiaeth ar diroedd eglwysig drwy 'wrthweithio' e.e. drwy blannu coed.

5. Cydgymdeithas Carbon Sero; ystyried y bwydydd a'r diodydd a rannwn, adeiladu ar ein gwaith Masnach-deg.

6. Hybu yr agenda carbon-sero yn ein cymunedau

7. Newid ein polisiau buddsoddi a chefnu ar gwmnïau sy'n niweidio'r hinsawdd drwy eu gweithgareddau.

***Ymateb fel Esgobaet: Polisi Amgylcheddol***

Diben y Polisi Amgylcheddol i ni fel Esgobaeth yw:

---

- cydnabod a datgan ein bod yn cefnogi gofal y cread yn wyneb niwed di-gynsail i'r amgylchedd,
- sicrhau ein bod yn rhoi blaenoriaeth i ddatganiad yr Eglwys yng Nghymru ynglŷn â'r argyfwng hinsawdd, a chanolbwyntio ar syniad yr Eco-eglwys a'r Eco-esgobaeth i'r perwyl,
- ac ymroi i weithredu i ofalu am y cread yn effeithiol ac fel mater brys.

---

Mae'r polisi'n golygu gwneud wyth o bethau yn cwmpasu amrywiaeth gwaith wedi ei anelu at allyriadau Carbon Sero Net erbyn 2030, gan gynnwys gofal y cread fel rhan annatod o'n haddoliad a'n gweddi; hefyd bwriedir cyfeirio at waith parthed allyriadau carbon, mewn adroddiadau cwincwenial.

Mae'r atodiadau yn cynnwys awgrym o amserlen gogyfer â'n gwaith gan gynnwys targedau o ran newid i gyflenwadau ynni adnewyddadwy, datblygu'n Eco-Esgobaeth, a dwyn gofal y cread i ganol ein bywyd addoli. Bydd gwybod sut i drefnu a dethol yn dibynnu ar ein trafodaethau fel esgobaeth ac AddGLI, hefyd yr argymhellion a wneir yng 'Nghynllun Gweithredu Hinsawdd' yr Eglwys yng Nghymru y flwyddyn nesaf.

Wrth i ni gychwyn y bennod newydd hon yn ein gweinidogaeth, gan ganolbwyntio ar ofal y cread, bydd llawer i'w ddysgu, ei drafod, ei gynllunio, ei weithredu, a myfyrio yn ei gylch, ac yn sicr bydd ein cynlluniau'n esblygu ymhellach. Ymateb i ddifrifoldeb y sefyllfa yw sail y polisi Amgylcheddol hwn, gan ein clymu i weithredu mewn ffyrdd effeithiol gan adael i ni fod yn hyblyg ar yr un pryd, yng ngoleuni amgylchiadau a than ddylanwad yr Ysbryd Glân.

---

**Cynigiad y Corff Llywodraethol parthed datgan Argyfwng Hinsawdd(15fed Ebrill 2021):**

Fod y Corff Llywodraethol yn:

1. Datgan Argyfwng Hinsawdd fel a ganlyn:

Cydnabyddwn fod dirfawr angen ymateb byd-eang union, bellach.

Croesäwn y ffaith fod atebion i liniaru yr argyfwng hinsawdd ar gael yn helaeth, gan gynnwys technoleg adnewyddadwy, opsiynau teithio cynaliadwy ac adeiladau carbon sero.

Cefnogwn benderfyniadau llywodraethau, cynghorau a sefydliadau ledled Cymru, i basio cynigiad yn datgan fod yna argyfwng hinsawdd, gan osod targedau carbon sero net ar gyfer eu hardaloedd lleol.

Dylem geisio ymgyrraedd at sefyllfa o allyriadau carbon sero net, o ran gweithgareddau yr Eglwys yng Nghymru, a hynny cyn gynted â sy’n ymarferol bosib.

2. Gofyn i Gorff y Cynrychiolwyr baratoi cynllun gweithredu i’w ystyried gan y Corff Llywodraethol yn nghyfarfod (neu cyn cyfarfod) Ebrill 2022, sy’n nodi sut y gall yr Eglwys yng Nghymru gyrraedd safle allyriadau carbon sero net erbyn 2030 neu cyn gynted â phosib wedi hynny.

**Dogfen Gefnogi 2:**

**Sut i Newid i Gyflenwr Ynni Adnewyddadwy o ran Trydan a Nwy**

Mae hyn yn syml a gall arbed arian, gan nad yw pobl bob amser yn rhan o'r cynllun talu gorau. O fynnu delio â chwmni ynni yn uniongyrchol, fe welwch chwech o'n cyflenwyr gorau ar gyfer ynni adnewyddadwy wedi eu rhestru isod. Neu fe allwch brynu drwy 'Bwrcasu Plwyf', sef cynllun gan yr eglwysi i brynu ar y cyd er cael prisiau ffafriol.

**A) Newid i gwmni ynni adnewyddadwy yn uniongyrchol:**

Isod wele chwech o'r cyflenwyr gorau o ran ynni adnewyddadwy. Maent oll yn cyflenwi 100% trydan wedi ei gynhyrchu'n adnewyddadwy. O ran Nwy, Green Energy UK yn unig sy'n cynhyrchu y cyfan o'i Nwy gwyrdd ei hun, mae'r lleill yn defnyddio cyfuniad o gyflenwi canran nwy gwyrdd, ac o ran y gweddill, yn gwneud iawn am yr allyriadau carbon anochel drwy blannu coed drwy gynlluniau dibynadwy.

| **Cwmni** | | **Ffynhonnell ynni** | | **Cyswllt** |
|---|---|---|---|---|
| | | **Trydan** | **Nwy** | |
| | **Green Energy UK** | 100% adn | 100% adn | https://www.greenenergyuk.com/ |
| | **Ecotricity** | 100% adn | % adn; % gwneud iawn am garbon | https://www.ecotricity.co.uk/ |
| | **Octopus Energy** | 100% adn | 100% gwneud iawn am garbon | https://octopus.energy/ |
| | **Bulb** | 100% adn | 10% adn; 90% gwneud iawn am garbon | https://bulb.co.uk/ |
| | **OVO energy** | 100% adn | 15% adn; 85% gwneud iawn am garbon | https://www.ovoenergy.com/ |
| | **Good Energy** | 100% adn | 10% adn; 90% gwneud iawn am garbon | https://www.goodenergy.co.uk/ |

(Yn gywir adeg argraffu)


Mae rhai cwmniau ynni confensiynol hefyd yn cynnig cynllun talu 'Gwyrdd' am ynni, ond mae rhai o'r rhain yn dibynnu lawn cymaint, neu fwy, ar 'wneud iawn' (plannu coed i amsugno carbon diocsid) fel mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn uniongyrchol, felly mae'n llai na delfrydol.

## B) Newid i 100% ynni adnewyddadwy drwy'r cynllun 'Pwrcasu Plwyf'

*(Bydd angen bil ynni gan eich eglwys/neuadd/ficerdy)*

Ewch i'r wefan 'Pwrcasu Plwyf' : https://www.parishbuying.org.uk/

A bwrw eich bod yn newydd o ran hyn, bydd angen i chi gofrestru'n gyntaf drwy glicio fan yma




Yna gofynnir:

**"Sut ydych chi'n cofrestru?"**

Church of England Church in Wales Diocese Other

Felly cliciwch y cylch am 'Church in Wales' fel uchod

Bydd angen wedyn rhoi enw a chyfeiriad eich Eglwys, eich enw, cyfeiriad ac ebost, a chreu enw defnyddiwr a chyfrinair.

Fe gymer hyn ddiwrnod neu ddau er mwyn gwirio eich manylion a chadarnhau eich cofrestriad. Cewch ebost i'ch hysbysu fod popeth yn iawn, a dylech wedyn ail-gysylltu â gwefan Pwrcasu Plwyf gan ddefnyddio'ch cyfrinair i gysylltu, ac ar y dudalen flaen dewiswch 'energy' .

Dewis categori




Yna cliciwch ar y llun 'Energy Basket' sy'n ymddangos

Energy Basket

With over 5,766 meters now in the Basket, it's the biggest energy buying scheme for churches in the country.

MORE ABOUT ENERGY BASKET

Yna ar ochr dde'r sgrîn fe welwch 'Get an energy quote' (fel isod). Gellwch glicio naill ai ar 'complete the data collection form' a dilyn y cyfarwyddyd, neu eu ffonio ar **0800 368 0887**, gyda'ch bil ynni yn barod, a rhoi gwybodaeth iddynt.

Ceisiwch amcanbris

## Get an energy quote

Simply complete the data collection form below or phone our friendly team on 0800 368 0887.

The form is available in PDF or Word formats. If you would prefer to receive it by email please contact us at support@parishbuying.org.uk

COMPLETE THE DATA COLLECTION FORM

VALUE EXPLANATION

O fynnu gwneud popeth arlinell, cliciwch 'complete the data collection form'

Rhowch eich enw a'ch ebost, ynghyd ag enw a chyfeiriad eich eglwys. Yna pwyswch 'continue'...

Bydd angen i chi wedyn ddewis pa fath o ynni sydd ei angen arnoch (nwy, trydan neu olew) drwy nodi un o dair opsiwn isod

ELECTRICITY & GAS | ELECTRICITY | GAS ONLY

NEXT

Byddwch yn barod â'ch bil ynni. Rhowch y wybodaeth angenrheidiol (enw a chôd post yr eglwys, rhif eich cyfarpar trydan etc) a chyflwynwch y ffurflen i Parish Buying.

Cewch amcan bris ganddynt a chyngor ynglŷn â pharhau.

Pob hwyl â'r broses!

Parch Marcus Zipperlen

# Cynigiad ar Gyfer y Gynhadledd

Rhagarweiniad i'r Cynigiad Hinsawdd Bositif ar gyfer Cynhadledd Esgobaeth Tyddewi **AGENDUM 15**

## Nodyn o eglurhad

<u>"Ochneidio'r Greadigaeth" Rhufeiniaid 8:18</u>

Yn Rhufeiniaid 8:18 mae'r apostol Paul yn esbonio'r anesmwythyd a ddaeth i ran creadigaeth Duw yn y cyfnod dan sylw, tra'n dyheu am iachawdwriaeth yn y dyfodol. Nid rhyw sefyllian yn ofer o ran eu tynged, fel rhan o'r greadigaeth, mo aelodau'r ddynoliaeth; yn hytrach, mae i bawb ohonom gyfrifoldeb o ran ceisio ymgyrraedd at yr adferiad hwnnw. Mae cyfyngu ein gweledigaeth i ddim ond dileu allyriadau carbon (ac felly cyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5 gradd erbyn 2050 er cadw'r addewid a wnaed yng Nghytundeb y CU parthed Newid Hinsawdd, Paris) – yn wyddonol annoeth, yn economiadd ryfygus o ran cenhedloedd datblygedig, ac yn anghydnaws â'n cyfamod, fel stiwardiaid creadigaeth Duw. Â ninnau'n gymuned ffydd o fewn yr Eglwys yng Nghymru, dylai Esgobaeth Tyddewi fod yn arwain y ffordd o ran ceisio mynd y tu hwnt i allyriadau carbon sero, ac yn lle hynny, adeiladu cymunedau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, sy'n ymroddedig i sicrwydd o ran hinsawdd. Mae sicrwydd o ran hinsawdd yn golygu gwneud mwy na dirymu ein heffaith ar yr amgylchedd a dim arall. Mae'n golygu rhagor nag arbed mwy o allyriadau nwy tŷ gwydr nag a gynhyrchir. Angen dechrau mynd i'r afael â'r niwed a ddigwyddodd eisoes – dyna yw bod yn hinsawdd bositif. Oes, mae angen creu enillion amgylcheddol sy'n real, yn barhaol a chynaladwy.

Rheidrwydd yw gwella effeithiolrwydd ynni a mabwysiadu, yn hytrach, ffurfiau cynaladwy o gynhyrchu pŵer. Dylid cofio, fodd bynnag, mai cymunedau ffydd yw mwyafrif y boblogaeth fyd-eang. Drwy sicrhau fod yr amgylchedd yn flaenoriaeth ymhob cymuned ffydd, bydd hyn yn ysgogi newid sylweddol iawn, yn fyd-eang. Mae dysgeidiaeth Crist yn gyfrifol am ein gwerthoedd ac yn llywio ein bywydau mewn ffyrdd amrywiol a phendant. Clywir gan ein Harglwydd ynglŷn â'r tlodion, ac ynglŷn â thrachwant, yn fwy felly nag aml i bwnc arall. Mae angen i ni fabwysiadu agwedd gyffelyb, o ran synio'n gadarnhaol am yr hinsawdd, wrth i ni wynebu difodiant byd-eang ar raddfa o un rhywogaeth y dydd, hynny yw, gofalu fod agwedd gadarnhaol parthed yr hinsawdd, yn treiddio i bob rhan o'n bywydau Cristionogol. Â ninnau'n rhan o Grŵp Cenhedloedd yr G7, gwrandäwn yn ddyddiol ar y newyddion ynglŷn ag effaith anghymesur newid hinsawdd ar dlodion mwyaf y byd. Cofiwn fod y cyfryw rai yn frodyr a chwiorydd i ni. Yr her, o ran yr hinsawdd yw, llunio perthynas newydd â phobloedd a chodi llais o blaid y di-leferydd. Cofio fod yna awdurdod amgen drosom ni, sef gair y bywyd a pherson Iesu Grist. Nid ein lle ni yw ymuno yng nghyrch di-lyffethair y byd i losgi ynni yn ddi-ddiwedd a chyfrannu at y ffrwydrad economaidd. Na, fe'n gelwir yn hytrach, i ddatgan gwirionedd gwahanol, sef fod pob rhan o greadigaeth Duw yn gwbl gyfartal. Â ninnau'n rhan o'r Eglwys fyd-eang, rydym yn ddigon grymus i wrthsefyll y camddefnydd parhaol o ddaear Duw.

Fel Cristionogion, gwyddom pa mor dyngedfennol bwysig yw gweithredu i newid y drefn. Yn ddisgyblion yr 21ain ganrif, fe'n gelwir i ddysgu'n gyson. Yn apostolion, cael ein hanfon yn gyson yw ein braint. A bwrw ein bod yn gwbl ymroddedig i'r gwaith o wneud byd o wahaniaeth i'r greadigaeth, yna ni fydd bodloni ar ddileu allyriadau carbon a dioddef byd sy'n dal i gamdrin y mwyaf bregus, gan anwybyddu doniau creadigaeth Duw, - yn ddigon, yn awr nac yn y dyfodol.

# CYNIGIAD AR BOSITIFRWYDD HINSAWDD

**AGENDUM 15**

Cynigiad ar gyfer Cynhadledd Esgobaeth Tyddewi 2021

"Mae'r gynhadledd hon yn nodi'r datganiad diweddar gan yr Eglwys yng Nghymru ynglŷn ag argyfwng hinsawdd, ac yn cefnogi ei hymdrechion i osgoi difodiant hinsawdd. Gan gredu mai 'eiddo'r Arglwydd y ddaear a'i chyflawnder, y byd a'r rhai sy'n byw ynddo' (Salm 24:1), mae'r gynhadledd hon yn annog Esgobaeth Tyddewi i symud y tu hwnt  i fod ond yn 'niwtral o ran carbon' a mabwysiadu safbwynt 'positif o ran hinsawdd ' – gwella daear Duw drwy fynd ati i sicrhau sefyllfa amgylcheddol iach sy'n gwaredu Diocsid Carbon o'r awyrgylch a rannwn. Fel arwydd o'n cyd-ymrwymiad i fod yn hinsawdd bositif, rydym yn annog y gynhadledd i orchymyn i bob eglwys yn yr Esgobaeth ymroi yn union i ddechrau bod yn hinsawdd bositif."

**RHEOLAU SEFYDLOG CYNHADLEDD ESGOBAETHOL TYDDEWI**

1 Bydd i holl gyfarfodydd y Gynhadledd agor a chau drwy weddi.

2 Wedi i'r Llywydd gymeryd y Gadair, na fydded i unrhyw aelod barhau i sefyll ond wrth annerch y Gadair.

3 Pan fo'n bresennol yn y Gynhadledd, gall y Llywydd benodi aelod arall o'r Gynhadledd i gadeirio'r Gynhadledd yn ei le.

4 Pan fo dau aelod neu fwy yn sefyll ar yr un pryd i annerch y gadair, bydd i'r Cadeirydd benderfynu pa un ohonynt gaiff siarad gyntaf.

5

a) Rhaid i anerchiadau gan gynigydd ac eilydd beidio â phara am fwy na deg munud. Gall y cynigydd hefyd hawlio pum munud i ateb.

b) Rhaid i bob anerchiad arall beidio â phara am fwy na phum munud.

c) Gall y Cadeirydd, gyda chydsyniad y Cyfarfod, ganiatáu mwy o amser ar gyfer anerchiad.

d) Ni fydd yr adran hon yn berthnasol o ran Anerchiad y Llywydd.

6 Ni chaniateir i unrhyw aelod siarad fwy nag unwaith ar yr un cwestiwn, oddieithr i esbonio neu godi pwynt o drefn, onibai mai gweithredu ei hawl i ateb, fel cynigydd, y mae'r aelod.

7 Pa bryd bynnag y cyfyd y Cadeirydd ar ei draed yn ystod dadl, rhaid i unrhyw aelod sy'n siarad neu'n cynnig siarad, eistedd ar ei (h)union.

8 Os, yn ystod dadl, y cyfyd 30 aelod yn eu lleoedd gan fynnu fod pleidlais yn digwydd, bydd i'r Cadeirydd osod y cwestiwn hwnnw gerbron y Cyfarfod er mwyn cael penderfyniad drwy godi dwylo.

9 Os yw'r Cyfarfod yn cymeradwyo'r cais am bleidlais, bydd i'r Cadeirydd yn gyntaf gynnig i'r cynigydd yr hawl i ateb ac yna fynd yn union i bleidlais.

10 Ni cheir trafod ond y busnes ar y Papur Agenda. Anfonir yr Agenda i bob aelod o'r Gynhadledd ynghyd â hysbysiad am y Cyfarfod, a'r Adroddiadau, bedwar diwrnod ar ddeg o leiaf, cyn dyddiad y Cyfarfod.

11

a) Rhaid anfon, ar bapur unrhyw gwestiwn sy'n galw am ateb, ac unrhyw gynigiad gan aelodau, at Ysgrifennydd Lleyg y Gynhadledd, o leiaf saith diwrnod cyn dyddiad y Cyfarfod.

b) A bwrw fod unrhyw aelod yn dymuno dwyn cynnig gerbron, oddieithr ar gyfer Cyfarfod Arbennig, dylid anfon y cynnig at yr Ysgrifennydd Lleyg mewn da bryd i'w ystyried gan y Pwyllgor Sefydlog yn ei gyfarfod yn union cyn cyfarfod y Gynhadledd.

12 Mewn cyfarfod ar wahan i Gyfarfod Arbennig, gall y Llywydd, fel y barno'n ddoeth, ganiatáu unrhyw fusnes arall, o natur arferol, nad yw'n ymddangos ar y Papur Agenda.

13 Bydd i'r holl welliannau fod yn ysgrifenedig, wedi eu llofnodi gan y cynigydd, a rhaid eu cyflwyno i'r ysgrifenyddion, cyn y cyfarfod, os bydd modd.

14 Ni fydd gwelliant ar welliant yn dderbyniol.

15

a) Ni raid darllen cynigiad a argraffwyd ar y Papur Agenda cyn ei gyflwyno.

b) Bydd i bob cynigiad neu welliant gael ei ddarllen yn union cyn cymryd pleidlais arno.

16 Pan elwir am bleidlais, penodir rhifwyr dros Urdd y Clerigiaid a thros Urdd y Lleygwyr, gan y Llywydd neu'r Cadeirydd.

17 Bydd i'r Pwyllgor Sefydlog gael ei awdurdodi i weithredu ar ran y Gynhadledd Esgobaethol, rhwng ei gyfarfodydd, mewn unrhyw fater y barna Esgob yr Esgobaeth ei bod yn angenrheidiol, a bydd i adroddiad o hynny gael ei roi gerbron y Gynhadledd yn ei chyfarfod nesaf.

18 Gall unrhyw aelod siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg.

19 Bydd i Gofnod Presenoldeb gael ei gadw.

20 Ni fydd cynigiad i ohirio Rheolau Sefydlog yn dderbyniol onibai fod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn codi i gefnogi hynny.

21 Bydd i'r Rheolau Sefydlog hyn gael eu hargraffu a'u hanfon allan gyda'r Agenda ar gyfer pob cyfarfod o'r Gynhadledd.